

Mae'n effeithio ar bawb

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr

Gorffennaf 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddPlant

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae'n effeithio ar bawb

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr

Gorffennaf 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPlant

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sioned Williams AS
Plaid Cymru



Laura Anne Jones AS
Ceidwadwyr Cymreig



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
1. Cyflwyniad.....	11
Cefndir	11
Ein hymchwiliad ni.....	13
Llywio'r adroddiad hwn	16
2. Beth yw aflonyddu rhywiol?	17
Sut y mae Estyn ac eraill yn diffinio aflonyddu rhywiol?	17
A yw aflonyddu rhywiol yn fath o fwlio?	18
Beth mae 'aflonyddu rhywiol' yn ei olygu i ddysgwyr?	20
Aflonyddu rhywiol a'r gyfraith	22
Ein barn ni	24
3. Maint a natur y broblem.....	26
Ysgolion uwchradd	26
Addysg bellach	31
Ysgolion cynradd	32
A yw rhai dysgwyr mewn mwy o berygl nag eraill?	33
Ein barn ni	37
4. Adrodd am ddigwyddiadau a chasglu data	39
A yw dysgwyr bob amser yn adrodd am achosion o aflonyddu rhywiol?	39
Casglu data ac adrodd arnynt.....	42
Rolau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.....	45
Ein barn ni	48
5. Achosion aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr.....	51
Adlewyrchiad o gymdeithas	51

Pornograffi a delweddau rhywioledig.....	52
Y cyfryngau cymdeithasol, gemau ar-lein, a phlatfformau cymdeithasu digidol eraill	55
Y pandemig.....	57
Ein barn ni	58
6. Effaith aflonyddu rhywiol ar ddysgwyr.....	60
Sut mae aflonyddu rhywiol yn effeithio ar ddysgwyr.....	60
Effaith aflonyddu rhywiol ar grwpiau penodol o ddysgwyr	62
Cefnogaeth i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol	64
Ein barn ni	65
7. Ymateb i'r broblem	67
Ysgolion a cholegau	67
'Ysgolion cymunedol' a gweithio gyda'r heddlu, awdurdodau lleol, elusennau ac eraill	81
Rhieni a theuluoedd	87
Llywodraeth Cymru	90
Ein barn ni	97
8. Y cyd-destun ehangach.....	105
Y cwricwlwm newydd	105
Y Bil Diogelwch Ar-lein	112
Ein barn ni	115
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	119
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	122
Gwybodaeth ychwanegol	123

Rhagair y Cadeirydd

Ym mis Tachwedd 2021, fe wnes i gwrdd â chynrychiolwyr yr heddlu i drafod eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Dywedodd cynrychiolwyr yr heddlu wrthyf eu bod yn arbennig o bryderus am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a oedd yn dod yn fwyfwy cyffredin, yn enwedig ar-lein.

Ar yr un pryd, roedd Estyn yn paratoi i adrodd ar ei ymchwiliad i aflonyddu rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgol uwchradd. Dangosodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2021, pa mor anferthol yw'r broblem. Mae'r broblem mor gyffredin mewn ysgolion fel ei bod wedi dod yn beth normal. Nid yw pobl ifanc yn teimlo'u bod yn gallu siarad â staff ysgol am y peth, ac mae ysgolion yn cael trafferth ymateb pan fyddant yn gwneud hynny. Mae aflonyddu yn parhau ar ôl oriau ysgol, gan dreiddio i fywydau pobl ifanc ar-lein, yn ogystal â'u bywydau yn yr ysgol.

Dyma ein hymchwiliad polisi cyntaf yn y Chweched Senedd. Fe wnaethom ni flaenoriaethu'r mater hwn oherwydd ein bod yn credu ei fod yn fater brys oedd yn methu aros. Er mor ddifrifol ag inni gymryd y mater bryd hynny, wrth imi edrych yn ôl chwe mis yn ddiweddarach, mae'n amlwg i mi nad oeddem yn llwyr werthfawrogi maint y broblem.

Canfu Estyn fod 61 y cant o ddisgyblion benywaidd a 29 y cant o ddisgyblion gwrywaidd wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol. Dywedodd ein hymchwiliad wrthym fod y ffigurau hynny, yn ôl pob tebyg, yn amcangyfrif rhy isel o lawer. Nid oedd Estyn wedi ystyried aflonyddu rhywiol mewn ysgolion cynradd na cholegau. Dywedodd ein hymchwiliad wrthym fod aflonyddu rhywiol, fwy na thebyg, yn gyffredin yn y ddau. Canfu Estyn fod disgyblion LHDTTC+ yn arbennig mewn perygl o ddioddef aflonyddu rhywiol. Clywsom yr un peth ynghylch dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Er nad oes gennym ddata cadarn eto, clywsom fod grwpiau eraill o ddysgwyr yn debygol o fod mewn perygl mawr hefyd.

Clywsom fod effaith aflonyddu rhywiol ar rai dysgwyr mor ddifrifol fel ei fod, yn ogystal ag yn effeithio ar eu haddysg, yn effeithio ar eu perthnasoedd, eu hiechyd meddwl, eu rhagolygon bywyd, ac yn gallu – yn yr achosion mwyaf difrifol – arwain at hunan-niwed a hunanladdiad.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn nodi, mae achosion aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn gymhleth. Maent yn cynnwys agweddau cymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, sy'n cael eu gwaethygu gan bornograffi, y cyfryngau cymdeithasol, ac, yn y blynyddoedd diwethaf, y pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn faterion diwylliannol sefydledig sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn a chwmpas ein hymchwiliad.

Rydym wedi gwneud 24 o argymhellion yn yr adroddiad hwn. Maent yn ymdrin ag ystod o faterion, rhai'n eang a rhai'n benodol. Maent i gyd wedi'u gwneud yn adeiladol, ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru, Estyn a'r cyrff eraill dan sylw yn eu canfod felly.

Mae modd rhannu ein hargymhellion yn ddwy thema eang.

Y thema gyntaf yw bod yn rhaid i bobl ifanc eu hunain fod yn gwbl ganolog i ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Rydym ni fel Pwyllgor wedi ymrwymo i roi plant a phobl ifanc yn gyntaf, i flaenoriaethu eu lleisiau, eu profiadau ac i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud gwahaniaeth iddynt. Gyda'r mater hwn, fel llawer o rai eraill, ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â'r mater yn effeithiol oni bai bod pobl ifanc yn chwarae rhan flaenllaw yn yr ymateb.

Yr ail thema yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud beth bynnag sydd ei angen, mor gyflym ag y gall, i leihau maint ac effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae'r broblem yn rhy ddifrifol, ac mae'n effeithio ar ormod o bobl ifanc, i hyn fod yn unrhyw beth heblaw blaenoriaeth. Rydym wedi gofyn llawer gan Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn; dim byd llai nag y mae ein pobl ifanc yn ei haeddu.

Yn y pen draw, nid oes modd gwneud ysgolion yn gwbl gyfrifol am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Mae'n rhaid i ni i gyd gymryd cyfrifoldeb am hyn, ac mae gennym ni i gyd rôl i'w chwarae i'w leihau. Mae hon yn broblem i gymdeithas gyfan. Mae angen i Lywodraeth Cymru, y Senedd, awdurdodau lleol, ysgolion, elusennau, rhieni a theuluoedd – pob un ohonom – gymryd camau gyda'n gilydd i ddadnormaleiddio ymddygiadau niweidiol.

Mae'n effeithio ar bawb.



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac Estyn fabwysiadu/parhau i ddefnyddio'r diffiniad o aflonyddu rhywiol a ddefnyddir gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', gan gynnwys yr enghreifftiau penodol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y defnyddiodd Estyn yn ei waith gyda disgyblion..... Tudalen 25

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol o bobl ifanc ledled Cymru i gyd-gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Tudalen 25

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, wedi'i chyd-gynllunio â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc, yn targedu dysgwyr ledled Cymru (gweler Argymhelliad 2), i wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol. Tudalen 25

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant oed ysgol gynradd, gan fanteisio ar arbenigedd ac arweiniad gan elusennau plant, academyddion a Chomisiynydd Plant Cymru fel y bo'n briodol. Tudalen 38

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data gan ysgolion ar aflonyddu rhywiol yn benodol bob mis, yn dadansoddi'r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac yn adrodd ar eu canfyddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid gwneud y canlynol o ran y data:

- eu casglu ar sail y diffiniad o aflonyddu rhywiol a fabwysiadwyd gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021; a'u
- dadansoddi yn ôl naw nodwedd warchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 i gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Tudalen 49

Argymhelliad 6. Fel rhan o'i fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau ysgol arferol, rhaid i Estyn gynnwys, erbyn mis Ionawr 2023 fan bellaf, ystyriaeth o ddulliau ysgolion o gadw cofnodion o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn benodol, sut mae ysgolion yn archwilio'r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac i ba raddau y mae'r data hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau yn yr ysgol. Rhaid i ddull o'r fath beidio â chosbi nac adlewyrchu'n wael ar ysgolion dim ond oherwydd bod ganddynt achosion o aflonyddu rhywiol,

ond yn hytrach ganolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn casglu data ac yn gweithredu ar y data hyn. Tudalen 49

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw adolygiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach ac ysgolion cynradd yn ystyried pa mor effeithiol y mae ysgolion a cholegau yn casglu, yn categoraiddio ac yn dadansoddi data ar aflonyddu rhywiol i nodi tueddiadau a datblygu ymyriadau yn yr ysgol/coleg. Tudalen 50

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu am achosion sylfaenol aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion – fel portreadau afiach o berthnasoedd ac ymddygiadau rhywiol ar draws cymdeithas sy'n cael eu gwaethygu gan bornograffi, y cyfryngau cymdeithasol, platfformau gemau ar-lein ac eraill – fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol cyfredol a'r cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol. Tudalen 58

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru drin aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a sicrhau ei bod yn blaenoriaethu ei hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac yn dyrannu adnoddau ar ei gyfer yn briodol. Tudalen 65

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal adolygiad o'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc sydd wedi profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gyda'r bwriad o wneud argymhellion i ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd ac amseroldeb y cymorth hwnnw. Tudalen 66

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion a cholegau yn creu diwylliant lle y mae aflonyddu rhywiol yn annerbyniol, bod adroddiadau o aflonyddu rhywiol yn cael eu cymryd o ddifrif, a bod yr ymateb iddynt yn brydlon a chyson. Tudalen 98

Argymhelliad 12. Mae'n rhaid i Estyn gynnwys ystyriaeth benodol yn ei fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau arferol o ysgolion o'r modd y mae ysgolion a cholegau yn ymateb i ddysgwyr sydd wedi adrodd am aflonyddu rhywiol neu wedi'i brofi, ac yn eu cefnogi, ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad unigolion sydd wedi cyflawni'r aflonyddu rhywiol. Rhaid i ddull o'r fath beidio â chosbi nac adlewyrchu'n wael ar ysgolion dim ond oherwydd bod ganddynt achosion o aflonyddu rhywiol, ond yn hytrach ganolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn ymdrin ag achosion ac yn cefnogi disgyblion. Tudalen 98

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gael i ysgolion er mwyn i bob aelod o staff ysgol gael hyfforddiant ar adnabod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ymateb iddo ac adrodd arno. Dylai'r cyllid hwnnw gynnwys darpariaeth i ysgolion wneud trefniadau cyflenwi ar gyfer athrawon sy'n cael eu tynnu allan o'r dosbarth, os oes angen. Tudalen 99

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr ag Estyn, academyddion perthnasol, a'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2) i gasglu a choladu enghreifftiau o addysg rhyw a pherthnasoedd y mae dysgwyr yn eu hystyried yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, gyda'r bwriad o greu cronfa o adnoddau ar gyfer ysgolion a cholegau i hwyluso rhannu arfer da ledled Cymru. Lle y bo'n briodol ac yn bosibl, rhaid i'r rhain, ochr yn ochr â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, lywio darpariaeth addysg rhyw a pherthnasoedd i ddysgwyr hŷn nad yw eu grwpiau blwyddyn yn dod dan y Cwricwlwm i Gymru. Tudalen 100

Argymhelliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol a/neu ysgolion i sicrhau bod gan ysgolion bolisiau clir ar ddefnydd derbyniol gan ddysgwyr o ffonau symudol drwy gydol y diwrnod ysgol, bod y polisiau hynny'n cael eu cyfathrebu'n dda i ddysgwyr, staff a rhieni, a'u bod yn cael eu gorfodi'n gyson gan staff yr ysgol. Tudalen 100

Argymhelliad 16. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau adolygiad 2019 a gynhaliwyd i raglen yr heddlu mewn ysgolion Cymru. Tudalen 101

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i greu a chynnal cronfeydd data o sefydliadau y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ysgolion a cholegau a allai eu cynorthwyo yn eu hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Tudalen 101

Argymhelliad 18. Fel rhan o'i gwaith ehangach i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion, rhaid i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal ymgyrch i codi ymwybyddiaeth sy'n targedu rhieni a theuluoedd er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan gynnwys sut a phryd y caiff ei gyflawni ac effaith aflonyddu rhywiol ar bobl ifanc;
- helpu rhieni a theuluoedd i siarad â'u plant a'u cefnogi, gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol gan eu plant, os oes angen; a

- gwella dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn cael mynediad at gynnwys/platfformau ar-lein amhriodol, y cyfyngiadau oedran sy'n gysylltiedig â'r platfformau hynny, a pha gamau y gall rhieni eu cymryd i gyfyngu ar fynediad ar-lein eu plant. Tudalen 102

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau traws cenedlaethol statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol erbyn Ionawr 2023 fan bellaf.....Tudalen 103

Argymhelliad 20. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydnabod effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddiogelwch a llesiant dysgwyr benywaidd, a bod yn rhaid cynnwys gwaith i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysgol ac o'u cwrdd mewn unrhyw ffordd waith yn y dyfodol sy'n deillio o'r strategaeth honno.....Tudalen 103

Argymhelliad 21. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cynllun gweithredu LHDTC+ erbyn hydref 2022 fan bellaf. Rhaid i'r cynllun gweithredu gydnabod maint ac effaith y broblem aflonyddu rhywiol ar ddysgwyr LHDTC+, a nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion ac eraill i fynd i'r afael â hi.Tudalen 103

Argymhelliad 22. Rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen yn gyflym â'i gwaith i gyhoeddi cynllun gweithredu amlasiantaethol i fynd i'r afael â phroblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, wedi'i lywio gan adroddiad Estyn ac yn unol â gwaith perthnasol arall sy'n mynd rhagddo ar draws y llywodraeth.....Tudalen 104

Argymhelliad 23. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022, ac yna bob chwe mis wedi hynny, ynghylch niferoedd a chyfrannau'r awdurdodau lleol ac ysgolion sydd ag arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle.....Tudalen 117

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i'r Senedd graffu ar unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Diogelwch Ar-lein yn y dyfodol, os gwneir diwygiadau i'r Bil hwnnw sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Tudalen 118

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Roeddem yn gwybod, cyn i ni ddechrau'r ymchwiliad hwn, fod llawer o bobl ifanc yn cael eu haflonyddu'n rhywiol gan eu cyfoedion. Yn wir, i rai ohonom, mae'r gwaith wedi dwyn atgofion o aflonyddu rhywiol y gwnaethom ni gael profiad ohono neu yr oeddem yn dyst iddo yn ystod ein plentyndod ein hunain. Mae rhai ohonom hefyd yn ymwybodol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion drwy blant yn ein teuluoedd ein hunain, plant ffrindiau, neu blant yr ydym yn gweithio gyda nhw. Yn gryno – nid problem newydd yw hon.
2. Yr hyn a fydd yn llai amlwg i lawer, er gwaethaf y degawdau o waith ymchwil ar y pwnc, yw maint y broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac i ba raddau y mae wedi'i normaleiddio ar draws ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'i effaith ar bobl ifanc wedi cynyddu, diolch i raddau helaeth i'r mudiad Everyone's Invited.
3. Nod y mudiad Everyone's Invited yw datgelu a dileu diwylliant trais rhywiol drwy empathi, tosturi a dealltwriaeth. Fe'i sefydlwyd gan Soma Sara, rhywun sydd wedi goroesi aflonyddu rhywiol, ac a greodd y wefan fel gofod dienw i oroeswyr rannu eu straeon yn dilyn ymateb ysgubol gan y cyhoedd i'w phrofiadau ei hun a rannodd ar Instagram ym mis Mehefin 2020. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Mehefin 2022, mae gwefan Everyone's Invited wedi cyhoeddi dros 50,000 o dystebau.¹
4. Ym mis Ebrill 2021, yn sgil y tystebau ar wefan Everyone's Invited, gofynnodd Llywodraeth y DU i Ofsted gynnal adolygiad o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau yn Lloegr.² Cyflwynodd Ofsted adroddiad ar ei chanfyddiadau ym mis Mehefin 2021. Fe wnaethant ymgysylltu â thua 900 o blant a phobl ifanc mewn grwpiau ffocws, gan gynnal arolwg gydag ychydig dros 800 o blant a phobl ifanc 13 oed a hŷn ynghylch eu canfyddiadau o aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol. Daeth Ofsted i'r casgliad bod achosion o aflonyddu rhywiol a cham-drin rhywiol ar-lein mor gyffredin fel nad yw rhai plant yn gweld pwynt adrodd amdanynt, a bod aflonyddu rhywiol a cham-drin rhywiol ar-lein ymhlith plant a phobl ifanc yn llawer mwy cyffredin nag y mae oedolion yn sylweddoli.³

¹ Everyone's Invited, [Ynghylch y sefydliad](#)

² Gov.uk, [Adolygiad Ofsted i gam-drin rhywiol mewn ysgolion: cylch gorchwyl](#), Ebrill 2021

³ Gov.uk, [Adolygiad o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau](#), 10 Mehefin 2021

- 5.** Ym mis Mehefin 2021, gofynnodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i Estyn adolygu'r diwylliant a'r prosesau mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd annibynnol yng Nghymru i amddiffyn a chefnogi pobl ifanc rhag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Yn wahanol i adolygiad Ofsted, nid oedd adolygiad Estyn yn ystyried aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn colegau. Nid oedd adolygiad Estyn nac adolygiad Ofsted yn ystyried aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion cynradd nac addysg uwch.
- 6.** Cyhoeddwyd adroddiad Estyn ar brofiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgol uwchradd yng Nghymru, sef "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", ym mis Rhagfyr 2021. Casglodd Estyn wybodaeth gan ddisgyblion oed ysgol uwchradd ar draws 35 o ysgolion, gan gynnwys o leiaf un ysgol o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Cynhaliodd Estyn grwpiau ffocws a chynhaliodd arolwg, a lenwyd gan oddeutu 1,250 o ddisgyblion. Fel rhan o'r ymweliadau ag ysgolion, cynhaliwyd trafodaethau hefyd ag uwch arweinwyr, arweinwyr diogelu, athrawon a staff cymorth addysgu.⁴
- 7.** Canfu adroddiad Estyn fod tua hanner yr holl ddisgyblion yn dweud bod ganddynt brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Dywed tua thri chwarter yr holl ddisgyblion eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn cael profiad ohono. Y mathau mwyaf cyffredin o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ystod y diwrnod ysgol yw disgyblion yn heclo ac yn gwneud sylwadau niweidiol, ond mewn gwirionedd mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fwy cyffredin ar-lein a thu allan i'r ysgol nag yn yr ysgol. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn dweud wrth eu hathrawon am aflonyddu rhywiol oherwydd ei fod yn digwydd mor rheolaidd, ac oherwydd bod athrawon yn aml yn diystyru neu'n anwybyddu eu pryderon. Dywedodd disgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan wrth Estyn nad ydynt wedi cael digon o addysg rhyw a chydberthynas, er eu bod yn gwerthfawrogi gwersi gan siaradwyr allanol ac arbenigwyr am addysg rhyw a chydberthynas iach.⁵
- 8.** Ym mis Mawrth 2022, wrth i ymwybyddiaeth y cyhoedd o faint y broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, fe wnaeth y BBC ryddhau'r rhaglen ddogfen 'Uncovering Rape Culture', a gyflwynwyd gan Zara McDermott, seren teledu realiti a model. Mae'r rhaglen ddogfen yn tynnu ar ganfyddiadau adroddiad Ofsted a thystebau Everyone's Invited i archwilio diwylliant trais rhywiol mewn ysgolion. Mae'n ystyried profiadau menywod ifanc a merched o aflonyddu a cham-drin rhywiol, ac yn myfyrio ar effaith pornograffi a'r cyfryngau cymdeithasol o ran hyrwyddo agweddau rhywiol niweidiol ac afiach ymhlith bechgyn a dynion ifanc.⁶

⁴ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalennau 7-8

⁵ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalennau 7-8

⁶ BBC iPlayer, 'Uncovering Rape Culture'

Ein hymchwiliad ni

9. Ar 15 Tachwedd 2021, cyfarfu ein Cadeirydd, Jayne Bryant AS, â chynrychiolwyr yr heddlu i drafod eu blaenoriaethau a'u pryderon mewn perthynas â phlant, pobl ifanc ac addysg yng Nghymru. Fe wnaeth cynrychiolwyr yr heddlu dynnu sylw'n benodol at eu pryderon ynghylch maint y broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion, a'i difrifoldeb.

10. Fe wnaethom ni ystyried pryderon yr heddlu yn erbyn cefndir y dystiolaeth o wefan Everyone's Invited am faint y broblem o aflonyddu rhywiol yn ysgolion Cymru a chanfyddiadau adroddiadau Ofsted ac Estyn. Fe wnaethom ni gytuno, wedi hynny, y byddai ein hymchwiliad polisi cyntaf yn y Chweched Senedd yn ystyried aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r ymchwiliad gynnwys rhai dysgwyr sydd y tu allan i gwmpas adolygiad Estyn: disgyblion oed ysgol gynradd a myfyrwyr coleg.

Llinell amser yr ymchwiliad:

Mae'r llinell amser isod yn nodi sut y gwnaethom ni gynnal ein hymchwiliad.



Tachwedd 2021

Yn ystod sesiwn frifio, fe wnaeth cynrychiolwyr yr heddlu gyfleu eu pryder ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion i Gadeirydd y Pwyllgor, Jane Bryant AS.



13 Rhagfyr 2021

Mae'r Pwyllgor yn craffu ar Estyn ynghylch ei adroddiad blynyddol 2020-21.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cymryd y cyfle i ofyn i Estyn am ganfyddiadau allweddol yr adroddiad diweddar ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

O ganlyniad, mae'r Aelodau'n cytuno i gynnal ymchwiliad i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel eu hymchwiliad polisi cyntaf yn y Chwchedd Senedd.



18 Chwefror 2022

Mae'r Pwyllgor yn lansio dau ymgynghoriad.

Mae'r cyntaf wedi'i anelu at blant a phobl ifanc 11-18 oed, yn canolbwyntio ar atebion.

Mae'r ail wedi'i anelu at sefydliadau, gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr.



08 Rhagfyr 2021

Mae Estyn yn cyhoeddi ei adroddiad 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon - Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru'.



Ionawr 2022

Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad, ei ddull o gasglu tystiolaeth, a sut y bydd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.



10 Chwefror 2022

Mae'r Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth fanwl gan Estyn.



10 Mawrth 2022

Mae'r Pwyllgor yn clywed gan gynrychiolwyr y system cyfiawnder troseddol, llywodraeth leol, llywodraeth leol ac addysg bellach, yn ogystal â Chomisiynydd Plant Cymru a'r NSPCC.



24 Mawrth 2022

Mae'r Pwyllgor yn clywed gan gynrychiolwyr: undebau arweinwyr ysgolion, undebau athrawon, mudiadau rhieni a gwasanaethau ieuenctid, yn ogystal ag arbenigwyr cydraddoldeb a'r Athro EJ Renold.



01 Ebrill 2022

The consultations close.



Ebrill 2022

Mae 'bwrdd golygyddol' o blith pobl ifanc, gyda chefnogaeth swyddogion y Senedd, yn trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad pobl ifanc y cafodd y Pwyllgor ac yn creu fideo i'w crynhoi.



27 Ebrill 2022

Mae fideo y bwrdd golygyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Mae crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.



04 Mai 2022

Mae'r Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.



Mehefin 2022

Mae rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu briffio gan yr Athro G.J. Melendez-Torres a Dr Honor Young ynghylch canfyddiadau eu hastudiaeth ryngwladol fawr i effeithiolrwydd ymyriadau yn yr ysgol i fynd i'r afael â thrais canlyn a pherthynas a thrais ar sail rhywedd.



Gorffennaf 2022

Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi dau allbwn:

1. Adroddiad Pwyllgor traddodiadol, wedi'i dargedu at Lywodraeth Cymru.
2. Fideo, wedi'i dargedu at blant a phobl ifanc, yn cyfleu canfyddiadau allweddol yr ymchwiliad ac yn cyfeirio at ffynonellau cymorth lle bo'n briodol.

Gweithgareddau ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed

Llywio'r adroddiad hwn

Gwybodaeth

Er mwyn cadw'r adroddiad hwn mor hygyrch â phosibl, rydym wedi ceisio osgoi jargon, acronymau a thermau ac ymadroddion eraill a allai fod yn ddryslyd.

Lle y mae angen inni ddefnyddio term neu ymadrodd nad yw efallai'n cael ei ddeall yn eang (fel enw polisi gan Lywodraeth Cymru neu derminoleg gyfreithiol benodol), rydym wedi cynnwys gwybodaeth fer yr ydym yn gobeithio y bydd yn helpu darllenwyr.

Mae'r wybodaeth hon yn ymddangos mewn blychau wrth ymyl lle y mae'r term neu'r ymadrodd yn ymddangos gyntaf yn ein hadroddiad, fel hyn.

Ystyr geiriau ac ymadroddion allweddol

Mae rhai geiriau ac ymadroddion yn aml yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Oni bai ein bod yn dweud yn wahanol, drwy gydol yr adroddiad hwn:

ystyr "**dysgwyr**" yw unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd yn yr ysgol, mewn chweched dosbarth, neu mewn addysg bellach. Mae hefyd yn golygu plant sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol. Yn yr adroddiad hwn, nid yw'n golygu unrhyw un mewn addysg uwch nac mewn meithrinfa, oherwydd eu bod y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad hwn.

ystyr "**ysgolion**" yw unrhyw sefydliad sy'n darparu addysg i blant, fel: ysgolion prif ffrwd ac arbennig awdurdodau lleol; ysgolion prif ffrwd ac arbennig annibynnol; ysgolion ffydd. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn golygu Unedau Cyfeirio Disgyblion. Nid yw'n golygu meithrinffeydd, colegau, chweched dosbarth na phrifysgolion.

ystyr "**pobl ifanc**" neu "**person ifanc**" yw unrhyw un sydd o oedran ysgol neu goleg (fel arfer hyd at oddeutu 18 oed).

ystyr "**rhieni**" yw unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, h.y. unrhyw un sydd â'r hawl i wneud penderfyniadau am ofal a magwraeth plentyn, boed a yw'n rhiant biolegol y plentyn ai peidio.

2. Beth yw aflonyddu rhywiol?

Mae gan sefydliadau, academyddion ac unigolion gwahanol ddehongliadau gwahanol o beth yw aflonyddu rhywiol, ac mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol rhwng dysgwyr yn gymhleth. Fe wnaethom ni glywed bod hyn wedi creu dryswch, yn bwysicaf oll ymhlith pobl ifanc eu hunain, ynghylch yr hyn sy'n cyfrif fel ymddygiad rhywiol priodol a'r hyn nad yw'n briodol.

Sut y mae Estyn ac eraill yn diffinio aflonyddu rhywiol?

12. Yn ei adroddiad yn 2021, mae Estyn yn diffinio aflonyddu rhywiol fel pan fydd "person yn ymgymryd ag ymddygiad digroeso o natur rywiol sydd gyda'r bwriad neu'r effaith o: amharu ar urddas rhywun; neu greu amgylchedd bygythiol, cas, diraddiol, ymosodol neu sy'n cywilyddio iddynt". Yn ei waith gyda disgyblion, fe wnaeth ddiffinio aflonyddu rhywiol yn fwy penodol:

- *"gwneud sylwadau neu jôcs rhywiol naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein*
- *codi sgertiau neu dynnu llun o dan ddillad rhywun heb yn wybod iddi/iddo*
- *gwneud sylwadau cas am gorff, rhywedd, rhywioldeb neu olwg rhywun i achosi cywilydd, gofid neu fraw iddo/iddi*
- *camdriniaeth yn seiliedig ar ddelwedd, fel rhannu llun neu fideo o rywun yn noeth/hanner noeth heb gydsyniad y sawl sydd yn y llun*
- *anfon ffotograffau/fideos rhywiol, cignoeth neu bornograffig digroeso at rywun"*⁷

13. Mae adolygiad Ofsted yn defnyddio'r termau *cam-drin* rhywiol rhwng cyfoedion ac *aflonyddu* rhywiol rhwng cyfoedion. Diffiniad Ofsted o gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion yw: trais rhywiol (fel treisio, ymosodiad drwy dreiddiad ac ymosodiad rhywiol); aflonyddu rhywiol (y mae'n ei ddiffinio fel sylwadau a jôcs rhywiol, gan gynnwys ar-lein); tynnu lluniau i fyny sgertiau

⁷ Estyn, "*Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon*", Rhagfyr 2021, tudalen 1

(neu upskirting, sy'n nodweddiadol yn golygu tynnu llun o dan ddillad person heb yn wybod iddo); a secstio (neu 'delweddau rhywiol sy'n cael eu creu gan bobl ifanc').⁸

14. Mae Llywodraeth Cymru, yn y cyfamser, yn defnyddio diffiniad Adran Addysg y DU o aflonyddu rhywiol, sef "ymddygiad parhaus a dieisiau o natur rywiol gan blentyn tuag at blentyn arall sy'n gallu digwydd ar-lein, ac all-lein. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o: amharu ar urddas plentyn, a/neu wneud iddo deimlo dan fygythiad, yn israddol neu wedi'i fychanu a/neu greu amgylchedd gelyniaethus, tramgwyddus neu rywioledig."⁹

15. Mae astudiaethau eraill yn rhoi diffiniadau ychydig yn wahanol o'r un termau, neu dermau tebyg. Er enghraifft, yng nghyd-destun aflonyddu a cham-drin yn seiliedig ar ddelwedd, mae'r ymchwilyr Ringrose, Regehr a Milne yn diffinio "aflonyddu rhywiol" fel delweddau rhywiol digroeso (e.e. seiberfflachio neu luniau digymell o bidyn), a chais digroeso am ddelweddau rhywiol. Maent yn diffinio "cam-drin", ar y llaw arall, fel recordio, dosbarthu, a/neu fygwth dosbarthu delweddau noeth neu rywiol heb gydsyniad.¹⁰

16. Cyfaddefodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ni nad yw bob amser yn glir iddi beth sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol a beth nad yw'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol:

"I'd say that this is a very grey area and that it's inconsistent across Wales. I'd hold my hand up to say I wouldn't be fully aware of what classes as sexual harassment or not myself, because it's cultural things: is it somebody saying something to you, is it more than that?"¹¹

17. Cytunodd Comisiynydd Plant Cymru ar y pryd y gallai diffiniadau fod yn gliriach. Dywedodd wrthym ei bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gryfhau canllawiau gwrth-fwlio 2019, ac y gellir cael canllawiau a diffiniadau mwy penodol ynghylch bwlio ar sail rhywedd ac aflonyddu rhywiol.¹²

A yw aflonyddu rhywiol yn fath o fwlio?

18. Er gwaethaf y diffiniadau gwahanol o aflonyddu rhywiol, cam-drin rhywiol a thermau cysylltiedig eraill, clywsom fod bwlio ac aflonyddu rhywiol yn bethau gwahanol, a'i bod yn bwysig defnyddio'r derminoleg gywir.

⁸ Gov.uk, 'Adolygiad Ofsted o gam-drin rhywiol mewn ysgolion: cylch gwaith', Ebrill 2021

⁹ Welsh Government, 'Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion', Hydref 2020, tudalen 6

¹⁰ Jessica Ringrose, Kaitlyn Regehr a Betsy Milne, 'Understanding and Combatting Youth Experiences of Image-Based Sexual Harassment and Abuse', Rhagfyr 2021

¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 186

¹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 388

19. I lawer, mae defnyddio'r term 'bwlio' yn bychanu profiadau pobl ifanc. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y canlynol wrthym:

*"where we are trying to highlight an issue that is so prevalent and can be so damaging, [I wonder] whether bullying is just not strong enough a word [...] We need to be upfront about what we're describing here, and it's abuse."*¹³

Fe wnaeth yr Athro Renold hefyd groesawu'r symudiad i ffwrdd o'r label 'bwlio rhywiol'. Roeddent yn dadlau bod aflonyddu rhywiol yn cynrychioli natur amlochrog profiadau rhai pobl ifanc yn well:

*"The individualising logic of 'bullying', with its psychological categories of victim, perpetrator and bystander, struggle to address the social and cultural power relations that children are caught up in and negotiate on a daily basis. 'Harassment' can better capture the textual, verbal, physical, material, emotional and psychological sexual and gendered abuses of power in children's everyday peer cultures, relationships and social and cultural worlds more widely, including the routine and normalised everyday sexism and rape culture circulating across their 'online' and 'offline' worlds and in wider media representations."*¹⁴

20. Fe wnaethant ddweud wrthym fod angen arweiniad clir am y gwahaniaeth rhwng bwlio ac aflonyddu; un dudalen gan Lywodraeth Cymru yn dweud beth yw'r gwahaniaeth.¹⁵

21. Fe wnaethom ni glywed bod gan y labeli yr ydym yn eu defnyddio yn arwain at ganlyniadau uniongyrchol o ran adrodd profiadau pobl ifanc ac ymateb iddynt. Eglurodd yr NSPCC:

*"if we define incidents as bullying, it can, for some young people who experience harassment and abuse, make them feel as though it's not being taken as seriously as it should"*¹⁶

Roedd yr Athro Renold yn dadlau bod gan hyn oblygiadau o ran adrodd am ddigwyddiadau, oherwydd bod y ffyrdd y mae dysgwyr ac ysgolion yn deall beth sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol a/neu fwlio rhywiol yn llywio'r hyn sy'n cael ei adrodd.¹⁷ Pwysleisiodd Platfform fod aflonyddu rhywiol yn fath o drais rhywiol ac y dylid ei ystyried o ganlyniad yn brofiad niweidiol

¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 344

¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 387

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

yn ystod plentyndod. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw effeithiau hirdymor ar y person ifanc yn gysylltiedig â'i brofiad o aflonyddu rhywiol.¹⁸

22. Fe wnaethom ni ofyn i Lywodraeth Cymru a oedd digon o ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng aflonyddu rhywiol ac ymddygiad bwlio ehangach. Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod gwahaniaeth rhwng y ddau derm, ac ychwanegodd y canlynol:

"the Estyn report itself contains a definition of sexual harassment, and the multi-agency action plan [...] works to the same definition as the Estyn definition".

Aeth ymlaen i gydnabod y canlynol:

*"in the work that we are currently doing around improving our guidance, our professional learning, in the space of sexual harassment, there is definitely scope for making sure that definition is what it needs to be and that it's well understood through all parts of the system."*¹⁹

Beth mae 'aflonyddu rhywiol' yn ei olygu i ddysgwyr?

23. Mae 'aflonyddu rhywiol', 'cam-drin rhywiol', a 'bwlio rhywiol' i gyd yn dermau sydd wedi'u creu gan oedolion. A hyd yn oed wedyn, mae llawer o oedolion yn cael trafferth deall beth maent yn ei olygu. Roeddem yn meddwl tybed a oedd pobl ifanc yn deall yr hyn y mae Estyn ac eraill yn ei olygu wrth aflonyddu rhywiol.

24. Fe'n sicrhawyd gan Estyn fod gan y rhan fwyaf o fechgyn a merched ddealltwriaeth glir o beth yw aflonyddu rhywiol, hyd yn oed yn oedran blwyddyn 8 a blwyddyn 9.²⁰ Fodd bynnag, defnyddiodd gwaith Estyn enghreifftiau penodol i drosi ei ddiffiniad mwy haniaethol yn iaith a fyddai'n golygu rhywbeth i bobl ifanc. Esboniodd yr Athro Renold pam mae mor bwysig bod yn glir ynghylch yr hyn a olygir wrth ddefnyddio termau fel 'aflonyddu rhywiol':

"They look at the phenomena, not, 'Young people, are you bullied?' They don't necessarily use the concepts of bullying and harassment. I mean, even in [the Children, Young People and Education Committee's] survey, asking young people to respond, I had a quick look, and you used the language that young people tend not to use to know that they're experiencing that. You

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH09 - Platform

¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 16

²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

have to actually go to, 'Did this happen?', if you want to do it in that way.

'Has someone looked at you?' Or you go for very specific things."²¹

25. Un o ganfyddiadau allweddol yr arolwg hwnnw gyda phobl ifanc oedd eu bod eisiau mwy o addysg ynghylch beth yw aflonyddu rhywiol. Argymhelliad un person ifanc oedd "addysgu pobl ifanc ar beth yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a nodi nad yw hyn yn ymddygiad derbyniol". Cytunodd un arall, gan ddweud y "byddai dechrau o fewn y system addysg yn mynd i'r afael â'r broblem y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd dysgu - efallai... byddai codi ymwybyddiaeth o beth yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o fudd i'r ateb".²²

26. Fe wnaethom ni ofyn i grŵp o fyfyrwyr o Goleg Cambria ystyried canfyddiadau ein harolwg gyda phobl ifanc a'u defnyddio i gynhyrchu adroddiad fideo. Gwnaeth fideo'r myfyrwyr bedwar argymhelliad, gydag un ohonynt yn ymwneud â gwella addysg am aflonyddu rhywiol:

Argymhelliad 1: Credwn fod angen mwy o addysg mewn ysgolion a cholegau ar beth yn union yw aflonyddu rhywiol.²³

27. Wrth gyflwyno eu fideo i ni a thrafod eu canfyddiadau'n fanylach, esboniodd y myfyrwyr fod aflonyddu rhywiol mor gyffredin mewn ysgolion a cholegau fel nad yw llawer o bobl ifanc yn sylweddoli nad yw'n ymddygiad derbyniol. Fe wnaethant awgrymu i ni y gallai gwneud rhywbeth mor syml ag arddangos poster ar draws safleoedd ysgolion a cholegau yn nodi'n glir beth yw ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol fod yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr. Gallai'r posteri fod yn rhan o ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth.

28. Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn barod i dderbyn awgrym y myfyrwyr:

"I think it's a good idea and I think it's the kind of thing we'd want to look at as part of that broader communications strategy."

Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

"[...] in some ways, we've had to look very creatively at new ways of doing things, but I think, also, there are easier solutions that can be impactful as well around this, so I think it's really important to look at all that range. So,

²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 342

²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalen 4

²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalen 10

*anything that learners are saying to you about what they would appreciate, I think Jane [the Minister for Social Justice] and I would be very keen to hear on that specifically."*²⁴

Aflonyddu rhywiol a'r gyfraith

29. Mae adroddiad Estyn yn datgan bod aflonyddu rhywiol yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.²⁵ Fodd bynnag, er bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn dysgwyr rhag gwahaniaethu gan ysgol neu goleg, nid yw'n amddiffyn rhywun rhag aflonyddu rhywiol gan ei gyfoedion.

Beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud am aflonyddu rhywiol?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu diffiniad o "aflonyddu rhywiol" ond nid yw hyn yng nghyd-destun cyfraith droseddol. Nid yw aflonyddu rhywiol yn drosedd ynddo'i hun, ond gall amryw o droseddau fod yn gymwys. Mae rhai troseddau'n amddiffyn plant dan 13 oed yn benodol, tra bo'r dioddefwr yn blentyn, mewn achosion eraill, yn nodwedd waethybol. Ni all person dan 16 oed gydsynio i weithgaredd rhywiol, ac mae gweithgaredd rhywiol yn ymwneud â phlentyn dan 13 oed yn drosedd, ni waeth beth fo oedran y troseddwr.

Yng Nghymru a Lloegr, yr oedran cyfrifoldeb troseddol yw 10, ond gellir rhoi cosbau eraill i blant dan yr oedran hwn ac yn achos ad-droseddwy, gellir dwyn rhieni'n gyfrifol mewn modd cyfyngedig. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ni all darpariaeth o Ddeddf gan y Senedd addasu na chreu troseddau rhywiol (na rhoi pŵer i wneud hynny), ac ni all Deddf o'r fath addasu'r gyfraith ar gyfrifoldeb neu gapasiti troseddol.

Gall achosi neu ysgogi plentyn dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gael ei gyflawni heb ddioddefwr. Er enghraifft, barnwyd bod ysgrifennu graffiti yn dweud 'merch 8-13 oed yn eisiau ar gyfer rhyw' yn drosedd.

Gall secstio fod yn drosedd. Os yw'r dioddefwr yn 13, yn 14 neu'n 15 oed, bydd yn amddiffyniad os oedd y diffynnydd yn credu'n rhesymol bod y dioddefwr yn 16 oed neu'n hŷn. Nid yw'r amddiffyniad hwn yn gymwys os yw'r dioddefwr dan 13 oed. Mae'n drosedd gwneud, dosbarthu neu feddu ar luniau anwedus o unrhyw un dan 18 oed, ni waeth beth fo oedran y troseddwr. Gall anfon delweddau rhywiol digymell

²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 51 a 57.

²⁵ Estyn, "Dydym ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 1

neu negeseuon gyda chynnwys rhywiol hefyd fod yn drosedd, fel y mae tynnu lluniau i fyny sgertiau (neu 'upskirting').

Nid yw Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 yn cynnwys trosedd o aflonyddu rhywiol, er ei bod yn cynnwys troseddau o achosi braw neu drallod a rhoi pobl mewn ofn trais. Mae hefyd yn gwahardd stelcio. Gall aflonyddu o dan y Ddeddf honno ddigwydd pan fydd person yn postio ac yn bygwth postio gwybodaeth breifat a chyfrinachol am berson ar y rhynggrwyd neu'n anfon negeseuon bygythiol dros y rhynggrwyd.

Bydd Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU yn cynnwys pwerau rheoleiddio newydd gyda'r nod o ymdrin â chynnwys ar-lein sy'n niweidiol i blant a chamfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein.

30. Mae adroddiad Estyn yn nodi y gall rhai mathau o ymddygiad sy'n gyffredin mewn ysgolion uwchradd fod yn weithred droseddol:

*"O ran secstio, rhywioli cyfoedion ac anfon ffotograffau noeth, mae bron pob disgybl o Flwyddyn 10 ymlaen yn nodi materion cyffredin. Fodd bynnag, nid oedd llawer yn sylweddoli bod hyn yn weithred droseddol ac effaith cofnod troseddol ar eu gyrfa neu ddyheadau yn y dyfodol yn dilyn erlyniad."*²⁶

31. Fe wnaethom ni ofyn i gynrychiolwyr y system cyfiawnder troseddol esbonio i ni beth yw'r gyfraith ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Esboniodd y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Arweinydd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant fod cryn dipyn o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r holl bosibiliadau y gallwn eu gweld mewn perthynas â'r math hwn o weithgarwch a'i gymhlethdodau. Tynnodd sylw at ddeddfwriaeth fel Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, sy'n ymdrin ag anfon negeseuon sy'n hynod sarhaus, a Deddf Amddiffyn Plant 1978 sy'n ymdrin â thynnu delweddau rhywiol o berson dan 18 oed, meddu arnynt a'u rhannu.²⁷

32. Pwysleisiodd cynrychiolwyr yr heddlu i ni fod gwasanaeth yr heddlu yn osgoi troseddoli pobl ifanc lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn debygol bod y fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas ag ymdrin ag amrywiaeth eang ac amrywiol o fathau o droseddu yno.²⁸

²⁶ Estyn, *"Dyddyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon"*, Rhagfyr 2021, tudalen 18

²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 28 i 30

²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 38 a 105

33. Cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, gan ddweud wrthym fod rhywfaint o gyfle deddfwriaethol, er enghraifft yn yr ystyr bod Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 bellach yn cynnwys trais rhywiol fel rhan o'i ddiffiniad o drais difrifol. Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw:

*"to educate our young people and empower them to have those healthy, safe relationships, so that they don't want to act in an abusive way towards each other. And I think this is about not necessarily thinking about specific criminal offences in that context, but actually very much about the way in which the culture and all the changes that are going to come forward as a result of this work are going to be important."*²⁹

Ein barn ni

34. Mae'r gwahanol ddiffiniadau o aflonyddu rhywiol a ddefnyddir gan sefydliadau ac unigolion wedi cyfrannu at ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad rhywiol annerbyniol. Heb ddiffiniad clir o aflonyddu rhywiol, mae pobl ifanc yn dibynnu ar ddyfarniadau gwerth gan eu hysgol, coleg, cyfoedion neu hyd yn oed addysgwyr unigol. Mae gan hyn oblygiadau uniongyrchol o ran a yw person ifanc yn dewis adrodd am achosion o ymddygiad rhywiol digroeso, a lefel y cymorth y mae'n ei gael os yw'n gwneud hynny.

35. Mae'n amlwg i ni nad math o fwlio yw aflonyddu rhywiol. Mae'n anodd diffinio bwlio ynddo'i hun, ond rydym yn cytuno â'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chael, sef nad yw'n ymddangos bod y gair "bwlio" yn disgrifio aflonyddu rhywiol yn ddigonol.

36. Rydym hefyd yn cytuno â dull gweithredu Estyn, a gefnogir gan eraill fel yr Athro Renold, sy'n cynnwys enghreifftiau clir o ymddygiadau penodol sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol mewn unrhyw ddiffiniad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a ddefnyddir mewn gwaith ymchwil, dogfennaeth y llywodraeth, canllawiau i ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill ac, yn bwysicaf oll, gwaith gyda phobl ifanc. Mae'n rhoi eglurder i ddysgwyr, addysgwyr a llunwyr polisi. Credwn fod diffiniad Estyn fel y'i nodir yn ei adroddiad yn 2021, ynghyd ag enghreifftiau penodol cysylltiedig o aflonyddu, yn briodol. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru ac Estyn yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad hwnnw o aflonyddu rhywiol yn y dyfodol. Bydd gwneud hynny yn sicrhau parhad yn dilyn adolygiad thematig Estyn, a bydd yn galluogi adolygiadau thematig eraill a gynhelir yn y dyfodol i gasglu data cymaradwy, gan gefnogi dadansoddiad o dueddiadau hirdymor i lywio penderfyniadau polisi.

²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 16-17

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac Estyn fabwysiadu/parhau i ddefnyddio'r diffiniad o aflonyddu rhywiol a ddefnyddir gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', gan gynnwys yr enghreifftiau penodol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y defnyddiodd Estyn yn ei waith gyda disgyblion.

37. Rydym yn cael ein perswadio gan ganfyddiadau ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc a gwaith bwrdd golygyddol myfyrwyr Coleg Cambria, a oedd yn argymhell ymgyrch codi ymwybyddiaeth benodol ar draws ysgolion a cholegau yn targedu dysgwyr i wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol. Yn naturiol, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio diffiniad Estyn ac enghreifftiau cysylltiedig fel yr argymhellir uchod yn y corff hwnnw o waith.

38. Cawsom ein hargyhoeddi hefyd gan ddadleuon y bwrdd golygyddol y dylai ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn targedu dysgwyr fod yn syml ac yn uniongyrchol. Roedd yn argymhell rhestru enghreifftiau Estyn o ymddygiad amhriodol ar boster i'w arddangos ar draws ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, fe wnaethom ni glywed, dro ar ôl tro drwy gydol yr ymchwiliad hwn, y dylai pobl ifanc eu hunain fod yn ganolog i ymateb cenedlaethol i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Rydym felly'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu bwrdd cyngori penodol sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol o bobl ifanc ledled Cymru i gyd-gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol o bobl ifanc ledled Cymru i gyd-gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, wedi'i chyd-gynllunio â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc, yn targedu dysgwyr ledled Cymru (gweler Argymhelliad 2), i wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol.

39. Rydym yn cytuno, lle bynnag y bo modd, y dylai'r heddlu osgoi troseddoli pobl ifanc. Ar sail yr hyn a glywsom gan gynrychiolwyr yr heddlu, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac eraill, rydym yn fodlon bod y fframwaith statudol yn ddigonol i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn cyflawnwyr pan fo'n gwbl angenrheidiol.

3. Maint a natur y broblem

Mae tystiolaeth glir yn dangos bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn frawychus o gyffredin ar draws ysgolion uwchradd. Ceir rhywfaint o dystiolaeth ei fod yn beth cyffredin mewn colegau, a rhywfaint o dystiolaeth ei fod yn digwydd ymhlith disgyblion ysgol gynradd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o aflonyddu rhywiol yn digwydd ar-lein a thu allan i oriau ysgol, ond mae hefyd yn treiddio i fywyd bob dydd mewn ysgolion. Mae merched, dysgwyr LHDTC+ a dysgwyr sydd â nodweddion a hunaniaethau annormal eraill mewn perygl arbennig.

Ysgolion uwchradd

Y darlun cyffredinol

40. Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn beth cyffredin mewn ysgolion uwchradd. Fe wnaeth yr Undeb Addysg Cenedlaethol grynhoi'r hyn a glywsom dro ar ôl tro gan bron bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad fel a ganlyn:

*"I think it's something that is very insidious. It's become normalised, and it is accepted as a part of everyday life, really, within schools and within society."*³⁰

41. Esboniodd yr Athro Renold:

*"if you want to choose the language of 'victim', the victims of these experiences are increasingly girls, gender and sexual nonconforming young people, and LGBTQ+ young people".*³¹

Mae'r ystadegau isod yn dangos maint y broblem a amlygwyd i ni mewn amrywiol gyfraniadau ysgrifenedig a llafar i'n hymchwiliad.

³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 138

³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 329

Mae **adroddiad Estyn** yn dweud wrthym fel a ganlyn:

- Dywed 61 y cant o ddisgyblion benywaidd a 29 y cant o ddisgyblion gwrywaidd eu bod wedi cael profiad personol o aflonyddu rhwng cyfoedion. Mae 82 y cant o ddisgyblion benywaidd a 71 y cant o ddisgyblion gwrywaidd wedi gweld pobl eraill yn ei brofi.³²

Fe wnaeth **DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd** ddweud wrthym fel a ganlyn:

- Mae 11 y cant o fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 7-11 wedi anfon delwedd rywiol gignoeth **ac** mae'r ddelwedd honno wedi'i rhannu â rhywun arall heb eu cydsyniad.
- Dywedodd hyd at 50 y cant o fyfyrwyr eu bod wedi cael eu galw'n enwau rhywiol sarhaus yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan fechgyn, a thros draean gan ferched.
- Dywedodd cyfanswm o 13 y cant o fechgyn ac 14 y cant o ferched eu bod wedi cael eu cyffwrdd neu eu cusanu'n ddieisiau yn yr ysgol gan fechgyn. Roedd hyn yn codi i 41 y cant yn achos "pobl ifanc o rywedd lleiafrifol". Dywedodd cyfanswm o 15 y cant o fechgyn a 6 y cant o ferched eu bod wedi cael eu cyffwrdd neu eu cusanu'n ddieisiau yn yr ysgol gan ferched. Roedd hyn yn codi i 34 y cant yn achos "pobl ifanc o rywedd lleiafrifol".³³

Dywedodd **Plan UK** wrthym fod arolwg barn diweddar gyda merched wedi canfod bod dros 50 y cant ohonynt wedi profi aflonyddu rhywiol yn yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys: sylwadau rhywiol digroeso, heclo, chwibanu, a chyffwrdd, cydio, neu deimlo digroeso.³⁴

Dywedodd yr **NSPCC** wrthym fod Childline wedi darparu 522 o sesiynau cwnsela am gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ionawr 2022. Mae'r ffigur hwn yn uwch na 2020-21 i gyd.³⁵

Fe wnaeth tystiolaeth ysgrifenedig **Iechyd Cyhoeddus Cymru** gyfeirio at waith ymchwil sy'n dangos bod dros hanner y profiadau o drais rhywiol yn digwydd yng nghyd-destun perthynas canlyn neu agos.³⁶

Dywedodd **Parentkind** dweud wrthym fod aflonyddu rhywiol yn bryder i 32 y cant o rieni. Dywedodd 9 y cant o rieni fod eu plentyn wedi profi aflonyddu rhywiol (ac mae hynny heb

³² Estyn, "Dyddyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 7

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 21 - Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 415-416

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 14 - NSPCC

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH15 - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ystyried bod llawer o ddioddefwyr aflonyddu wedi dweud hefyd na fyddent yn mynd mor bell â dweud wrth athro neu riant).³⁷

Cyfeiriodd **Stonewall Cymru** at waith ymchwil a ganfu fod dros hanner y bobl ifanc sy'n nodi eu bod yn LHDT wedi profi bwllo ar sail eu hunaniaeth rywiol neu eu hunaniaeth LHDT+ yn ehangach. Roedd bron un o bob pump o blant LHDT+ wedi profi rhyw fath o drais rhywiol o gymharu ag un o bob deg o bobl cis.³⁸

42. Clywsom nad yw'r ystadegau hyn yn ôl pob tebyg yn rhoi darlun llawn o faint y broblem. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym nad oes ganddi unrhyw reswm i anghytuno â'r materion y mae Estyn yn eu codi, ond ychwanegodd nad yw'r canfyddiadau yn ôl pob tebyg yn cyfrif yn llawn am y ffaith y bydd gan y rhan fwyaf o bobl mewn ysgolion brofiad o ddigwyddiad lle y maent wedi teimlo'n anghyfforddus neu wedi gweld y materion hynny, neu o leiaf wedi bod yn dyst i ddigwyddiad o fath, neu'n gallu ei ddisgrifio.³⁹ Roedd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn cytuno:

*"[...] dwi'n eithriadol o falch bod Estyn wedi gwneud y darn yma o waith sydd yn dechrau edrych yn fanylach ar y mater. Dwi'n ofni mai dim ond codi cwr y llen mae'r adroddiad, hyd yn oed, er mor ysgytwol yw rhai o'r canfyddiadau, felly dwi'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod ni i gyd yn derbyn ei fod yn broblem ymhob ysgol yng Nghymru."*⁴⁰

Cydbwysedd aflonyddu rhywiol ar-lein ac wyneb yn wyneb

43. Fe wnaethom ni glywed, hyd yn oed os bydd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn digwydd ymhlith disgyblion ysgol, mae'r rhan fwyaf ohono'n digwydd ar-lein. Dywedodd Platfform wrthym fod y rhan fwyaf o'r datgeliadau o aflonyddu rhywiol y mae wedi'u derbyn wedi dechrau yn amgylchedd yr ysgol ond yn parhau y tu allan i'r ysgol, yn bennaf drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dyfeisiau digidol.⁴¹ Nododd yr Athro Renold yr un patrwm, lle y mae aflonyddu rhywiol geiriol a digyswllt rhwng pobl ifanc yn gyffredin ac yn cael ei normaleiddio fwyfwy, a'i fod yn gynyddol gyffredin ar-lein.⁴²

44. Canfu gwaith ymchwil Estyn hefyd fod y rhan fwyaf o aflonyddu rhywiol yn digwydd ar-lein. Roedd ei waith gyda phobl ifanc yn nodi bod y profiad o aflonyddu gan eu cyfoedion yn

³⁷ Y.Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 365-366

³⁸ Y.Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 217-218

³⁹ Y.Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 14

⁴⁰ Y.Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 106

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH09 - Platfform

⁴² Y.Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 303

digwydd yn bennaf drwy'r ffôn symudol, y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau gemau yn arbennig.⁴³ Ar-lein, mae rhannu delweddau rhywiol cignoeth yn arbennig o gyffredin.

Dywedodd Estyn y canlynol wrthym:

*"The NSPCC as well has found that the most common form of technology assisted harmful sexual behaviour is the sharing of nude images, and, in our work, we found that boys in particular were encouraging other boys to ask for nudes, ask for photographs, to show off. It's a sort of bravado thing. And also girls would complain that boys would make them feel guilty for not sharing—that they would be made to feel that they weren't loved or liked unless they shared."*⁴⁴

45. Dro ar ôl tro, clywsom fod rhannu delweddau rhywiol cignoeth - yn aml heb gydsyniad - yn beth cyffredin. Cynhaliodd Ysgol Uwchradd Fitzalan grwpiau ffocws i drafod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a chanfu'r canlynol:

*"[...] pupils in lower years tend to be unwilling recipients of sexual imagery through their access to online gaming. More girls than boys say they have received unsolicited images. As pupils get older, girls say that this happens regularly [...] The issue largely occurs outside the formal education setting and often online."*⁴⁵

46. Dywedodd Cymdeithas y Darlithwyr Ysgolion a Cholegau wrthym fod llawer o bobl ifanc wedi dadsensiteiddio i gam-drin yn seiliedig ar ddelweddau o ganlyniad i faint o ddelweddau rhywiol cignoeth y maent yn eu derbyn. Dywedodd fod y broblem mor helaeth fel nad yw dysgwyr benywaidd yn gweld y mater yn broblematic bellach. Ychwanegodd eu bod yn poeni am siarad am y mater a'i dynnu at sylw unrhyw un, oherwydd mae'n rhan o fywyd arferol fel y maent yn ei weld fel person ifanc, gan ddweud bod hyn yn ofnadwy o drist.⁴⁶

47. Roedd rhai sefydliadau yn gosod aflonyddu rhywiol ar-lein yng nghyd-destun ehangach trais ar sail rhywedd a chasineb at fenywod. Dywedodd yr NSPCC:

"The stories shared by Everyone's Invited have highlighted the role that intimate images play in the gendered abuse that girls experience at school and beyond, and their experiences of pressure, coercion and control facilitated through images shared non-consensually online. We must

⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 62

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH07 - Ysgol Uwchradd Fitzalan

⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 30

*recognise this context of toxic masculinity. Any guidance for schools should make it clear sexual insults such as 'slut' or 'whore' amount to gendered harassment and should be treated appropriately."*⁴⁷

48. Mater a oedd yn peri pryder oedd clywed mai un o ganlyniadau aflonyddu sy'n digwydd ar-lein yw ei bod yn anodd iawn i bobl ifanc ddianc rhagddo. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod y natur ar-lein wedi newid problem sy'n ganrifoedd oed oherwydd ei bod yn digwydd all-lein yn ogystal ag ar-lein, ac felly'n mynd ymhell y tu hwnt i gatiau'r ysgol ac yn parhau 24 awr y dydd.⁴⁸ Cytunodd Brook Cymru, gan bwysleisio i ni nad yw pobl ifanc yn gallu dianc rhagddo, yn yr ystyr ei fod yno yn eu bywydau drwy'r amser.⁴⁹

49. Fodd bynnag, er ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r aflonyddu yn digwydd ar-lein, clywsom ei fod yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol hefyd. Dywedodd Estyn wrthym, o ran y diwrnod ysgol, mai'r mathau mwyaf cyffredin o aflonyddu rhywiol yw heclo, gwneud sylwadau niweidiol, gwneud sylwadau homoffobig—yn bennaf tuag at fechgyn, ond nid bob amser, a hefyd sylwadau am ymddangosiad.⁵⁰ Dywedodd yr NSPCC wrthym fod pobl ifanc wedi cysylltu â nhw am faterion yn amrywio o edrych i fyny sgertiau i rannu delweddau anwedus heb gydsyniad, a'r holl ffordd drwodd i dreisio. Ond dywedodd ei bod yn arbennig o amlwg bod merched ifanc mewn ysgolion uwchradd yn gweld hyn fel rhan arferol o fywyd ysgol.⁵¹

50. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau Estyn, gan nodi eu bod yn "darparu gwybodaeth werthfawr am yr achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion"⁵², a bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fwy cyffredin ar-lein a thu allan i'r ysgol nag yn yr ysgol.⁵³ Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym:

*"the work Estyn has done, and others are doing, is helping us understand that scale, but since reporting is one of the key challenges, I don't think we can say that we understand the full scale of it. [...] what we already know is very disturbing, so that is, in itself, obviously a sufficient spur to action, isn't it? But I don't think we could say that we understand the full scale."*⁵⁴

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 14 - NSPCC

⁴⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 337

⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 241

⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

⁵¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 345

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 11-12

Addysg bellach

51. Ni wnaeth adolygiad Estyn ystyried aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach. Fodd bynnag, clywsom nad yw aflonyddu rhywiol yn dod i ben pan fydd pobl ifanc yn gadael ysgolion uwchradd.

Cyfeiriodd **Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr** at ganfyddiadau astudiaeth yn 2019 i drais rhywiol mewn addysg bellach, a ganfu'r canlynol:

- Dywedodd 75 y cant o ymatebwyr eu bod wedi cael profiad rhywiol digroeso o leiaf unwaith. Roedd 28 y cant wedi bod dan bwysau i sefydlu perthynas rywiol neu ramantus ddigroeso, roedd 14 y cant wedi profi ymdrechion corfforol digroeso at gyfathrach rywiol, ac roedd 12 y cant wedi profi cyfathrach rywiol ddigroeso.
- Roedd 48 y cant o ymatebwyr wedi profi sylwadau rhywiol digroeso ar o leiaf un achlysur. Roedd 37 y cant wedi cael sylwadau o'r fath drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu neges destun, ac roedd 29 y cant wedi cael rhywun yn dangos eu horganau cenhedlu yn ddigroeso. Roedd 6 y cant y cant wedi cael lluniau/fideos rhywiol o'u hunain yn cael eu dosbarthu i eraill heb eu caniatâd.
- Fe wnaeth 33 y cant o achosion o aflonyddu rhywiol a brofwyd gan fyfyrwyr addysg bellach ddigwydd yn eu sefydliad addysg.⁵⁵

Fe wnaeth **DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd** gynnal e-arolwg gyda myfyrwyr o chwe lleoliad addysg bellach ledled Cymru a Lloegr. Canfu'r canlynol:

- Dywedodd 29 y cant o fyfyrwyr iddynt gael eu galw'n enwau rhywiol sarhaus gan fechgyn. Dywedodd 27 y cant iddynt gael eu galw'n enwau sarhaus yn rhywiol mewn addysg bellach gan ferched.
- Dywedodd 13 y cant o fyfyrwyr eu bod wedi cael eu cyffwrdd neu eu cusanu'n ddigroeso yn eu lleoliad addysg bellach. Dywedodd 10 y cant o fyfyrwyr eu bod wedi gweld cynnwys pornograffig digroeso tra mewn addysg bellach, a dywedodd 6 y cant o fyfyrwyr bod delwedd rywiol gignoeth ohonynt wedi'i rhannu heb eu caniatâd.
- Dim ond 44 y cant o fyfyrwyr oedd yn credu bod staff wedi cymryd camau ar ôl clywed myfyrwyr yn cael eu galw'n enwau rhywiol sarhaus gan fyfyrwyr eraill.⁵⁶

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 18 - Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru)

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 21 - Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

Fe wnaeth **Iechyd Cyhoeddus Cymru** ddyfynnu gwaith ymchwil yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i ni a oedd yn dangos bod rhwng 28 y cant a 56 y cant o fenywod mewn colegau yn adrodd am o leiaf un digwyddiad o drais rhywiol y tu allan i berthynas ganlyn.⁵⁷

52. Dywedodd ColegauCymru wrthym fod colegau yn sicr yn gweld pethau'n ymwneud â stelcian, sylw digroeso, cyffwrdd amhriodol, bwlio ar-lein ac aflonyddu, a'u bod yn gweld problemau perthynas rhwng pobl ifanc. Dywedodd eu bod hefyd yn gweld adroddiadau a phryderon hanesyddol yn cael eu codi, a'r materion pontio a ddaw o ysgolion i golegau. Dywedodd fod colegau'n cymryd y mater o ddifrif calon.⁵⁸ Fodd bynnag, roedd colegau hefyd yn dweud wrth ColegauCymru ei bod yn anodd iawn meintioli maint y mater hwn mewn addysg ôl-16 oherwydd eu bod yn aml yn tueddu i fod â rhan dim ond pan fydd dysgwyr yn adrodd am faterion i'r coleg, ac wedyn yn ymateb i hyn.⁵⁹

53. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod nad oes digon yn hysbys am ba mor gyffredin yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn sefydliadau addysg bellach na natur y broblem. Wrth i'n hymchwiliad fynd rhagddo, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n comisiynu Estyn i gynnal adolygiad arall o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach yn 2022-23.⁶⁰ Cafodd hyn ei gynnwys o ganlyniad yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru a anfonwyd i Estyn ar gyfer 2022-23.⁶¹ Cydnabu ColegauCymru y byddai adolygiad arall o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach yn ddarn defnyddiol iawn o waith.⁶²

Ysgolion cynradd

54. Clywsom mai ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi'i wneud i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion, felly nid yw maint y broblem yn glir. Eglurodd yr Athro Renold wrthym pam y gallai hynny fod:

"There is less research in this area, mainly because of the difficulty in designing affirmative methods that allow children to talk about some of the most sensitive experiences at that age. A lot of ethnographic research often captures this; this isn't survey data, it's being with children over a period of time allows you to see what's happening in those classrooms and in

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 15 - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 252

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 - ColegauCymru

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

⁶¹ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn 2022-23', 22 Mawrth 2022

⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 266

playgrounds and so on, and building that trust that they can talk to you about maybe what's happening."⁶³

55. Fodd bynnag, ceir rhai arwyddion cryf bod aflonyddu rhywiol yn gyffredin ymhlith plant oed cynradd. Dyfynnodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol waith ymchwil o 2018 gyda UK Feminista a ganfu fod 45 y cant o athrawon ysgol gynradd yn ymwybodol bod iaith rywiaethol yn cael ei defnyddio bob tymor o leiaf, a 15 y cant yn wythnosol. Yn ei waith gyda disgyblion ysgol uwchradd, dywedodd Estyn wrthym fod cyfran eithaf sylweddol o bobl ifanc a ddywedodd eu bod wedi profi peth o hyn gyntaf yn yr ysgol gynradd.⁶⁴

56. Ychwanegodd llawer o rai eraill at yr argraff honno. Dywedodd yr Athro Renold wrthym fod hyn yn digwydd ym mywydau bob dydd plant cyn eu harddegau, a'n bod efallai yn sôn am blant ysgol gynradd sydd ychydig yn hŷn, ym mlynnyddoedd 4, 5 a 6 ⁶⁵. Roedd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Prifathrawon ill dau'n cytuno, gan awgrymu bod aflonyddu rhywiol yn digwydd ym mlynnyddoedd 5 a 6 yn arbennig, pan fydd gan lawer o ddisgyblion ffonau symudol a mynediad i blatfform ar-lein yn union fel eu cyfoedion hŷn.⁶⁶ Dywedodd Barnardo's wrthym fod ei gwasanaeth Better Futures, sy'n darparu gwasanaethau asesu ac ymyrraeth therapiwtig tymor hwy i blant a phobl ifanc â hanes rhywiol ledled Cymru, yn cael llawer o alwadau yn codi pryderon am blant sydd mor ifanc ag wyth neu naw oed.⁶⁷

57. Yn y pen draw, clywsom fod angen gwneud mwy o waith ymchwil ar fyrder i ganfod beth yw maint y broblem mewn ysgolion cynradd.⁶⁸

A yw rhai dysgwyr mewn mwy o berygl nag eraill?

Merched

58. Fel y dengys yr ystadegau a'r dystiolaeth uchod, mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn llawer mwy tebygol o effeithio ar ferched na bechgyn. Canfu adolygiad Estyn fod gan 61 y cant o ddisgyblion benywaidd brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o gymharu â 29 y cant o ddisgyblion gwrywaidd. Cadarnhaodd yr Athro Renold wrthym fod y dystiolaeth ymchwil ehangach yn atgyfnerthu canfyddiadau Estyn.⁶⁹

⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 304

⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 304-305

⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 57 a 107

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 16 - Barnardo's Cymru

⁶⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 107 a 304-305

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

59. Clywsom gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod aflonyddu rhywiol yn ymwneud yn bennaf â bechgyn yn targedu merched⁷⁰ ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn gosod hyn yng nghyd-destun casineb at fenywod ar draws cymdeithas. Er enghraifft, cyfeiriodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol at dystiolaeth a oedd yn dangos cynnydd mawr mewn sylwadau yn gwahaniaethu ar sail rhyw sydd wedi'u postio ar y cyfryngau cymdeithasol ers 2014,⁷¹ ac roedd lechyd Cyhoeddus Cymru yn dadlau, er mwyn atal aflonyddu rhywiol, bod yn rhaid deall sut mae'n rhan o batrwm cymdeithasol o fenywod yn cael eu cam-drin gan ddynion yn bennaf.⁷²

60. Ochr yn ochr â merched a menywod ifanc, fe wnaeth ein hymchwiliad nodi bod grwpiau eraill o ddysgwyr hefyd yn wynebu risg uchel o aflonyddu rhywiol gan eu cyfoedion.

Dysgwyr LHDTTC+

61. Un o ganfyddiadau allweddol adroddiad Estyn yw bod gan ddisgyblion LHDTTC+ "brofiadau personol sylweddol o aflonyddu homoffobig geiriol, a dywed llawer ohonynt fod bwlio homoffobig yn digwydd trwy'r amser".⁷³

62. Cytunodd Comisiynydd Plant Cymru, gan ddweud wrthym, yn ystod ei saith mlynedd fel Comisiynydd, fod pobl ifanc wedi dweud wrthi'n gyson "bod bwlio ar sail hunaniaeth yn amlwg, a bod hynny'n cynnwys bwlio ar sail rhywedd a bwlio plant a phobl ifanc LHDTTC+ [...]".⁷⁴ Amlinellodd yr Athro Renold y sefyllfa yn arbennig o glir:

*"Research on gender and sexual harassment has conclusively demonstrated that girls/young women, LGBTQ+ young people and those young people who are perceived not to conform to the normative categories of 'femininity', 'masculinity' and 'heterosexuality' are most at risk of discrimination, exclusion and abuse [...]."*⁷⁵

63. Amlinellodd Stonewall Cymru raddfa a difrifoldeb yr aflonyddu y mae disgyblion LHDTTC+ yn ei wynebu yn arbennig o glir. Clywsom fod aflonyddu rhywiol a bwlio yn broblem enfawr i bobl LHDTTC+ yng Nghymru. Mae adroddiad ysgolion Stonewall Cymru yn nodi bod dros

⁷⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 134

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH11 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 15 - lechyd Cyhoeddus Cymru

⁷³ Estyn, "Dyddyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 7

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 2

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

hanner y bobl ifanc sy'n nodi eu bod yn LHDT wedi profi bwllo ar sail eu hunaniaeth rywiol neu eu hunaniaeth LHDT+ yn ehangach.⁷⁶

64. Mae disgyblion LHDT+ yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan drais rhywiol na'u cyfoedion cisrywedd, heterorywiol. "[Y]n ôl METRO Charity yn 2016, roedd bron i un ym mhob pump o blant LGBTQ+ wedi profi rhyw fath o drais rhywiol i gymharu ag un ym mhob 10 plentyn cis—neu ddim yn draws—a heterorywiol. Felly, mae hwnna'n ganran o 18 y cant i gymharu ag 11 y cant."⁷⁷

65. Mae natur yr aflonyddu yn wahanol hefyd. Aeth Stonewall Cymru ymlaen i ddweud wrthym y gall homoffobia, deuffobia neu drawsffobia fod yn sbardun i'r cam-drin, yn hytrach nag atyniad rhywiol.⁷⁸ Cytunodd Platfform fod aflonyddu ar ddisgyblion LHDT+ yn aml yn cael ei ysgogi gan wahaniaethu ar sail hunaniaeth, rhywedd neu rywioldeb; yn fras, diffyg dealltwriaeth lawn.⁷⁹

Dysgwyr ag anghenion ychwanegol

66. Clywsom fod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn profi aflonyddu rhywiol yn wahanol i'w cyfoedion niwrolegol-nodweddiadol, fel cyflawnwyr a derbynwyr aflonyddu. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r plant hyn yn arbennig o agored i niwed. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Barnardo's:

*"children and young people who have disabilities and special educational needs are at an increased risk of being abused compared with their non-disabled peers. Research shows that disabled children including those with learning difficulties, are three to four times more likely to experience abuse. To add to this, children with disabilities and special educational needs are much more likely to keep their abuse hidden and remain unidentified."*⁸⁰

67. Clywsom fod plant ag anghenion ychwanegol hefyd mewn perygl o ddangos ymddygiadau amhriodol eu hunain. Dywedodd Parents' Voices in Wales, sy'n ymgychu dros wasanaethau iechyd meddwl a niwrowahaniaeth gwell yng Nghymru, wrthym, oherwydd eu hanhawster gyda'u dealltwriaeth o reolau cymdeithasol, efallai bod ganddynt ddealltwriaeth wael o'r hyn sy'n gyffyrddiad priodol, boed hynny yn golygu eu bod yn rhyngweithio neu'n cychwyn cyswllt corfforol neu a yw hynny'n cael ei roi arnynt, a bod â'r gallu i adnabod yr hyn

⁷⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 217.

⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 218.

⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 257.

⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 429.

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 16 - Barnardo's Cymru

sy'n briodol a'r hyn nad yw'n briodol.⁸¹ Rhannodd y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Arweinydd Plismona yng Nghymru brofiadau tebyg, gan egluro:

*"in terms of the offending patterns, we do see, on some occasions, children who have particular learning difficulties—. Sometimes, it's more of a challenge for them to be able to express themselves, and sometimes that can manifest itself in inappropriate ways, i.e. inappropriate texts, inappropriate messaging et cetera."*⁸²

68. Nododd ColegauCymru duedd debyg mewn rhai colegau:

*"The most significant finding is that over half of incidents reported involved learners with ALN as the alleged perpetrators. Further research is needed into this, although anecdotal evidence suggests that this could partly be a result of learners with ALN finding managing relationships difficult, combined with difficulties in reading social cues."*⁸³

69. Yn hollbwysig, clywsom fod cydberthynas gref yn achos plant ag anghenion ychwanegol rhwng cael eu haflonyddu'n rhywiol ac aflonyddu eraill yn rhywiol. Fe wnaeth Barnardo's ein cyfeirio at waith ymchwil sy'n awgrymu'r canlynol:

*"Those with learning disabilities and autism also tend to be over-represented amongst young people who have displayed harmful sexual behaviour. Around half of young people who have displayed harmful sexual behaviour have experienced sexual abuse themselves."*⁸⁴

Nodweddion eraill (e.e. dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd, cred grefyddol, ac ati)

70. Rydym wedi cymryd tystiolaeth werthfawr am aflonyddu rhywiol ymhlith merched a disgyblion LHDTG+, a pheth tystiolaeth anecdotaidd am brofiadau disgyblion ag anabledau dysgu. Fodd bynnag, ychydig iawn a glywsom ynghylch a yw nodweddion eraill fel ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol, cred grefyddol, ac ati yn llywio profiadau dysgwyr o aflonyddu rhywiol.

71. Fe wnaeth yr Athro Renold dynnu sylw at y bwlch hwn yng ngwaith Estyn ac yn y dystiolaeth academaidd:

⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 362

⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 93

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 - ColegauCymru, paragraff 1.4

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 16 - Barnardo's Cymru

"the victims of these experiences are increasingly girls, gender and sexual nonconforming young people, and LGBTQ+ young people. And then, what's missing, I think, from a lot of the data is the intersectional analysis on that—so, how does social class, ethnicity, race et cetera play into girl and gender? So, sometimes that's missing. It was missing from the Estyn research [...]"⁸⁵

72. Roedd lechyd Cyhoeddus Cymru yn cytuno. Roedd ei gyflwyniad ysgrifenedig yn esbonio bod "rhywioldeb, oedran, statws economaidd-gymdeithasol, hil ac anabledd yn croestorri â rhywedd ac yn creu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau mewn profiad byw o aflonyddu rhywiol a chanlyniadau." Mae'n mynd ymlaen i awgrymu bod grwpiau penodol o ddysgwyr, fel menywod a merched o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn fudwyr neu'n ffoaduriaid, yn arbennig o agored i aflonyddu a chamdriniaeth.⁸⁶ Tynnodd eraill sylw hefyd at effaith gronns aflonyddu rhywiol, ar ben gwahaniaethu ar sail hil ac ymyleiddio arall, ac rydym yn trafod hyn ym mhennod 6.

Ein barn ni

73. Rydym wedi ein dychryn gan raddfa a difrifoldeb aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Er nad yw'n syndod i ni fod aflonyddu rhywiol yn gyffredin drwy gydol y diwrnod ysgol (problem hirsefydlog), rydym wedi ein syfrdanu gan y graddau y mae aflonyddu rhywiol yn parhau y tu allan i oriau ysgol ac ar-lein. Roeddem yn arbennig o bryderus ynghylch y dystiolaeth a glywsom a oedd yn awgrymu na all llawer o bobl ifanc ddianc rhag yr aflonyddu a gânt, a'i fod yn treiddio drwy eu bywydau, boed yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol.

74. Er mwyn cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall sut a ble mae'n digwydd. Mae'n amlwg i ni fod maint y broblem aflonyddu rhywiol ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yn un hirsefydlog. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir yn achos y sectorau addysg bellach a chynradd.

75. Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ei bod wedi cyfarwyddo Estyn i gynnal adolygiad thematig o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn colegau. Rydym yn aros am ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw gyda diddordeb a phryder.

76. Fodd bynnag, mae llawer llai yn hysbys am aflonyddu rhywiol yn y sector cynradd. Rydym yn deall ei bod yn anodd cynnal ymchwil i ymddygiad rhywiol plant ifanc, a bod hyn yn gosod heriau o ran diogelu a moeseg. Fodd bynnag, mae ein hymchwiliad wedi nodi bod llawer o ymddygiadau rhywiol nad ydynt yn iach rhwng dysgwyr yn dod i'r amlwg gyntaf yn yr ysgol

⁸⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 329

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 15 - lechyd Cyhoeddus Cymru.

gynradd. Os felly, mae'n hanfodol deall yr ymddygiadau hynny er mwyn mynd i'r afael â nhw cyn iddynt gael eu normaleiddio. Rydym yn credu, gyda chymorth a chyingor arbenigol elusennau plant, academyddion a chyrff fel swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i ymddygiad rhywiol amhriodol ymhlith disgyblion ysgolion cynradd.

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant oed ysgol gynradd, gan fanteisio ar arbenigedd ac arweiniad gan elusennau plant, academyddion a Chomisiynydd Plant Cymru fel y bo'n briodol.

77. Canfu Estyn mai merched yw prif ddioddefwyr aflonyddu rhywiol – mae gan 61 y cant o ferched oed ysgol uwchradd brofiad personol ohono. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pryderu ynghylch y dystiolaeth a gawsom sy'n awgrymu bod dysgwyr LHDTTC+ hefyd mewn perygl uchel o aflonyddu rhywiol, a bod yr aflonyddu y maent yn cael profiad ohono, mewn llawer o achosion, yn cael ei ysgogi gan ragfarn a ffobia.

78. Rydym hefyd yn pryderu mai cymharol ychydig a wyddom am sut mae dysgwyr eraill â gwahanol hunaniaethau a nodweddion yn profi aflonyddu rhywiol (e.e. dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol, gyda chefnidir lleiafrifoedd ethnig, dysgwyr niwrowahanol, neu ddysgwyr anabl). Mae'n amlwg bod angen data mwy cynnil am brofiadau'r bobl ifanc hyn, a byddwn yn dychwelyd at hyn yn y bennod nesaf.

4. Adrodd am ddigwyddiadau a chasglu data

Clywsom fod data cywir a dibynadwy yn rhan hanfodol o atal aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Mae dwy her sylfaenol i'w goresgyn i gasglu data o ansawdd uchel: annog dysgwyr i adrodd am eu profiadau; a sicrhau bod ysgolion ac eraill yn categoreiddio, yn adrodd ac yn archwilio data yn gyson ac yn gywir i nodi tueddiadau a phatrymau.

A yw dysgwyr bob amser yn adrodd am achosion o aflonyddu rhywiol?

79. Un o ganfyddiadau allweddol gwaith Estyn – fel y mae teitl yr adroddiad yn ei ddangos – yw nad yw disgyblion yn dweud yn systematig wrth eu hathrawon am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion:

*"That was the message that we were receiving from all the pupils during our visits to schools [...] They either don't think the incident was serious enough, or they didn't think it was worth reporting. [...] Pupils don't tell their teachers, simply because they don't feel they can, that anything will be done, and they don't feel that, often, they're taken seriously. Quite often, teachers will dismiss the incidents as being trivial, or even encourage the pupils to ignore them."*⁸⁷

80. Fe wnaeth Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr rannu data gyda ni sy'n dod o arolwg y DU gyfan o fwy na 500 o fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach. Mae'n awgrymu nad yw diffyg adrodd am ddigwyddiadau wedi'i gyfyngu i ddisgyblion ysgol uwchradd yn unig:

*"While respondents consistently reported high rates of awareness of the prevalence of unwanted sexual behaviours, just 14 per cent of students who had experienced this had reported it to anyone. For those who reported it, 47 per cent told the police, 22 per cent told their college, and one in seven told a friend."*⁸⁸

⁸⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 108

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 18 - Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

81. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag adolygiad Ofsted yn 2021 o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau,⁸⁹ a safbwyntiau llawer o rai eraill a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

82. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym, hyd yn oes os cânt eu hadrodd, nad yw achosion o aflonyddu rhywiol bob amser yn cael eu hystyried mor ddifrifol ag y dylent fod.⁹⁰ Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd:

"nad yw staff ysgolion, arweinwyr ysgol ac oedolion eraill bob amser yn ymateb yn gyson i achosion o aflonyddu'n rhywiol ar gyfoedion, a bod achosion weithiau'n gallu cael eu diystyru'n llwyr; - Bod diwylliant yr ysgol gyfan yn gallu bod yn anghydnaws â chydraddoldeb rhywedd, gyda staff yn defnyddio stereoteipiau rhywedd i ddisgrifio ymddygiad neu bennu disgwyliadau; - Bod stereoteipiau rhywedd o'r fath weithiau'n cael eu defnyddio gan staff i ddiystyru aflonyddu gan gyfoedion, gyda negeseuon fel 'dyna sut mae bechgyn'".⁹¹

83. Roedd gan Gymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau farn wahanol ynghylch pam nad yw disgyblion o bosibl yn adrodd am aflonyddu rhywiol mewn ysgolion: pryder y gallai athrawon orymateb i'w honiadau:

"some of the reasons for learners not reporting is that they're embarrassed, and I think we can probably see that ourselves empathetically. They're worried that teachers will overreact if there is mention of it in the school, and that, I think, would be a concern, if there was an overreaction. But that worries them, and that stops them from disclosing."

84. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei gadarnhau gan y dystiolaeth a gawsom gan blant a phobl ifanc. Dywedodd 16 y cant o'r holl ymatebion a gawsom i'n harolwg gyda phobl ifanc 11-18 oed y dylai eu hysgol neu eu coleg gymryd aflonyddu rhywiol yn fwy difrifol, nid yn llai difrifol. Clywsom fod athrawon yn "esgus nad ydynt yn gweld aflonyddu rhywiol", "yn trin sefyllfaoedd fel hyn fel 'chwarae o gwmpas'", "ddim yn ymwybodol o aflonyddu rhywiol" a hyd yn oed yn "anwybyddu rhai o'r arwyddion y gallai rhywbeth sy'n peri pryder fod yn mynd ymlaen". Fe wnaeth un person ifanc annog athrawon i gymryd y mater yr un mor ddifrifol â hiliaeth a chefnogi merched i fynd i'r afael ag aflonyddu a cham-drin rhywiol.⁹²

⁸⁹ Gov.uk, 'Adolygiad o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau', 10 Mehefin 2021

⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 391

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 2

⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalennau 5-6

85. Awgrymodd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau hefyd y gallai disgyblion hefyd fod yn amharod i adrodd am ddigwyddiadau oherwydd eu bod yn pryderu y gallent gael eu targedu gan y troseddwr honedig, sy'n debygol o fod yn eu hysgol a hyd yn oed yn eu dosbarth.⁹³ Cytunodd Colegau Cymru, gan awgrymu bod datgelu'n gallu bod yn heriol oherwydd y gallai dysgwyr deimlo na fyddant yn cael eu credu, eu bod yn teimlo'n euog neu'n gyfrifol am y cam-drin neu'n teimlo y gallai achosi mwy o broblemau gyda'r camdriniwr honedig.⁹⁴

86. Gall rhai disgyblion LHDTC+ wynebu rhwystrau ychwanegol wrth ystyried a ydynt am adrodd am aflonyddu rhywiol. Dywedodd Stonewall Cymru wrthym:

*"during the years or age that we're talking about, some young people or a lot of young people might not actually identify as LGBTQ+ because they might not have questioned their sexuality or gender identity yet, which then leaves us in a position where we know of LGBTQ+ children and young people, or those who are questioning their identity, not being able to report in fear of outing themselves, in terms of outing themselves being then known as LGBTQ+ when, actually, they might not be."*⁹⁵

87. Dywedodd Dirprwy Brif Gwnstabl ac Arweinydd Plismona yng Nghymru wrthym, yn y pen draw, mai meithrin perthynas gadarnhaol â phlant yw'r allwedd i'w hannog i adrodd am achosion o aflonyddu rhywiol:

*"the first step is building that trust and confidence. Very often, young people don't want to tell teachers, but what we are seeing is those children have come through the primary stream into secondary and have built relationships with our schools officers."*⁹⁶

88. Fe wnaeth llawer o'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg sôn am bwysigrwydd ymddiriedaeth, gan argymhell manau diogel i ddysgwyr adrodd am achosion o aflonyddu rhywiol. Fe wnaeth un ymatebwr argymhell ein hannog i ennyn pobl ifanc yn y gymuned i gael ymdeimlad o ymddiriedaeth yn yr oedolion sy'n cael eu cefnogi i ofalu amdanynt, ac awgrymodd un arall y dylid neilltuo aelodau o staff y mae myfyrwyr yn ymddiried ynddynt i rôl cyswllt â dysgwyr.⁹⁷

⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 54.

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 – Colegau Cymru, paragraff 3.6

⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 255

⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 42

⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalen 7

Casglu data ac adrodd arnynt

Mewn ysgolion a cholegau

89. Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, clywsom fod ysgolion uwchradd yn gyffredinol wael am gofnodi, prosesu a dadansoddi data am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

90. Dywedodd Estyn wrthym nad yw ysgolion yn "edrych yn ôl ar beth sydd yn digwydd dros amser ac yn dod i adnabod tueddiadau a phatrymau yn ymddygiad plant ac yn gwneud rhywbeth am hynny".⁹⁸ Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio system rheoli gwybodaeth digidol neu ar-lein i gofnodi digwyddiadau, ond 'nid ydynt yn ei defnyddio'n ddigon da i nodi unrhyw ddiffygion neu batrymau ymddygiad'. Mynegodd Estyn bryder, hefyd, fod y dosbarthiad o fwlio yn rhy eang mewn rhai achosion, ac nad yw'n galluogi'r ysgolion i gofnodi a gwerthuso achosion o fwlio homoffobig, rhywiaethol neu hyd yn oed fwlio hiliol. Roedd yn annog defnydd mwy cynhwysfawr o'r systemau hyn⁹⁹ fel y mae trydydd argymhelliad ei adroddiad yn ei nodi.

"Dylai ysgolion uwchradd [...] [w]ella'r ffordd maen nhw'n cofnodi, categorioedd a dadansoddi achosion o aflonyddu a bwlio. Dylai cofnodion gynnwys manylion am y math o achosion, a'u natur, yr effaith ar y dioddefwr a chamau gweithredu priodol i ymateb i gyflawnwyr a dioddefwyr, fel ei gilydd. Dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn adolygu cofnodion yn rheolaidd, ac yn gwerthuso effaith eu gweithredoedd ar les disgyblion."

Estyn, argymhelliad 3¹⁰⁰

91. Roedd un unigolyn a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn cytuno â chanfyddiadau Estyn:

*"I do not believe schools or colleges seek to explore the issue well enough, and data collection is poor. Teachers do not take peer-on-peer sexual harassment seriously enough. [...] schools report few instances of bullying to local authorities and rarely report on peer-on-peer sexual harassment."*¹⁰¹

92. Clywsom mai un o'r problemau i ysgolion yw'r pryder y gallai cael gweithdrefnau casglu data ac adrodd cadarn arwain at nodi mwy o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid o

⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 23.

⁹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 118.

¹⁰⁰ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11.

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH01 - Unigolyn

gymharu ag ysgolion eraill, a allai yn ei dro wneud iddi edrych fel eu bod yn cael trafferthion. Amlinellodd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau ei phryderon:

"When the data collection begins to be gathered, what we don't want to see is that, when that volume comes through, there somehow is a punitive measure that is placed on schools for reporting honestly. Because there will be consequences, if you like, washing back into the system, where people will be afraid to report, they won't want to do anything with it. This has to be about intervention and prevention, not about, really, punishing schools for doing their best [...]"¹⁰²

93. Dywedodd Dirprwy Brif Gwnstabl ac Arweinydd Plismona yng Nghymru y canlynol wrthym:

"there is sometimes that apprehension with schools, because when they do report it, is there going to be a feeling from their perspective that the school isn't coping and it's breeding the wrong culture et cetera?"¹⁰³

Cytunodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan nodi bod ei waith ar fynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth, na fyddai llawer o ysgolion yn casglu data rhag ofn y byddai'n cael ei ystyried yn negyddol.¹⁰⁴ Roedd Brook yn dadlau bod angen i ysgolion gael eu gwobrwyo am adnabod, ymateb ac adrodd ar y broblem, gan gydnabod ei fod yn fater cyffredinol y mae pob ysgol yn ei wynebu, yn hytrach nag ofni y cânt eu cosbi.¹⁰⁵

94. Gofynnwyd i Estyn nodi sut y byddai'n ymateb i ysgolion sydd â systemau da ar gyfer adrodd a chofnodi achosion o aflonyddu rhywiol, ac sydd o ganlyniad yn adrodd am fwy o achosion o aflonyddu rhywiol nag ysgolion â systemau gwael ar gyfer adrodd a chofnodi digwyddiadau. Fe wnaeth Estyn roi sicrwydd i ni na fyddai'n defnyddio trefniadau cadw cofnodion da i gosbi ysgolion am nifer y digwyddiadau sydd wedi'u cofnodi, ac efallai y bydd yn defnyddio hyn i adrodd yn gadarnhaol ar sut y maent yn defnyddio'r adborth hwnnw i lywio mewnbynnau ABCh, gwasanaethau ac ati. Byddai'r cofnodion hynny'n cael eu hystyried ochr yn ochr ag adborth gan ddisgyblion, adborth gan rieni, ac ymddygiad y maent yn ei weld yn ystod arolygiadau i nodi ysgolion nad ydynt yn ymateb yn dda i achosion o fwlio.¹⁰⁶

¹⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 79

¹⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 38

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH11 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH08 - Brook Cymru

¹⁰⁶ Estyn, 'Gwybodaeth ychwanegol gan Estyn ar gyfer yr ymchwiliad aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr', Mehefin 2022

95. Awgrymodd tystiolaeth ColegauCymru y gallai fod gan golegau trefniadau casglu data ac adrodd gwell nag sydd gan ysgolion. Soniodd am fecanweithiau cryf iawn yn y colegau, bod adrodd yn digwydd bob dydd, wythnos, mis, tymor a blwyddyn yn hynny o beth, a bod nifer o'r colegau'n defnyddio MyConcern [meddalwedd ar gyfer adrodd am bryderon], lle y gall pobl ddod ymlaen.¹⁰⁷ Dywedodd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau wrthym mai prin yr oedd wedi clywed gan ei aelodau am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn gyffredinol, ond pwysleisiodd mai ei dybiaeth yw bod angen mecanwaith adrodd cenedlaethol.¹⁰⁸

96. Pan wnaethom ni ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch casglu data mewn ysgolion a cholegau, dywedodd wrthym fod ystod o systemau a nifer o wahanol seiliau ar gyfer casglu'r data hwnnw. Dywedodd nad yw'r darlun yn un cyson ar lefel ysgol, ac felly nad yw'n gyson ar lefel Cymru gyfan.¹⁰⁹

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom am y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Mae bron pob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn cymryd rhan yn yr arolwg, a arweinir gan y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ysgolion y rhwydwaith yn cwblhau Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr electronig dwyieithog bob dwy flynedd. Mae'r arolygon yn casglu data am feysydd fel iechyd meddwl a llesiant; ysmegu a'r defnydd o e-sigarets ymhlith pobl ifanc; bywyd teuluol a chymdeithasol; a defnyddio sylweddau a gamblo.¹¹⁰ Mae adroddiad Estyn yn dweud "[nad] yw defnydd ysgolion o adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i gynllunio ar gyfer darpariaeth a gwelliant wedi'i ddatblygu'n ddigonol [...] Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn cydnabod diffygion a phatrymau ymddygiad ynghylch materion rhywiol yn eu hadroddiad SHRN, ond prin yw'r newidiadau a wnânt i ddarpariaeth."¹¹¹

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 270.

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 255.

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 20.

¹¹⁰ Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, 'Dyfodol Iach i Bobl Ifanc'.

¹¹¹ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 50.

Rolau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru

Awdurdodau lleol

97. Mae adroddiad Estyn yn egluro ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ofyn i ysgolion am adroddiadau misol ar achosion o fwlio a chynghori ysgolion ar dueddiadau lleol.¹¹² Fodd bynnag, dywedodd Estyn wrthym ei fod wedi siarad ag wyth awdurdod lleol, ac nad yw hynny'n cael ei wneud yn gyson ddigon da.¹¹³ Yn ei adroddiad, gwnaeth Estyn argymhelliad i awdurdodau lleol ynghylch casglu a dadansoddi data:

"Dylai awdurdodau lleol [...] weithio gydag ysgolion i gasglu, categorioeddio a dadansoddi'r holl ddata ar fwlio ac aflonyddu yn gywir ac yn gynhwysfawr. Yn ychwanegol, cynorthwyo ysgolion i ddadansoddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd i nodi tueddiadau a rhoi trefniadau adferol ar waith."

Estyn, argymhelliad 5¹¹⁴

98. Amlinellodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru rai o'r agweddau ymarferol ar sut mae'r broses casglu data yn gweithio mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion:

*"We collect data. We collect it, and I think most local authorities will collect data on at least a termly basis when you're looking at all instances of bullying. [...] Whether, as we said earlier, there is a specific identity for sexual harassment, hands up, we haven't got one. [...] There isn't a tick box, so we would have to look at the narrative to see what it is, but those are then analysed on a termly basis, and if you're finding that there's an issue in a particular school, it's a conversation with the headteacher or the team to put that pastoral work in; it's a conversation with social services or other services to see what support we need to put into the schools."*¹¹⁵

99. Fe wnaeth hefyd esbonio bod gwahanol awdurdodau lleol yn casglu data mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, 'felly os ydym am i ddata cenedlaethol ddangos bod unrhyw bolisi yn gwneud gwahaniaeth, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn casglu'r un data ar yr un

¹¹² Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 10

¹¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 119

¹¹⁴ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

¹¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 195

pryd'.¹¹⁶ Cyfaddefodd Cyngor Abertawe hefyd nad oes ganddo ddull casglu data penodol ar gyfer aflonyddu rhywiol, a dywedodd wrthym fod casglu data ar draws Abertawe yn her.¹¹⁷

100. Roedd cyfranwyr eraill i'n hymchwiliad yn cyfleu darlun tebyg. Dywedodd Brook wrthym am anghysondebau o ran adrodd ar draws awdurdodau lleol Cymru¹¹⁸ ac awgrymodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol efallai nad yw trefniadau casglu data awdurdodau lleol yn adlewyrchu'r darlun llawn.¹¹⁹ Dywedodd Ysgol Uwchradd Fitzalan wrthym, er bod yr awdurdod lleol wedi diwygio ei ddull o gasglu gwybodaeth yn ddiweddar, 'fod pryderon ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol'.¹²⁰

Llywodraeth Cymru

101. Fel y mae'r paragraffau uchod yn ei nodi, fe wnaethom ni glywed nad yw'r data am aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr yn ddigon dibynadwy na chywir erbyn iddo gyrraedd Llywodraeth Cymru i lywio ymyriadau ar lefel genedlaethol. Roedd y dystiolaeth a glywsom am rôl Llywodraeth Cymru o ran casglu data yn ymwneud â sicrhau bod ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn gwella eu dulliau o gasglu data, fel y mae argymhelliad Estyn yn ei nodi:

"Dylai Llywodraeth Cymru [...] weithio gydag awdurdodau addysg lleol er mwyn gwella'r ffordd y maent yn casglu gwybodaeth am fwlio ac aflonyddu gan ysgolion a sicrhau bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn ymateb i batrymau a thueddiadau mewn ymddygiad. Mae hyn er mwyn cynllunio arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth addas i ysgolion."

Estyn, argymhelliad 8¹²¹

102. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno. Dywedodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wrthym ei fod yn cefnogi argymhellion Estyn ynghylch gwella'r ffordd o gasglu data ac adrodd, a'i fod yn credu y dylai fod yn cymhwyso hyn i sefydliadau addysg bellach hefyd.¹²² Dywedodd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau wrthym nad yw'n ymwybodol o weithdrefnau data ac adrodd

¹¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 204

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 22 - Cyngor Abertawe

¹¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 277

¹¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 163

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH07 - Ysgol Uwchradd Fitzalan

¹²¹ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 18 - Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

safonol a chyfundrefnol ar y mater hwn. O ganlyniad, dywedodd ei bod bron yn amhosibl barnu maint y broblem neu nodi patrymau a thueddiadau.¹²³

103. Clywsom fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn darparu sail ar gyfer casglu data o ansawdd uchel ynghylch aflonyddu rhywiol, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchodedig. Eglurodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data i ddatblygu amcanion cydraddoldeb i weithredu, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd ar strategaethau gwrth-aflonyddu a bwlio.¹²⁴

104. Cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg nad yw Llywodraeth Cymru yn deall pa mor fawr yw'r broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn gwirioneddol oherwydd anghysondebau o ran adrodd a chasglu data.¹²⁵ Yn eu cyflwyniad ar y cyd, aeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i fwy o fanylder:

*"[...] nid ydym yn casglu data ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn casglu data ar fathau gwahanol o fwlio ac aflonyddu, ond maent yn anghyson iawn a gallant amrywio o ysgol i ysgol [...] Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu i ganfod sut y gallwn ddiwallu'r angen am ddata mwy cadarn yn y maes hwn, sy'n cwmpasu mathau gwahanol o fwlio ac aflonyddu yn ein lleoliadau addysg."*¹²⁶

105. Mae papur y Gweinidogion yn mynd ymlaen i ddatgan bod newidiadau'n cael eu hystyried i'r canllawiau gwrth-fwlio mewn perthynas ag aflonyddu hiliol a bwlio mewn ysgolion, ac y bydd ystyriaeth i sut y gall y canllawiau diwygiedig hynny gynnwys "arferion adrodd cadarn, cofnodi a chasglu data ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ac aflonyddu bwlio homoffobig". Roedd y papur hefyd yn cydnabod y rhwymedigaethau y mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn eu gosod ar ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i "sicrhau y caiff camau gweithredu priodol ac effeithiol eu cymryd i ddileu neu leihau anfanteision sy'n wynebu dysgwyr o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, fel rhyw, rhywioldeb a rhywedd".¹²⁷

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 25 - Undeb y Prifysgolion a Cholegau

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH11 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

¹²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

¹²⁶ PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

106. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym ei fod yn gobeithio mai'r hyn y byddwn yn ei weld o ganlyniad i'r gwaith ar wella arferion casglu data yw bod pobl ifanc yn fwy hyderus bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.¹²⁸

Ein barn ni

107. Nid yw'n syndod bod Llywodraeth Cymru yn ansicr ynghylch maint a natur y broblem o aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr o ystyried:

- mae llawer o bobl ifanc (yn ddealladwy) yn amharod i adrodd am achosion o aflonyddu rhywiol;
- gan siarad yn gyffredinol, mae ysgolion naill ai'n amharod i gasglu data o ansawdd uchel, neu'n methu gwneud hynny;
- pan fo ysgolion yn casglu data, yn aml nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng aflonyddu rhywiol a bwllo mewn ystyr cyffredinol;
- mae awdurdodau lleol yn anghyson o ran sut maent yn dadansoddi data bwllo o ysgolion, ac a ydynt yn gwneud hynny; ac
- mae'r diffiniadau y cesglir data yn eu cylch a'r systemau adrodd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu defnyddio yn anghyson ac yn anghydawns.

108. Rydym felly'n croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wella'r broses o adrodd, cofnodi a dadansoddi data ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae hwn yn gorff hollbwysig o waith y mae'n rhaid ei ddechrau ar fyrder, a pharhau ag ef yn gyflym. Er mwyn i hyn fod yn wirioneddol effeithiol o ran deall gwir faint y broblem o aflonyddu rhywiol ymhlith holl blant ysgolion Cymru, rhaid i ysgolion gasglu data yn gyson a'u dadansoddi yn ôl naw nodwedd warchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb, a rhaid i awdurdodau lleol eu coladu a'u dadansoddi'n rheolaidd.

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data gan ysgolion ar aflonyddu rhywiol yn benodol bob mis, yn dadansoddi'r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac yn adrodd ar eu canfyddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid gwneud y canlynol o ran y data:

- eu casglu ar sail y diffiniad o aflonyddu rhywiol a fabwysiadwyd gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021; a'u

¹²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 5-7.

- dadansoddi yn ôl naw nodwedd warchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 i gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

109. Nid yw ysgolion yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn casglu data amserol a chywir am aflonyddu rhywiol ymhlith eu dysgwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwrthdaro buddiannau cynhenid i ysgolion. Mae ysgolion sydd â dulliau cadarn o gasglu data yn debygol o weld llawer mwy o ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd na sefydliadau sydd ag arferion casglu data gwan ac anghyson. Gallai hyn, neu efallai na fydd hyn, yn rhoi adlewyrchiad cywir o ba mor gyffredin yn gymharol yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn yr ysgolion hynny.

110. Rydym yn cael sicrwydd gan y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom gan Estyn, a ddywedodd na fyddai'n cosbi ysgolion pe bai trefniadau da o ran cadw cofnodion yn arwain at gofnodi nifer uwch o ddigwyddiadau, ac y gallai arolygwyr adrodd yn gadarnhaol ar hynny pe bai'r data hyn yn llywio ymyriadau yn yr ysgol. Rydym felly'n annog Estyn i ganolbwyntio'n benodol ar sut mae ysgolion yn casglu ac yn adrodd ar achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, yng nghydestun ein hargymhelliad Argymhelliad 5 uchod. O ystyried mai adrodd, casglu a dadansoddi data cywir a dibynadwy yw un o'r camau cyntaf o lawer i ymateb yn effeithiol i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, rhaid i'r gwaith hwn ddechrau'n gyflym.

Argymhelliad 6. Fel rhan o'i fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau ysgol arferol, rhaid i Estyn gynnwys, erbyn mis Ionawr 2023 fan bellaf, ystyriaeth o ddulliau ysgolion o gadw cofnodion o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn benodol, sut mae ysgolion yn archwilio'r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac i ba raddau y mae'r data hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau yn yr ysgol. Rhaid i ddull o'r fath beidio â chosbi nac adlewyrchu'n wael ar ysgolion dim ond oherwydd bod ganddynt achosion o aflonyddu rhywiol, ond yn hytrach ganolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn casglu data ac yn gweithredu ar y data hyn.

111. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai ategu'r holl waith hwn yw'r broblem anoddaf i fynd i'r afael â hi: sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n hyderus i adrodd am eu pryderon i staff ysgol. Mae angen gwneud cryn dipyn o waith ar draws ysgolion a cholegau i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol, meithringar lle y mae pobl ifanc yn teimlo'n hyderus, os ydynt yn adrodd am aflonyddu rhywiol, eu bod yn gallu gwneud hynny gydag oedolyn y maent yn ymddiried ynddo, y byddant yn cael eu cymryd o ddifrif, ac y bydd camau'n cael eu cymryd o ganlyniad. Trafodir hyn ymhellach ym mhennod 7.

112. Roedd adolygiad Estyn o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd, ac nid oeddem yn gallu casglu digon o dystiolaeth am adrodd ar ddata mewn

ysgolion cynradd neu golegau. Felly ni allwn ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch pa mor gadarn yw eu trefniadau adrodd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, fe wnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth ar gyfer ysgolion cynradd. Rydym yn gobeithio bod Llywodraeth Cymru o blaid derbyn yr argymhelliad hwn, ac yn ei hannog i sicrhau bod unrhyw adolygiadau ychwanegol yn cynnwys ystyried pa mor dda y mae sefydliadau addysg yn casglu ac yn dadansoddi data am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw adolygiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach ac ysgolion cynradd yn ystyried pa mor effeithiol y mae ysgolion a cholegau yn casglu, yn categoreiddio ac yn dadansoddi data ar aflonyddu rhywiol i nodi tueddiadau a datblygu ymyriadau yn yr ysgol/ coleg.

5. Achosion aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr

Mae achosion aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn agweddau cymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac yn cael eu gwaethygu gan bornograffi, y cyfryngau cymdeithasol, ac, yn y blynyddoedd diwethaf, y pandemig COVID-19.

Adlewyrchiad o gymdeithas

113. Dro ar ôl tro, dywedwyd wrthym fod ymddygiad pobl ifanc mewn ysgolion, yn rhannol o leiaf, yn adlewyrchiad o dueddiadau sydd wedi'u hen sefydlu ar draws cymdeithas. Fe wnaeth llawer o randdeiliaid roi'r mater yng nghyd-destun yr agenda ehangach o drais yn erbyn menywod. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn dadlau:

*"this is not an issue that just affects children and young people, and we also need to be careful that we're not getting into a culture of blaming children and young people for owning this problem. This is a wider societal problem that we need to own as adults in particular, because children are replicating and perpetuating an intergenerational issue, and they're seeing behaviours by adults and cultures perpetuated by adults online, in the press and in the street, et cetera, that are then being replicated."*¹²⁹

114. Roedd llawer o randdeiliaid yn dadlau bod ysgolion yn ficrocosm o gymdeithas ehangach. Dywedodd Estyn wrthym fod ei waith ymchwil wedi nodi tueddiad i blant ifanc dyfu i fyny'n rhy gyflym, gan adlewyrchu diwylliant cynyddol rywiol a rhywioledig yn ehangach.¹³⁰ Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn cytuno, gan awgrymu bod ysgolion yn amgylchedd lle y mae cenedlaethau'r dyfodol yn dysgu ac yn mewnnoli normau a gwerthoedd cymdeithasol. Dywedodd mai'r ymddygiadau a'r agweddau ymhlwg, yn ogystal â'r rhai echblyg, o'r hyn sy'n dderbyniol ac yn cael ei dderbyn yw'r sylfaen yr ydym yn ei gynnig i'n pobl ifanc.¹³¹ Fe wnaeth Platfform ein hannog i gydnabod nad oes modd gwahanu plentyn neu berson ifanc oddi wrth y cyd-destun a'r amgylchedd y mae'n byw ynddo. Felly, efallai eu bod yn cael dylanwadau gan deulu, cyfoedion, y gymuned ehangach, ysgolion ac ati.¹³²

¹²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 360.

¹³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 61.

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 19 – Cymorth i Ferched Cymru

¹³² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 411.

115. Clywsom, hefyd, fod agweddau afiach neu wahaniaethol ar draws cymdeithas yn treiddio i mewn i ysgolion a cholegau, gan ysgogi ymddygiadau negyddol ac afiach rhwng disgyblion. Nododd Stonewall Cymru fod cynnydd mewn naratifau a chasineb gwrth-LHDTC+ ar draws y byd, yn y cyfryngau cymdeithasol a hefyd yn y gymdeithas ehangach, sydd wedyn yn gallu ymdreiddio i fannau diogel traddodiadol, fel ysgolion a lleoliadau addysg.¹³³

116. O ran trais rhywedd, dywedodd yr Athro Renold y canlynol:

*"When you're talking to boys and young men, when you're with them on their own and you create a safe space, and they're telling you that they don't actually want to do this, that they feel pressured to do these things, everybody's affected in that sense. So, coercion and control from society is making some boys and young men do this as much as anything else."*¹³⁴

117. Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gydnabod i ni fod achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion i'w gweld ar draws cymdeithas yn gyffredinol. Roedd yn dadlau bod gan rieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach rôl o ran mynd i'r afael ag aflonyddu:

*"This is a set of challenges that is manifesting itself in this discussion, obviously, given the nature of it, and in the life of a school, but it isn't essentially caused by the life of a school; it's a much broader, more societal question than that. My own view is that it's pretty well established, and that has a significant contribution to make, really."*¹³⁵

Pornograffi a delweddau rhywioledig

118. Mae Estyn ac eraill yn nodi'n glir yng nghanfyddiadau eu gwaith ymchwil bod aflonyddu rhywiol rhwng dysgwyr yn aml yn cynnwys delweddau rhywioledig: rhoi pwysau ar gyfoedion i dynnu a rhannu lluniau neu fideos penodol, naill ai o'u hunain neu o'u cyfoedion. Roeddem yn meddwl tybed a yw'r ffenomen hon yn gysylltiedig â pha mor hawdd y gall pobl ifanc gael mynediad at bornograffi neu ddelweddau rhywioledig ar draws y cyfryngau yn fwy cyffredinol.

119. Yn ei rhaglen ddogfen yn 2021 i'r BBC, 'Uncovering Rape Culture', mae'r gyflwynwraig Zara McDermott yn dadlau bod gan bornograffi a delweddau rhywioledig rôl bwysig o ran hyrwyddo canfyddiadau afiach o ryw a chydberthynas rywiol. Mae'r rhaglen ddogfen yn canfod bod pornograffi ar gael yn rhwydd i bobl ifanc dan 18 oed, ac yn aml mai dyma'r addysg gyntaf

¹³³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 261

¹³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 331

¹³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 78

y mae pobl ifanc yn ei chael am ryw. Daw McDermott i'r casgliad y gall fideos wedi'u sgriptio, ffug ac weithiau treisgar sy'n cael eu creu neu eu rhannu gan y diwydiant pornograffi osod y safonau o ran argraff pobl ifanc o'r hyn sy'n gyfystyr â pherthynas rywiol iach. Fel rhan o'r rhaglen ddogfen, mae McDermott yn cysylltu â MindGeek (cwmni sy'n gweithredu rhai o'r gwefannau pornograffig mwyaf poblogaidd yn y DU, gan gynnwys Pornhub) i gael eglurder ynghylch ei drefniadau ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc rhag deunydd pornograffig ar-lein. Mae MindGeek yn ymateb i ddweud bod proses gwirio oedran Pornhub yn 'cydymffurfio'n llawn' a gall rhieni ddefnyddio rheolaethau rhieni i atal plant rhag cael mynediad at ddeunydd pornograffig.¹³⁶

120. Mae eraill hefyd yn llobio gweithredwyr gwefannau pornograffi i gymryd camau i atal plant rhag cael mynediad at ddeunydd cignoeth. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Barnardo's yn arwain ymgyrch gyda sefydliadau diogelwch plant a menywod i ofyn i'r pum safle pornograffi mwyaf poblogaidd yn y DU roi mesurau ar waith i amddiffyn plant rhag niwed yn well. Mae Barnardo's wedi ymgyrchu i wleidyddion yn y Senedd ac eraill, ochr yn ochr ag aelodau'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ychwanegu eu henwau at restr llofnodwyr y llythyr. Mae'r llythyr yn honni y gallai plant gael mynediad at bornograffi dros 50 miliwn o weithiau o leiaf dros y tair blynedd nesaf. Mae gwasanaethau rheng flaen Barnardo's yn dweud bod plant y maent yn eu cefnogi yn gwylio pornograffi yn dangos gweithredoedd anghyfreithlon, trais a cham-drin plant yn rhywiol, a bod y cynnwys hwn yn niweidio iechyd meddwl plant ac yn gallu normaleiddio gweithgaredd rhywiol ymosodol, gorfodol a niweidiol.¹³⁷

121. Roedd llawer o dystion yn cytuno bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn gysylltiedig â pha mor hawdd y gall pobl ifanc gael mynediad at bornograffi neu ddelweddau rhywioliedig. Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol wrthym, o ran yr hyn sydd wedi dylanwadu ar bobl ifanc, ei fod yn meddwl bod mynediad hawdd iawn at ddeunydd anaddas, fel pornograffi, yn peri pryder gwirioneddol.¹³⁸ Fe wnaeth yr NSPCC rannu ei bryder, gan nodi bod dod i gysylltiad â phornograffi, cynnwys treisgar a chynnwys amhriodol ar-lein yn llywio canfyddiadau pobl ifanc o gydberthynas a gall gael effaith negyddol ar y ffordd y maent yn rhyngweithio â'u cyfoedion ar-lein ac all-lein.¹³⁹ Dywedodd yr NSPCC wrthym ei bod yn bwysig iawn peidio ag anghofio bod cyfrifoldeb ar lwyfannau ar-lein hefyd i wneud yn siŵr nad yw plant a phobl ifanc yn cael mynediad at gynnwys sy'n niweidiol iddynt. Mae llawer o bobl ifanc sy'n cysylltu â'r NSPCC ac yn siarad â nhw am gynnwys pornograffig y maent wedi cael mynediad ato ar-lein yn dweud eu bod wedi gwneud hynny ar ddamwain. Mae'r pethau hyn yn codi pan nad ydynt yn chwilio

¹³⁶ BBC, 'Zara McDermott: Uncovering Rape Culture', a ddarlledwyd gyntaf ar BBC3 ar 24/11/21

¹³⁷ Barnardo's, 'Ask pornography sites to do more to protect children'

¹³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 126

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 14 - NSPCC

amdanynt, ac maent yn dweud eu bod yn teimlo cywilydd mawr, yn euog ac yn ddryslyd, ac nad ydynt wir yn gwybod beth i'w wneud.¹⁴⁰

122. Dywedodd Brook wrthym fod rhieni yn tueddu i roi amcangyfrif rhy isel o faint y mae eu plant yn cael mynediad at bornograffi¹⁴¹, a bod ysgolion yn aml yn amharod i siarad am y mater gyda disgyblion. Roedd yn dadlau:

*"a lot of what gets missed from a lot of all of this is the voice of young people. Where's their voice in this? What education do they want? What are the issues that are affecting them? So, if we as adults don't want to acknowledge that this is an issue or that pornography or youth-produced sexual imagery isn't as high as it is, we're never going to be able to tackle it effectively. And I often say this to schools when I come in to do education and they'll have me to come in and talk about healthy relationships quite frequently, which is brilliant, but a lot of schools won't let me come in or won't want me to come in and talk about pornography."*¹⁴²

123. Fodd bynnag, dywedodd Brook wrthym hefyd, er bod pornograffi yn cael effaith enfawr ar bobl ifanc, y gall fod yn anodd pwysu a mesur pa mor niweidiol y mae. Roedd yn cydnabod bod rhai elfennau o berygl iddo. Beth maen nhw'n ei gyrchu? Beth yw eu hoedran? Mae hefyd yn cydnabod bod rhai elfennau o berygl yn perthyn i hyn, gan ofyn beth maent yn cael mynediad ato, beth yw eu hoedran a sut mae'n effeithio ar eu bywyd a'u disgwyliadau o berthnasoedd. Aeth ymlaen i drafod sut y gall yr hyn y mae pobl ifanc yn ei weld mewn pornograffi ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl o berthnasoedd rhywiol gyda'u cyfoedion.¹⁴³ Fodd bynnag, aeth Brook ymlaen i ychwanegu:

*"pornography could also be very healthy for some young people in terms of exploring their sexuality and exploring who they are in a 'safe' way—and I use 'safe' in parentheses. So, we know that some young people who are part of the LGBT+ community say that pornography will allow for them to safely explore their sexual orientation in that way. But it's really, really hard to manage it."*¹⁴⁴

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 366

¹⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 249

¹⁴² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 250

¹⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 247

¹⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 248

Cytunodd yr Athro Renold, gan gyfeirio'r Pwyllgor yn ôl at dystiolaeth Brook fel ymateb 'cadarn' i gwestiynau'r Pwyllgor am bornograffi.¹⁴⁵

124. Pan wnaethom ni ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am farn Llywodraeth Cymru ar effaith pornograffi neu ddelweddau rhywiol, cytunodd fod pornograffi a chynnwys rhywiol ar-lein yn cyfrannu at agweddau rhywiol afiach ymhlith dysgwyr:

*"The problem is clearly the prevalence of access to online sexual content, including pornography of all sorts, really, and I think we've seen plenty of that talked about in the media this week, as well. Sometimes that's the way in which young people are learning about sex and sexual relationships, which is obviously unhealthy."*¹⁴⁶

Y cyfryngau cymdeithasol, gemau ar-lein, a phlatformau cymdeithasu digidol eraill

125. Dywedodd Estyn fod plattformio rhwydweithio cymdeithasol yn creu pwysau ar bobl ifanc, naill ai drwy annog pobl ifanc i edrych neu ymddwyn mewn ffordd arbennig, neu oherwydd bod "pwysau i bostio sylwadau poblogaidd yn rheolaidd ac i gael eu 'hoffi' ar gyfryngau cymdeithasol".¹⁴⁷ Cawsom dystiolaeth gan eraill a oedd yn cefnogi'r casgliadau hyn:

- Dywedodd Plattform wrthym y gall y cyfryngau cymdeithasol hyrwyddo delfrydau afrealistig o harddwch a delweddau rhywiol o bobl ifanc.¹⁴⁸
- Fe wnaeth Parents' Voices in Wales fyfyrion yn benodol ar sut y gall y cyfryngau cymdeithasol drosglwyddo agweddau cymdeithasol misogynistaidd i'n plant.¹⁴⁹
- Fe wnaeth Parentkind ein cyfeirio at ddata o 2018 a 2020 sy'n dangos mai'r oedran cymedrig i blant brofi'r pwysau o ymgysylltu'n ddi-baid ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ôl rhieni, yw 11.¹⁵⁰

126. Roedd adroddiad Estyn hefyd yn ein hatgoffa bod plattformau rhwydweithio cymdeithasol yn gyfrwng i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion - h.y. mae peth aflonyddu rhywiol yn digwydd ar blattformau rhwydweithio cymdeithasol na fyddai o bosibl yn digwydd fel arall.¹⁵¹ Dywedodd

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 325

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 78

¹⁴⁷ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalennau 15 ac 17

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH09 - Plattform

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 362

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 374

¹⁵¹ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 18

yr Undeb Addysg Cenedlaethol wrthym fod y pandemig wedi arwain at gynnydd enfawr mewn gweithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, defnyddio camerâu ac uwchlwytho fideos i TikTok.¹⁵² Dywedodd ColegauCymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru¹⁵³ wrthym y bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o blatfformau fel TikTok a Snapchat yn ystod y cyfnod clo, sydd wedi gwneud rhannu delweddau rhywiol yn haws. Nododd un coleg nifer o achosion o aflonyddu a bwlio yn ymwneud ag apiau negeseuon fel Snapchat a WhatsApp. Ychwanegodd, wrth siarad â dysgwyr sydd wedi anfon negeseuon neu ddelweddau o'r fath, mae'n cymryd peth amser i archwilio gyda nhw beth yw effaith derbyn negeseuon o'r fath ar berson.¹⁵⁴

127. Clywsom y gallai pobl ifanc LHDTTC+ fod mewn perygl arbennig o ddioddef aflonyddu rhywiol ar blatfformau rhwydweithio cymdeithasol a chanlyn. Fe wnaeth Stonewall Cymru esbonio wrthym fod plant a phobl ifanc LHDTTC+ yn arbennig mewn mwy o berygl o ddefnyddio apiau ac apiau canlyn sy'n cael eu targedu at bobl dros 18 oed i 'geisio rhyw fath o gymorth rhwydwaith neu emosiynol, sydd wedyn yn eu gwneud yn fwy agored i gam-drin rhywiol'.¹⁵⁵

128. Fodd bynnag, nid oedd popeth a glywsom am y cyfryngau cymdeithasol yn negyddol. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru wrthym:

*"children and young people often utilise online spaces as sources of support and resilience. Our I trust them report suggests that young people use the internet and search online for support or advice. These findings are in-keeping with other studies, which suggest that young people increasingly engage with online communities, and often find it easier to communicate via text or chat than face-to-face."*¹⁵⁶

129. Dywedodd yr Athro Renold wrthym fod pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi llais am brofiadau o aflonyddu rhywiol. Dywedodd wrthym fod y canlynol gan bobl ifanc:

"a culture now where there's an increasing vocabulary that young people have access to, to name what's happening to them [...] they're finding ways of describing the conducive culture that allows these experiences of sexual harassment to thrive. So, I've met children and young people who are talking

¹⁵² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 126

¹⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 12 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 - ColegauCymru, paragraffau 2.2 - 2.3

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 237

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 19 - Cymorth i Ferched Cymru

about rape culture. They're using language that understands the ways in which this is happening, and this is the learning they're doing online."¹⁵⁷

130. Clywsom hefyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y gall platfformau cyfryngau cymdeithasol fod yn arf i ysgolion ymgysylltu â phlant, ac i dynnu sylw at ymgyrchoedd. Clywsom fod y dull hwn yn gallu bod yn eithaf effeithiol ac mae'n codi'r materion hynny gyda disgyblion ac yn golygu bod modd cynnal y trafodaethau hyn.¹⁵⁸

Y pandemig

131. Nid yw'n syndod inni glywed, hefyd, fod y pandemig wedi cael goblygiadau uniongyrchol i ddysgwyr, yn bennaf drwy wthio dysgu ar-lein, ac felly'n annog pobl ifanc i dreulio mwy o amser ar blatfformau ar-lein.

132. Clywsom fod colli amser wyneb yn wyneb gyda'u dysgwyr wedi bod yn heriol i rai ysgolion a cholegau. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym nad yw wedi gallu eistedd i lawr gyda phobl ifanc wyneb yn wyneb yn yr ysgol, a bod pawb wedi dioddef o ganlyniad.¹⁵⁹ Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, oherwydd bod y pandemig wedi gwtio llawer o weithgarwch ar-lein, fod angen i staff sicrhau eu bod yn deall platfformau ar-lein, yn enwedig TikTok, ac y gellid ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau ar y platfformau hynny yn effeithiol.¹⁶⁰

133. Fodd bynnag, bu rhai manteision i ddysgu ar-lein. Cydnabu Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, hefyd, fod dulliau newydd o gadw mewn cysylltiad â rhieni wedi bod yn ddefnyddiol:

*"one of the things that secondaries are now better at is that their conversations and relationships with parents have developed and deepened because, literally, we've been in their homes in terms of giving online lessons, and we've had to invest in procedures in schools to make sure that we were contacting parents, that we were identifying pupils who are vulnerable."*¹⁶¹

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 324

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 15

¹⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 17

¹⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 12 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

¹⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 17

134. Fodd bynnag, un peth wnaeth beri pryder yn arbennig oedd clywed bod y pandemig wedi cael effaith ar aeddfedrwydd ac iechyd meddwl dysgwyr. Dywedodd Colegau Cymru y canlynol wrthym:

*"Because of the way that education has been over the last two years, what we are seeing, in terms of our learners, is that we are seeing 16-year-olds who are really are 14-year-olds. Likewise, in higher education, you have got your 18-year-olds who are potentially 16-year-olds, and those issues that perhaps would have been resolved are not resolved and are coming forward."*¹⁶²

135. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod cyfnodau clo, COVID-19 a'r pandemig wedi gwneud pobl ifanc yn fwy pryderus a rhwystredig.¹⁶³

Ein barn ni

136. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth sylweddol a gawsom drwy gydol yr ymchwiliad hwn sy'n nodi bod achosion aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac yn digwydd ar draws cymdeithas. Yn amlwg, nid yw aflonyddu rhywiol yn dechrau ac yn gorffen yn yr ysgol. Mae'n treiddio i ddiwylliant yr ysgol oherwydd ei fod mor endemig ac mor eang drwy ddiwylliant yn ehangach. Rydym yn cydnabod y bydd mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn gofyn am ymdrech enfawr ar y cyd gan lywodraethau, ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill, rhieni, a hyd yn oed disgyblion eu hunain, i ddadnormaleiddio ymddygiadau niweidiol ac afiach sydd wedi'u gwreiddio i'r fath raddau ar draws cymdeithas.

137. Serch hynny, ysgolion yw'r lleoedd delfrydol i ddechrau'r broses o ddadnormaleiddio, ac i ymyriadau sy'n hybu perthnasoedd iach wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant a phobl ifanc. Rydym wedi clywed bod ysgolion a cholegau yn ymwybodol o achosion ehangach aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ac yn gweithio'n galed i addysgu plant am y risgiau a'r ymddygiadau afiach sy'n gysylltiedig â phornograffi, y cyfryngau cymdeithasol, platfformau gemau ar-lein ac ar draws cymdeithas yn fwy cyffredinol. Rydym yn eu hannog i barhau i wneud hynny fel rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol fel rhan o'r cwricwlwm presennol, ac Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb fel rhan o'r cwricwlwm newydd, a thu hwnt.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu am achosion sylfaenol aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion – fel portreadau afiach o berthnasoedd ac ymddygiadau rhywiol ar draws cymdeithas sy'n cael eu gwaethygu gan bornograffi, y

¹⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 259.

¹⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 166.

cyfryngau cymdeithasol, platfformau gemau ar-lein ac eraill – fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Personol a Chymdeithasol cyfredol a'r cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol.

6. Effaith aflonyddu rhywiol ar ddysgwyr

Gall profi aflonyddu rhywiol achosi pryder ac iselder. Mae'n gallu effeithio ar addysg dysgwr ac arwain at dynnu'n ôl o'r ysgol neu'r coleg. Yn yr achosion mwy difrifol, gall yr effeithiau ar bobl ifanc gael canlyniadau hirdymor sylweddol. Dywedodd rhai tystion wrthym y gall aflonyddu rhywiol fod yn Brofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

Sut mae aflonyddu rhywiol yn effeithio ar ddysgwyr

138. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu yn ystod yr ymchwiliad hwn yn dangos yn glir iawn bod aflonyddu rhywiol yn effeithio'n drwm ar bobl ifanc. Mae'n effeithio ar eu hiechyd meddwl, eu hunanhyder, eu cydberthynas ag eraill, a'u hymgyssylltiad ag addysg. Gall hyn fynd ymlaen i effeithio ar blant drwy gydol eu hoes, yn enwedig yn yr achosion mwy difrifol.

Roedd tystiolaeth Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn tynnu ar ganfyddiadau adroddiad Ymgyrch Menywod UCM 'Sexual Violence in Further Education', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019. Dywedodd wrthym:

Roedd 42 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n bryderus o ganlyniad i ymddygiad rhywiol digroeso, roedd 34 y cant yn dweud eu bod wedi ymbellhau oddi wrth eraill ac roedd 33 y cant wedi osgoi digwyddiadau cymdeithasol.

Roedd traean o'r ymatebwyr yn dweyd eu bod wedi profi iselder, ac roedd 13 y cant yn teimlo'n anniogel yn eu coleg. Roedd yr un gyfran yn dweud eu bod yn defnyddio cyffuriau neu alcohol yn ormodol oherwydd profiadau o'r fath.

Roedd ymddygiad rhywiol digroeso wedi achosi i 18 y cant o'r ymatebwyr golli dosbarthiadau, gostyngiad ym mherfformiad academiaidd 17 y cant ohonynt, ac 14 y cant yn ystyried gadael y coleg yn gyfan gwbl.

Roedd 15 y cant o fyfyrwyr wedi ystyried hunanladdiad. Roedd 13 y cant wedi ystyried hunan-niweidio. Roedd 7 y cant wedi ceisio lladd eu hunain.¹⁶⁴

139. Dywedodd Estyn wrthym, pan fo pobl ifanc wedi profi bwllo, eu bod 'yn sicr yn dueddol o wynebu rhwystrau i ddysgu, yn fwy tebygol o golli ysgol, yn fwy tebygol o gael eu gwahardd, yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl o ran materion fel iselder neu hunan-niweidio, ac mae hyn yn amharu ar eu llesiant'.¹⁶⁵ Mae'r effaith yn cael ei chwyddo po fwyaf difrifol yw'r aflonyddu y mae'r plentyn yn destun iddo. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym, os yw pobl ifanc yn teimlo'n swil neu'n ddigalon oherwydd aflonyddu a cham-drin rhywiol, maent yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan mewn grwpiau neu chwarae rhan lawn mewn addysg, sydd felly'n effeithio ar eu gallu i fanteisio ar eu hawliau.¹⁶⁶

140. Fe wnaethom ni gymryd tystiolaeth yn uniongyrchol gan ysgolion a cholegau am yr effaith y mae aflonyddu rhywiol yn ei chael ar ddysgwyr. Esboniodd Ysgol Uwchradd Fitzalan i ni fod un digwyddiad penodol o natur ddifrifol wedi cael effaith sylweddol ar grŵp o ddisgyblion hŷn o ran natur gydlynol y grŵp, eu llesiant cyffredinol a chyrraedd academaidd y rhai oedd yn fwyaf agos at y digwyddiad.¹⁶⁷

141. O safbwynt addysg bellach, mae Colegau Cymru wedi nodi sut mae effaith hefyd ar y berthynas â theulu a chyfoedion. Dywedodd fod potensial hefyd y bydd hyn yn effeithio ar bresenoldeb ac ymddygiad dysgwyr. Yna gall sefyllfaoedd godi sy'n golygu bod yn rhaid disgyblu dysgwyr. Bydd llawer o ddysgwyr yn cadw pethau iddynt eu hunain ac yn datgelu pethau dim ond pan fydd sefyllfa'n mynd allan o reolaeth.¹⁶⁸

142. Rhannodd Platfform bryderon â ni am effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar sut mae merched ifanc a menywod ifanc yn gweld eu hunain a'u cyrff:

*"in many cases see a potential link between experiencing sexual harassment and controlled eating. Young people we have spoken to said that controlling their eating or their desire to either lose weight or gain weight was a result of wanting to find a way to attract less attention from peers for the appearance of their body. Similarly young people have said that controlling their eating helps them feel more in control in situations where they feel powerless."*¹⁶⁹

¹⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 18 - Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 378

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH07 - Ysgol Uwchradd Fitzalan

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 - Colegau Cymru, paragraff 3.2

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH09 - Platfform

143. Clywsom dystiolaeth y gall effeithiau aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion bara ymhell nes y byddant yn oedolion. Cyfeiriodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol at yr adroddiad 'A yw Cymru'n Decach' o 2018 ac astudiaeth yn cynnwys oedolion o Brydain a ganfu, yn 50 oed, roedd y rhai a gafodd eu bwlio yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o fod â gorbryder, iselder a meddyliau am hunanladdiad, a'u bod yn llai bodlon â'u bywydau na'r rhai nad oeddent erioed wedi cael eu bwlio.¹⁷⁰ Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a'r Arweinydd Plismona yng Nghymru wrthym:

"I think the ACEs evidence quite starkly illustrates for us what that could end up looking like for children and young people who've had exposure to such harmful behaviours, that this not only translates into—how can I put it—that socialisation and that education impact, but it equally does in terms of wider health implications and behaviours going forward—so, that substance misuse, potentially ending up in the criminal justice system."¹⁷¹

144. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd a gyflwynwyd i ni gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn gyson â'r dystiolaeth ehangach a gawsom am effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddysgwyr:

"Violence against women, domestic abuse and sexual violence can have a huge impact on children and young people. It can affect their wellbeing, their educational attainment, family and peer relationships, and their ability to enjoy healthy, happy, respectful relationships now and in the future."¹⁷²

Effaith aflonyddu rhywiol ar grwpiau penodol o ddysgwyr

145. Rydym yn gwybod o waith ymchwil Estyn ac eraill bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn effeithio ar ferched yn fwyaf o bell ffordd. Clywsom hefyd y gall profiadau dysgwyr o aflonyddu rhywiol gael eu llywio gan eu rhywedd neu eu hunaniaeth rywiol, crefyddol neu ddiwylliannol. Felly, gall effaith aflonyddu ar grwpiau o ddysgwyr â hunaniaeth neu nodweddion penodol amrywio hefyd.

146. Dywedodd Plan UK wrthym fod merched LHDT, merched duon a lleiafrifol a merched anabl yn debygol o gael profiad o aflonyddu rhywiol, ond y gallant hefyd gael profiad o fathau

¹⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH11 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

¹⁷¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 80

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

gwahanol o aflonyddu. Er enghraifft, dywedodd fod merched du yn cael profiad o fathau o aflonyddu hiliol a rhywioledig, ac y gall hynny waethygu'r niwed iddynt.¹⁷³

147. Fe wnaeth Cymorth i Ferched Cymru rannu tystiolaeth â ni sy'n peri pryder gan ei bod yn nodi bod pobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o droi at weithwyr addysg proffesiynol am gymorth. Dywedodd 86 y cant o'r bobl ifanc gwyn Prydeinig a ymatebodd fod 'addysg' (athrawon, staff cymorth, tiwtoriaid, darlithwyr, staff eraill) yn ffynhonnell bosibl o gefnogaeth i bobl ifanc, ond dim ond 66 y cant o bobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig a ddywedodd hynny.¹⁷⁴

148. Dywedodd Spectacle Theatre Ltd. nad yw pobl ifanc LHDTC+ yn arbennig yn cael eu cefnogi, ac felly'n aros yn dawel ac yn 'cuddio' nes eu bod yn gallu gadael y lleoliad addysgol.¹⁷⁵ Fe wnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru gyflwyno tystiolaeth debyg i ni. Fe wnaethant ddweud wrthym fod eu gwaith achos wedi canfod effaith sylweddol ar barodrwydd rhai disgyblion LHDT i fynd i'r ysgol, eu llesiant a'u haddysg, gyda chysylltiad amlwg ag aflonyddu rhywiol a bwlio gwahaniaethol.¹⁷⁶

149. Fe wnaeth Parents' Voices in Wales siarad â ni am yr heriau ychwanegol y mae dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn eu hwynebu:

"With that extra layer, carrying that heavier load that they do compared to neurotypical learners, or what we would call non-vulnerable learners, they're more at risk of school absence, so, if they're not in school and they're being targeted online for sexual harassment, what support strategies have schools got in place to make a dialogue or make disclosures accessible for that learner, especially if they aren't disclosing to their parents that they are witnessing these things online?"¹⁷⁷

150. Dywedodd wrthym fod dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn cyfrif am 70 y cant o'r gwaharddiadau ysgol, ac y bydd rhai ohonynt wedi digwydd oherwydd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Felly, roedd yn dadlau ein bod yn edrych o bosib ar yr un dysgwyr sy'n droseddwyr fel dioddefwyr, a bod angen archwilio hyn.¹⁷⁸

¹⁷³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 430

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 19 - Cymorth i Ferched Cymru

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH02 - Spectacle Theatre Ltd

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 12 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 385

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 365 - 370

Cefnogaeth i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol

151. Mae ein hymchwiliad wedi canolbwyntio ar ddeall pa mor gyffredin yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ei effaith ar bobl ifanc, a sut mae modd ei atal. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol yn fater eithriadol o bwysig, ond nid yw o fewn cwrpas y darn penodol hwn o waith.

152. Fodd bynnag, er na wnaethom ni holi pobl ifanc am hyn yn uniongyrchol, mae'n amlwg bod y gefnogaeth y mae pobl ifanc sydd wedi cael ei aflonyddu'n rhywiol yn ei chael – neu nad ydynt yn ei chael – yn hollbwysig i lawer o bobl ifanc. Yn ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed, soniodd 16 y cant o'r 106 o unigolion a ymatebodd i'n harolwg am wasanaethau cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr aflonyddu rhywiol. Roeddent yn argymhell dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, gan ddweud wrthym fod angen i bobl ifanc wybod ble i fynd am gyngor cyfrinachol, boed hynny ar-lein neu gyda gweithwyr meddygol proffesiynol. Dywedodd pobl ifanc wrthym ei bod yn bwysig cael oedolion sydd wedi'u hyfforddi mewn ysgolion y gall pobl ifanc ymddiried ynddynt, rhannu pethau â nhw a chael cyngor ganddynt. Roedd yr ymatebwyr yn pwysu am le diogel i ddioddefwyr siarad am eu profiadau. Roedd un ymatebwr yn annog ysgolion i'w gwneud yn fwy amlwg bod pobl yn ceisio helpu dioddefwyr yn hytrach nag amddiffyn y cyflawnwr/aflonyddwr, a nododd un arall nad oes rhaid i gefnogaeth i ddioddefwyr olygu cymryd camau pellach:

*"Gall llawer o fyfyrwyr deimlo'n ynysig wrth geisio siarad â rhywun gan eu bod yn aml yn meddwl y bydd athro yn eu gwrthio i gymryd camau pellach/ysgrifennu datganiadau/mynd at yr heddlu/dweud wrth athrawon eraill ac ati. Mae angen lle ar fyfyrwyr i siarad am yr hyn sydd wedi digwydd heb deimlo'n ofnus o unrhyw un o'r canlyniadau hyn. Mae arnom angen lleoliadau mwy anffurfiol lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus i wneud hyn. Mae unigedd a pheidio â siarad ond yn arwain at ganlyniadau mwy difrifol."*¹⁷⁹

153. Roedd y bwrdd golygyddol o fyfyrwyr coleg a ddadansoddodd ein canfyddiadau ymgysylltu yn cytuno y dylai cefnogaeth i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol fod yn flaenoriaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gwnaeth argymhelliad i ni ynghylch cymorth i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol:

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalennau 5-7

Argymhelliad 4: Credwn y dylai fod mwy o gymorth ar gael i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol.¹⁸⁰

Ein barn ni

Effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

154. Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cael effaith sylweddol a pharhaol ar iechyd meddwl, cyrhaeddiad addysgol, a rhagolygon bywyd llawer o bobl ifanc. Cawsom ein syfrdanu gan y cysylltiadau rhwng aflonyddu rhywiol a hunanhyder; tynnu'n ôl o addysg a chymdeithas; cham-drin alcohol a chyffuriau; hunan-niweidio; a hyd yn oed ymgais at hunanladdiad. Cawsom ein taro hefyd gan effaith aflonyddu rhywiol ar rai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed - y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft - sydd mewn perygl mawr o brofi aflonyddu a cham-drin, ond a allai hefyd, o ganlyniad i'r profiadau hynny, fynd ymlaen i aflonyddu a cham-drin eraill.

155. Rydym yn cytuno â llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth i ni fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn gyfystyr â Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i'w drin felly, a sicrhau bod yr adnoddau y mae'n eu dyrannu i'w hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a'r brys y mae'n ymateb iddo, yn adlewyrchu difrifoldeb ei effaith a pha mor gyffredin y mae erbyn hyn.

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru drin aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a sicrhau ei bod yn blaenoriaethu ei hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac yn dyrannu adnoddau ar ei gyfer yn briodol.

Cymorth i bobl ifanc sydd wedi profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

156. Dywedodd y bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg a bwrdd golygyddol myfyrwyr Coleg Cambria wrthym fod angen cymorth amserol o ansawdd uchel ar bobl ifanc sy'n profi aflonyddu rhywiol. Roeddent yn teimlo, ar y cyfan, nad oeddent yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

157. Ni wnaeth ein hymchwiliad fynd ati'n fanwl i ystyried y cymorth sy'n cael ei ddarparu i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar ddeall ac atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Fodd bynnag, mae cefnogi pobl sydd wedi profi aflonyddu rhywiol i helpu i leihau effaith yr aflonyddu ar eu haddysg, perthnasodd a llesiant yn

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalen 10

rhan hollbwysig o ymateb effeithiol i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Yn seiliedig ar yr hyn a glywsom am yr effaith y gall aflonyddu rhywiol ei chael, mae'r corff hwn o waith yn hollbwysig.

158. Rydym felly'n annog Llywodraeth Cymru i weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, elusennau ac eraill i adolygu'r cymorth y mae'n ei roi i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol, a gwneud argymhellion ynghylch sut y mae modd gwella'r cymorth hwnnw. Dylai pobl ifanc arwain ar ddylunio a chyflawni'r gwaith hwnnw.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal adolygiad o'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc sydd wedi profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gyda'r bwriad o wneud argymhellion i ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd ac amseroldeb y cymorth hwnnw.

7. Ymateb i'r broblem

Clywsom fod ysgolion yn cael trafferth ymdrin yn effeithiol ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a bod addysg rhyw a chydberthynas yn gyffredinol wael. Mae angen mwy o gymorth ar staff ysgol a rhieni i fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol amhriodol a chadw'n gyfoes wrth i dechnolegau newid. Mae gwaith aml-asiantaeth yn effeithiol pan fo'r adnoddau ar gael, ac her amlwg i Lywodraeth Cymru yw troi datganiadau polisi uchelgeisiol yn newid gwirioneddol ar lawr gwlad.

Ysgolion a cholegau

Sut mae ysgolion a cholegau yn ymateb?

159. Mae adroddiad Estyn yn egluro bod gan ysgolion, ar y cyfan, ddulliau diogelu cryf. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt bolisiau diogelu, ac mae staff fel arfer yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch diogelu.¹⁸¹

160. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn hefyd yn nodi y ceir "polareiddio sylweddol rhwng yr hyn mae disgyblion yn ei ddweud am fynychter aflonyddu rhywiol a'r hyn mae athrawon yn credu sy'n digwydd".¹⁸² Dywedodd Estyn wrthym, pan fydd ysgolion yn ymateb, eu bod yn gwneud hynny'n effeithiol. Ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n adweithiol ac nid ydynt yn ddigon rhagweithiol. Maent yn "dibynnu gormod ar aros i ddisgyblion droi at staff yr ysgol i ddweud beth yw eu cwynion neu bryderon, "nid yw ysgolion yn siarad am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ddigon agored a rheolaidd i alluogi disgyblion i ddweud eu dweud yn ddiogel", ac yn y rhan fwyaf o ysgolion, "ni all staff ddisgrifio unrhyw gamau y mae eu hysgol wedi eu cymryd i hyrwyddo diwylliant yn rhagweithiol ble mae staff a disgyblion yn gwrthbrofi aflonyddu ac yn gwrthwynebu unrhyw agweddau negyddol tuag at rywioldeb neu rywedd".¹⁸³

¹⁸¹ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalennau 28-30

¹⁸² Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 31

¹⁸³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

"Dylai ysgolion uwchradd [...] gydnabod bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fynych iawn ym mywydau disgyblion ifanc a mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ataliol a rhagweithiol i ddelio â'r mater. Rhan bwysig o hyn yw ei bod yn cynnwys darparu sicrwydd i ddisgyblion y bydd staff ysgol yn cymryd pob achos o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o ddifrif ac yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau allanol."

Estyn, argymhelliad 1¹⁸⁴

161. Yn anffodus, roedd y dystiolaeth a gawsom gan unigolion a sefydliadau eraill yn cefnogi canfyddiadau Estyn.

162. Clywsom fod polisiau ysgolion yn annigonol i raddau helaeth o ran atal aflonyddu rhywiol, nad yw camau'n cael eu cymryd i ymdrin â digwyddiad tan ar ôl iddo ddigwydd, a bod hyn yn aml yn anfodddhaol.¹⁸⁵ Dywedodd Brook wrthym fod athrawon yn ei chael hi'n anodd ymdrin â digwyddiadau, a gall ymatebion ysgolion gynnwys dioddefwr aflonyddu yn gorfod parhau i dreulio amser yn yr un ystafell ddosbarth â'r person(au) cyfrifol, neu hyd yn oed y dioddefwr yn cael ei symud allan o'r dosbarth hwnnw ei hun tra bod y person(au) cyfrifol yn aros, a all deimlo fel bod y dioddefwr yn cael ei gosbi am godi llais.¹⁸⁶

163. Roedd profiadau llawer o'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg yn cyd-fynd â thystiolaeth Brook. Soniodd 16 y cant o'r 106 o bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg am ddisgyblaeth yn eu hymatebion. Dywedodd un ymatebydd wrthym nad yw "rhai ysgolion yn gwneud unrhyw beth, ac mae'r dioddefwyr yn cael eu gorfodi i symud ysgolion neu weithio rhywbeth allan eu hunain". Dywedodd un arall wrthym fod angen i'r bobl sy'n gyfrifol am adroddiadau aflonyddu rhywiol wneud mwy i gosbi'r troseddwr, ac fe wnaeth un ein rhybuddio nad yw sesiynau cosbi neu waharddiadau yn gwneud unrhyw beth, oherwydd bod y sawl sy'n cael ei gosbi ac yn gwneud yr un peth i ferch neu unigolyn arall.¹⁸⁷

164. Cytunodd ein bwrdd golygyddol o fyfyrwyr o Goleg Cambria fod angen i ysgolion gael polisiau disgyblaeth clir i ymateb i gyflawnwyr aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion:

¹⁸⁴ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

¹⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 10 - Parents Voices in Wales

¹⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH08 - Brook Cymru

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalennau 4-5

Argymhelliad 3: Credwn y dylai fod canllawiau cliriach ar ddisgyblaeth i'r rhai sy'n aflonyddu'n rhywiol ar eraill.¹⁸⁸

165. Mae cyflwyniad ysgrifenedig Barnardo's yn dyfynnu gwaith ymchwil sy'n dangos bod ysgolion yn rhoi ymatebion ar sail rhywedd wrth ymdrin ag achosion o aflonyddu rhywiol. Yn gyffredinol, roedd merched yn cael ymateb mwy meithringar am ddangos yr un ymddygiadau, tra byddai bechgyn yn cael eu cosbi'n fwy, fel cael eu hanfon allan o'r dosbarth, eu gwahardd, ac ati. Ychwanegodd Barnardo's fod bechgyn hefyd yn llai tebygol o gael eu holi am yr hyn oedd yn sail i'r ymddygiad mewn ymdrech i geisio deall profiadau'r person ifanc hwnnw.¹⁸⁹

166. Roedd y dystiolaeth a gawsom gan GolegauCymru yn awgrymu bod y darlun mewn colegau yn fwy cadarnhaol:

*"[...] the services of the colleges are extending beyond that college day, so making sure that learners have got access to support 24/7. They know where to report their concerns, they know what to do out of hours, using things like Togetherall [a digital mental health support service] and so on. There are platforms and helpline numbers and safeguarding teams working with those out-of-hours contacts as well, and obviously multi-agency partnerships and arrangements. But it's very much not contained to the college day."*¹⁹⁰

167. Fodd bynnag, roedd DECIPHer yn llai hyderus, gan nodi mai prin yw'r dystiolaeth o ansawdd uchel o ymyriadau i fynd i'r afael ag ieched rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn lleoliadau addysg bellach. Dywedodd fod angen tystiolaeth ar frys gan fod addysg bellach yn darparu'r lleoliad gorau ar gyfer hybu ieched.¹⁹¹

Ble y mae cyfrifoldeb ysgolion a cholegau yn dod i ben?

168. Clywsom gan Estyn ac eraill fod y rhan fwyaf o aflonyddu rhywiol mewn gwirionedd yn digwydd y tu allan i'r ysgol, a hynny ar-lein yn bennaf. Roeddem yn meddwl tybed ai cyfrifoldeb staff ysgolion o hyd oedd mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol y tu hwnt i gatiâu'r ysgol.

169. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn dadlau, er bod gan ysgolion gyfrifoldeb enfawr yn y maes hwn, a chyfrifoldeb moesol hefyd, fel sydd gan bawb, i gefnogi

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalen 10

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 16 - Barnardo's Cymru

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 264

¹⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 21 - Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwellu Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

dysgwyr, plant a phobl ifanc sy'n teimlo eu bod yn ddioddefwyr aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, fod angen i ni edrych ar hyn yn y cyd-destun ehangach o fater cymdeithasol.¹⁹²

170. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod ansicrwydd yn y maes hwn, a bod angen 'llwybr clir' ar ysgolion i gyfeirio pobl ifanc i gael cymorth gan wasanaethau eraill lle nad yw ysgolion yn gallu gweithredu.¹⁹³ Dywedodd Colegau Cymru wrthym, mewn colegau, fod cyllid diweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cymorth iechyd meddwl wedi golygu y gall gwasanaethau cymorth ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod coleg, a bod myfyrwyr yn gwybod ble i droi i adrodd am eu pryderon y tu allan i oriau coleg.¹⁹⁴

171. Pwysleisiodd sefydliadau sy'n cynrychioli arweinwyr ysgolion a cholegau wrthym fod angen cymorth gwasanaethau a sefydliadau eraill ar ysgolion. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym fod angen dull cymdeithasol cymuned gyfan i fynd i'r afael â'r materion dan sylw, oherwydd bod yr hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol yn cael ei adlewyrchu'n helaeth yn yr ysgol ac i'r gwrthwyneb; roedd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn cytuno â hyn.¹⁹⁵ Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y canlynol wrthym:

*"although it's happening outside school, it's impacting their life in school, isn't it? So, it's that holistic approach. It's making it truly a community approach."*¹⁹⁶

172. Fodd bynnag, roedd yr undebau sy'n cynrychioli staff addysgu yn dadlau bod gan ysgolion gyfrifoldebau clir at eu myfyrwyr, hyd yn oed y tu allan i'r diwrnod ysgol. Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru y canlynol wrthym:

*"gall ysgolion ddim bod yn gyfrifol am ymddygiad disgyblion 24 awr y dydd. Ond, wedi dweud hynny, dyw hynny ddim yn lleihau cyfrifoldeb ysgolion i greu diwylliant ac ethos sy'n seiliedig ar barch a chydraddoldeb a sicrhau bod hynny'n dod trwy ddiwylliant yr ysgol, a thrwy'r addysg ffurfiol hefyd. Os unrhyw beth, mae'n cynyddu'r cyfrifoldeb yna, onid yw e, i geisio cael y dylanwad yna ar ddisgyblion tra'u bod nhw'n ddisgyblion ysgol a'r tu hwnt wrth fynd allan i'r byd, wedyn."*¹⁹⁷

173. Ychwanegodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod achosion y tu allan i'r ysgol lle y gallai'r ysgol gael rhywfaint o ddylanwad, gan gynnwys ar fysiau ysgol ac wrth gerdded adref o'r ysgol.

¹⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

¹⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 159

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 264

¹⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 22 a 27

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 162

¹⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 118

Fe wnaeth grynhoi, os yw disgyblion yn mewn gwisg ysgol o hyd, yna mae achos dros ymdrin â hynny fel rhan o bolisiau'r ysgol.¹⁹⁸

174. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn nodi'n glir bod "gan bob lleoliad addysg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod amgylchedd dysgu diogel ar gael i blant; rydym yn disgwyl i'r cyfrifoldebau diogelu hyn gael eu cymryd o ddifrif". Aeth ymlaen i ganmol arweinyddiaeth rhai ysgolion:

*"Mae'n galonogol bod Estyn wedi canfod, yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, bod arweinwyr yn hyrwyddo ethos cryf o barch ym mhob maes o'u gwaith, yn blaenoriaethu lles ac yn mabwysiadu dull ysgol gyfan, rhagweithiol o hyrwyddo a dathlu amrywiaeth; gyda pholisiau, gweithdrefnau a chanllawiau i staff a disgyblion sy'n cysylltu'n glir â nodau ac amcanion sy'n sicrhau bod lles wrth wraidd gwaith yr ysgol."*¹⁹⁹

175. Fe wnaethom ni ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am ei farn ynghylch i ba raddau y dylai ysgolion ymyrryd mewn aflonyddu rhywiol rhwng disgyblion sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol. Dywedodd wrthym:

*"[...] where there is a link between what's happening not solely on the school premises, where there is a link between that and good behaviour and discipline in the school itself, obviously that does provide the head with discretion to act, and I trust heads to be making informed and balanced judgments, based on the guidance that we are providing."*²⁰⁰

Addysg rhyw a pherthnasoedd yn y cwricwlwm presennol

176. Mae addysg rhyw a pherthnasoedd yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion uwchradd o dan Ddeddf Addysg 2002. Mae ysgolion cynradd yn gallu ei haddysgu ond nid oes rheidrwydd arnynt i wneud hynny. Canfu adolygiad yn 2017 o addysg rhyw a pherthnasoedd yng Nghymru:

- mae angen diweddarau'r gyfraith a'r canllawiau presennol ar addysg rhyw a pherthnasoedd;

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 119

¹⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

²⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 61

- yn aml, mae addysg rhyw a pherthnasoedd yn rhy fiolegol, yn rhy negyddol, ac ni roddir digon o ffocws ar hawliau, tegwch, emosiynau a pherthnasoedd;
- mae bwlch rhwng profiadau byw plant a phobl ifanc a chynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd; ac
- anaml y bydd addysg rhyw a pherthnasoedd yn gynhwysol ac mae'n rhy heteronormadol.²⁰¹

177. Bydd addysg rhyw a pherthnasoedd yn newid dan y cwricwlwm newydd. Bydd yn cael ei disodli gan addysg cyd-berthynas a rhywioldeb, a fydd yn orfodol ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd. Rydym yn trafod y cwricwlwm newydd ymhellach ym mhennod 8.

178. Canfu gwaith Estyn gyda phobl ifanc fod disgyblion yn gwerthfawrogi addysg o ansawdd uchel am ryw a pherthnasoedd, a'u bod eisiau mwy o amser gyda staff ysgol i siarad am berthnasoedd rhywiol iach, parch ac amrywiaeth.²⁰² Mae ail argymhelliad Estyn yn canolbwyntio ar addysg rhyw a pherthnasoedd:

Darparu cyfleoedd dysgu digonol, cronol a buddiol ar gyfer disgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan am berthnasoedd iach, addysg rhyw a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys darparu amgylchedd diogel, cefnogol a galluogol ar gyfer trafodaethau agored a gonest.

Estyn, argymhelliad 2²⁰³

179. Dywedodd Estyn wrthym nad yw addysg rhyw a pherthnasoedd yn cael ei gwneud yn ddigon da ar hyn o bryd, a'i fod wedi bod yn dweud hynny ers rhai blynyddoedd.²⁰⁴ Cytunodd Comisiynydd Plant Cymru, gan alw'r addysg rhyw a pherthnasoedd dan y cwricwlwm presennol yn 'annigonol', 'o ansawdd gwael', ac 'weithiau'n gwbl absennol'.²⁰⁵ Fe wnaeth hi a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon bwysleisio pwysigrwydd sgysiaid sy'n briodol i oedran a datblygiad gyda phlant o bob oed, gan gynnwys plant mewn ysgolion cynradd.²⁰⁶

²⁰¹ Llywodraeth Cymru, 'Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd: Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru', Rhagfyr 2017, tudalennau 5 i 8

²⁰² Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 27

²⁰³ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

²⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

²⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 2

²⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 408 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 57

180. Dywedodd Stonewall Cymru hefyd wrthym nad yw'r cwricwlwm presennol yn diwallu anghenion dysgwyr LHDTG+. Dywedodd wrthym nad yw ysgolion mewn gwirionedd yn darparu addysg gynhwysol LHDTG+ ddiogel, sydd wedyn yn gadael disgyblion a phlant mewn sefyllfa lle y mae'n rhaid iddynt chwilio am wybodaeth mewn mannau eraill, lle y mae mwy o berygl iddi fod yn anniogel.²⁰⁷

181. Clywsom y byddai rhaglenni addysg rhyw a pherthnasoedd addas i'r diben hefyd yn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar sail delwedd. Fe wnaeth y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau bwysleisio:

*"image-based abuse and harassment media platforms that I think, also, are part of the issue that needs to be addressed in schools. We need to look at media literacy, we need to unpick what is right, what is wrong, what is correct, what is normal within a healthy sexual relationship and what is not acceptable within a healthy sexual relationship."*²⁰⁸

Aeth ymlaen i ddadlau mai pobl ifanc eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i lunio'r addysg honno, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfryngau ar-lein.²⁰⁹

182. Roedd cyfranwyr eraill i'n hymchwiliad yn cytuno bod angen i bobl ifanc eu hunain fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu addysg rhyw a pherthnasoedd. Roedd yr Athro Renold yn dadlau'r canlynol:

*"Children and Young People's own understandings and experiences must be prioritized in the design and delivery of resources, strategies and prevention programmes in order to be relevant, responsive and developmentally appropriate. They must be affirmative in their approach, and mitigate against potential binary victim-blaming or perpetrator-shaming and in ways that are inclusive of all gender and sexual identity and expression."*²¹⁰

183. Dywedodd y canlynol wrthym, wrth weithio gyda phobl ifanc:

"[...] you find out from them maybe what might be useful and beneficial, what's a safe space in a school, why might they not report, schools can

²⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 254

²⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

²⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 42

²¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

actually then start to create a culture and environment where they feel safe enough to talk about these things or even to report them."²¹¹

"Hyfforddiant, hyfforddiant, hyfforddiant"

184. Clywsom, dro ar ôl tro, fod hyfforddiant o ansawdd uchel i holl staff yr ysgol yn hanfodol i ymateb yn effeithiol i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae adroddiad Estyn yn nodi fel a ganlyn:

*"Dywed pob ysgol fod angen mwy o hyfforddiant a chymorth arnynt i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol ysgol gyfan ar sut i ymgysylltu'n rhagweithiol mewn sgysiaid gyda disgyblion am faterion rhywedd ac aflonyddu rhywiol. Hefyd, mae angen iddynt gael hyfforddiant ar gyfer eu staff ysgol gyfan ar faterion LHDTC+, er enghraifft sut i gefnogi disgyblion sy'n trawsnewid neu ddisgyblion trawsryweddol, gan gynnwys drwy ddefnydd addas o iaith neu ragenwau personol y byddai'n well ganddynt i bobl eu defnyddio."*²¹²

185. Aeth ymlaen i nodi, er bod staff cymorth llesiant ac arweinwyr bugeiliol yn cael hyfforddiant penodol ar faterion fel aflonyddu rhywiol, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y corff staffio cyfan yn llai cyffredin.²¹³ Pan wnaeth roi tystiolaeth i ni, dywedodd Estyn wrthym fod athrawon yn dweud bod hon yn elfen gyffredin, sef eu bod yn teimlo mai cyfrifoldeb yr ysgolion oedd bod yn rhan o'r diwylliant. Ond dywedodd athrawon wrth Estyn nad oeddent yn teimlo'n barod, ac nad oeddent yn teimlo bod ganddynt y sgiliau cywir er mwyn gwneud pethau'n iawn.²¹⁴

186. Gwnaeth Estyn ddau argymhelliad ynghylch hyfforddiant i staff ysgol:

"Dylai ysgolion uwchradd [...] Sicrhau bod holl staff ysgolion yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd a phwrpasol ar faterion addysg bersonol a chymdeithasol, yn cynnwys perthnasoedd, rhywedd, amrywiaeth a thrawsnewid. Mae hyn er mwyn iddynt allu darparu dull cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi disgyblion wrth iddynt dyfu a datblygu'n oedolion ifanc."

"Dylai awdurdodau lleol [...] [dd]arparu dysgu proffesiynol angenrheidiol ar gyfer staff ysgol i'w galluogi i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at aflonyddu rhywiol"

²¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 344

²¹² Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 10

²¹³ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 33

²¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 122

rhwng cyfoedion, yn cynnwys bwllo ac aflonyddu homoffobig, deuffobig a thrawsffobig."

Estyn, argymhellion 4 a 5²¹⁵

187. Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn cytuno â chanfyddiadau Estyn bod hyfforddiant ar gyfer staff ysgol yn hollbwysig. Dywedodd wrthym mai aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yw'r mater hyfforddi mawr nesaf ar gyfer staff addysgu a staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc.²¹⁶

188. Dywedodd Brook wrthym y dylai herio gwerthoedd rhai athrawon fod yn rhan ganolog o hyfforddi staff:

*"We do a value-based activity just for professionals to think objectively about how their values could impact on the way that they deal with disclosures and how they generally think of different topics. Around the value of 'Sexual banter amongst boys is normal and should just be left to be so', I had one teacher really argue the point that they believed that actually, sexual banter is healthy and we should be allowing it. It's the way that that is enshrined in people in society that we should just allow it, when we shouldn't; we should be addressing it, we should be unpicking it, we should be taking the time to do it."*²¹⁷

189. Roedd rhai pobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg ar-lein yn cytuno nad yw athrawon yn gallu ymateb yn briodol i gyhuddiadau o aflonyddu rhywiol. Clywsom fod athrawon yn rhy gyflym i esgusodi'r ymddygiad, gan ddisgrifio sefyllfaoedd fel 'chwarae o gwmpas' ac y dylai athrawon fod yn 'fwy effro o ran gwybod beth yw aflonyddu a mynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath'. Awgrymodd un ymatebwr mai un rhwystr i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yw y gallai athrawon fod yn anghyfforddus yn siarad am berthnasoedd, ac y gallai hyfforddiant ddatrys y broblem hon. Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y byddai hyfforddiant, adnoddau a chymorth yn costio arian ac yn cymryd amser. Fodd bynnag, clywsom fod hyn yn broblem y mae angen gwario arian arni ac y dylai fod yn flaenoriaeth o ystyried pwysigrwydd a difrifoldeb. Roedd y bwrdd golygyddol myfyrwyr coleg yn cytuno. Gwnaeth yr argymhelliad a ganlyn i ni:

²¹⁵ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

²¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 147

²¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 224

Argymhelliad 2: Credwn y dylai fod mwy o ganllawiau i athrawon ar sut i fynd i'r afael â chyhuddiadau o aflonyddu rhywiol.²¹⁸

190. Fodd bynnag, yn ôl yr Athro Renold, gallai fod yn anodd cymryd yr amser i wneud hyn. Pwysleisiodd mai un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ysgolion yw'r amser, adnoddau a'r mynediad at ddysgu a hyfforddiant proffesiynol sy'n seiliedig ar ymchwil.²¹⁹

191. Siaradodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg â ni am bwysigrwydd y Person Diogelu Dynodedig o ran cefnogi a hyfforddi'r gweithlu ehangach yn yr ysgol.

*"They should be getting training that enables them specifically to discharge their responsibilities in conjunction with those other agencies [...] it's a role that cascades into the broader teaching and other staff workforce, the training and awareness that the workforce more broadly needs, both on their own responsibilities, but also on how to ensure, through the existing structures in the school, that those external agencies are engaged properly when they need to be in responding."*²²⁰

192. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion yn awgrymu nad yw hyn o bosibl yn digwydd bob tro:

*"Mae adborth diweddar a gafodd Llywodraeth Cymru gan athrawon, uwch-arweinwyr a phobl ifanc eu hunain yn dangos bod gwir ddiffyg hyder ymysg ymarferwyr o ran cael trafodaethau ynghylch homoffobia, aflonyddu rhywiol, rhywedd a hil – trafodaethau sy'n aml yn anodd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod llawer o ymarferwyr yn poeni am effaith cael y mathau hyn o drafodaethau, ac mae ofn canlyniadau posibl – yn aml caiff hyn ei ddangos mewn enghreifftiau o drafodaethau ynghylch hunaniaeth o ran rhywedd a thrawsffobia, er enghraifft."*²²¹

Y dull ysgol gyfan

193. Ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ar y pryd lunio fframwaith yn nodi egwyddorion trosfwaol y dull ysgol gyfan:

²¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Ebrill 2022, tudalen 10

²¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

²²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

²²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

- Dylid ystyried bod dull ysgol gyfan yn ganolog i lwyddiant dysgu am iechyd a lles.
- Dan y dull ysgol gyfan, mae cyfrifoldeb ar holl staff yr ysgol i fabwysiadu dull ysgol gyfan o hyrwyddo iechyd meddwl da a llesiant emosiynol.
- Mae modd cyflawni dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol drwy arweinyddiaeth effeithiol, diwylliant cadarnhaol, a'i roi ar waith drwy gyd-gynhyrchu mewn partneriaeth â holl randdeiliaid yr ysgol.
- Mae dull ysgol gyfan yn rhoi'r plentyn wrth wraidd y penderfyniadau a wneir yn ei gylch.²²²

194. Eglurodd Llywodraeth Cymru wrthym fod "[y] dull ysgol gyfan yn ceisio cefnogi lles emosiynol a meddyliol da drwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion, lle y mae plant a phobl ifanc yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â staff a dysgwyr eraill".²²³

195. Clywsom gefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid a thystion i'r dull ysgol gyfan fel ffordd o fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Pwysleisiodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y canlynol i ni:

*"[...] everybody in the school environment has a role to play in this. It's not just about leaders and teachers; it's about support staff, it's about the lunchtime supervisors, who often have those important adult relationships with learners and are sometimes the people very much that these children turn to to have those conversations."*²²⁴

196. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn cytuno, gan ddweud wrthym fod angen dull ysgol gyfan sy'n gyson ac yn gadarn o ran hyfforddiant a monitro, a hynny i sicrhau bod y gweithlu cyfan mewn ysgolion mewn cytgord ac yn hyderus. Dywedodd bod yn rhaid i hyn osgoi bod yn symbolaidd ac mewn seilos i staff dynodedig, ond ei fod, yn hytrach, yng ngwead lleoliadau addysg.²²⁵ Cafwyd stori debyg yn nhystiolaeth Plan UK. Canfu gwaith ymchwil a wnaeth fod llawer o ferched yn dweud eu bod eisiau mwy o wybodaeth a chefnogaeth o ran cael cymorth ar gyfer yr aflonyddu rhywiol y maent yn ei brofi. Yn benodol, dywedodd fod merched yn wir yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y maent wedi'i chael gan un athro unigol, nid o reidrwydd athro

²²² Llywodraeth Cymru, 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol', Mawrth 2021, tudalen 22

²²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

²²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 59

²²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 19 - Cymorth i Ferched Cymru

dosbarth, ond llyfrgellydd neu aelod penodol o staff cymorth, neu unrhyw aelod o'r tîm bugeiliol.²²⁶

197. Dywedodd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau wrthym fod ymagwedd gyfannol at iechyd meddwl a llesiant yn arbennig o bwysig mewn ysgolion uwchradd, lle nad yw disgyblion yn aros gyda'r un athro am y rhan fwyaf o'r wythnos:

*"If you go into a secondary school, all of a sudden you're having all of these different teachers and you've got to have time to get to know the teacher that you're going to. So, in primary school, the primary teacher will know that holistic element, so I think it is almost easier to have that conversation in the primary school."*²²⁷

198. Cytunodd Comisiynydd Plant Cymru fod mannau diogel mewn ysgolion, yn y cartref ac yn y gymuned ehangach yn hanfodol i blant fynd ati i drafod pa mor gymhleth ac anodd yw'r byd ar-lein.²²⁸

199. Dywedodd Parents' Voices in Wales wrthym y dylid rhoi llais i blant yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a pha ymyriadau sy'n iawn iddynt. Roedd yn dadlau y byddai sefydlu dull 'Y Ffordd Gywir' Comisiynydd Plant Cymru mewn ysgolion – fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant yn seiliedig ar gymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n rhoi hawliau plant wrth wraidd cynllunio, darparu gwasanaethau ac ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac arfer – yn rhoi llais i blant a phobl ifanc fel sbardun i wneud ymyriadau. Aeth ymlaen i ddadlau o blaid cymunedau ysgol yn seiliedig ar y model NYTH o gyd-gynhyrchu ar sail rhoi nerth, ymddiried, tyfu'n ddiogel a hybu, a hynny ar lefel ysgol, gyda rhieni yn rhan o'r broses.²²⁹

Beth yw'r model NYTH?

Mae'r fframwaith NYTH (rhoi nerth, ymddiried, tyfu'n ddiogel a hybu) yn offeryn cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, gyda'r nod o sicrhau dull system gyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

Nod y Fframwaith NYTH yw symud y diwylliant i ffwrdd o ofyn beth sydd o'i le ar

²²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 431

²²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 233

²²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 370

²²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 393

blentyn tuag at ganolbwyntio ar sut beth yw NYTH plentyn o ran ei iechyd meddwl a'i lesiant, a'r hyn sydd ei angen iddo ffynnu. Dewiswyd y term 'NYTH' oherwydd y cysyniad o ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer llesiant a phwysigrwydd y pedair nodwedd graidd sy'n rhan o'r anagram.

Y nod yw ehangu'r ffocws gan wasanaethau arbenigol, i'w gwneud yn gyflymach i gael mynediad at arbenigedd a chynghor, gyda dull 'dim drws anghywir' fel bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr amser iawn ac mewn ffordd sy'n iawn iddyn nhw.

Dulliau o reoli ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth

200. Roeddem yn meddwl tybed a yw pobl ifanc yn defnyddio ffonau symudol yn ystod oriau ysgol i aflonyddu eu cyfoedion yn rhywiol, ac a oes gan ysgolion bolisiau cyson ar ddefnyddio ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.

201. Fe wnaeth Estyn ein hatgoffa bod aflonyddu rhywiol yn digwydd yn fwy ar ôl ysgol nag yn yr ysgol. Fe wnaeth ychwanegu bod llawer o ysgolion, yn ystod y pandemig, wedi dibynnu ar ddisgyblion yn bod yn berchen ar ffôn symudol i'w ddefnyddio fel dyfais ddysgu, a bod rhai ysgolion yn caniatáu dod â dyfeisiau symudol i'r ysgol, boed hynny'n ffôn symudol neu'n dabled, ac ati. Fe wnaeth ein hannog i fod yn ofalus i beidio â beirniadu na gwneud dyfarniad am bolisiau yn ymwneud â ffonau symudol.²³⁰ Aeth ymlaen i bwysleisio fel a ganlyn:

*"it's not necessarily about the mobile phone, it's not necessarily about the photos, it's about the culture, and that's what needs changing in the schools."*²³¹

202. Fe wnaethom ni ofyn i'r undebau sy'n cynrychioli staff ac arweinwyr ysgolion a cholegau a yw ffonau symudol mewn ysgolion yn cyfrannu at aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a pha bolisiau sydd gan ysgolion – ac y dylai fod ganddynt – i fonitro'r defnydd o ffonau symudol. Cawsom amrywiaeth o safbwyntiau mewn ymateb.

203. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym nad oes lle i ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd bod gan ysgolion bolisiau yn eu lle sy'n gwahardd defnyddio ffonau symudol yn y dosbarth, ond bod amrywiaeth yn y cyfyngiadau ar eu defnyddio yn ystod amser egwyl. Ysgrifennodd y byddai canllawiau Llywodraeth Cymru ar bolisiau ffonau symudol yn ddefnyddiol ond yn y pen draw na fyddai modd eu gorfodi. Mae'r her fwyaf i arweinwyr

²³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 75

²³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 83

ysgol yn aml yn codi mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol, er enghraifft pan fydd plentyn yn postio rhywbeth am blentyn arall. Ond daeth i'r casgliad mai'r her fwyaf i ysgolion ynghylch ffonau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol yw'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol, yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.²³²

204. Dywedodd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau²³³ ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru wrthym eu bod yn ffafrio hyblygrwydd i benaethiaid ddatblygu eu polisiau eu hunain. Nid oedd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru o blaid dull cenedlaethol cyson, gan ddadlau bod perygl pendant o ganlyniadau anfwriadol, neu effaith wrthgynhyrchiol. Fodd bynnag, beth bynnag yw safbwynt cytûn yr ysgol, mae'n argymhell polisiau clir sy'n cael eu cymhwyso'n gyson mewn unrhyw ysgol. Dywedodd fod angen gweld y rhain yng nghyd-destun 'polisiau defnydd derbyniol' ehangach ar gyfer technoleg mewn ysgolion, gyda chysylltiadau â mentrau gwrth-fwlio a pholisiau a gweithdrefnau disgyblu.²³⁴

205. Fe wnaeth yr Undeb Addysg Cenedlaethol a Chymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau ein cyfeirio at ganllawiau y maent wedi'u llunio i'w haelodau, gan gynnwys ynghylch tynnu lluniau ar ffonau symudol²³⁵ a'r cyfryngau cymdeithasol a cham-drin athrawon ar-lein.²³⁶ Nid yw'r naill undeb na'r llall yn argymhell un dull penodol o reoli ffonau symudol mewn ysgolion. Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn nodi y gall fod yn anodd gorfodi gwaharddiadau llwyr ar bob ffôn symudol. Mae llawer o rieni yn annog eu plant i'w cario at ddibenion diogelwch, ac efallai na fydd staff am herio disgyblion yn barhaus am dorri'r rheolau. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau wrthym fod y ffôn symudol modern yn adnodd pwerus a all fod yn arf dysgu arbennig. Mae athrawon eisoes yn defnyddio'r adnodd hwn fel rhan o'u haddysgu, felly nid y ffôn yw'r broblem ond camddefnydd o'r ffôn.²³⁷

206. Mewn erthygl newyddion gan y BBC yn 2019, cadarnhaodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru ar y pryd nad oedd hi wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio ffonau symudol, gan ddweud mae'r farn oedd mai mater i ysgolion unigol yw hyn. Ychwanegodd y llefarydd fod

²³² Tystiolaeth ysgrifenedig, Tystiolaeth ychwanegol gan yr undebau athrawon ynghylch ffonau symudol mewn ysgolion

²³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Tystiolaeth ychwanegol gan yr undebau athrawon ynghylch ffonau symudol mewn ysgolion

²³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Tystiolaeth ychwanegol gan yr undebau athrawon ynghylch ffonau symudol mewn ysgolion

²³⁵ Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, 'Tynnu lluniau ar ffonau symudol'

²³⁶ NASUWT, 'Y cyfryngau cymdeithasol a cham-drin athrawon ar-lein'

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Tystiolaeth ychwanegol gan yr undebau athrawon ynghylch ffonau symudol mewn ysgolion

eisoed gan athrawon y pŵer i gyfyngu ar y defnydd o ffonau ac bod cydnabyddiaeth bod modd defnyddio ffonau'n effeithiol yn yr ystafell dosbarth fel arf dysgu, os cânt eu rheoli'n gywir.²³⁸

207. Fe wnaethom ni ofyn i Weinidog presennol y Gymraeg ac Addysg am ei farn am ddull Cymru gyfan ar gyfer polisiau ffonau symudol mewn ysgolion. Dywedodd y canlynol wrthym:

*"Speaking to teachers when I visit schools, I think there's a range of views on this, isn't there? Sometimes it's perceived that, actually, trying to manage the presence or otherwise of phones is itself more disruptive, so I think there's a very fine set of judgments that need to be reached. But I do think that our role is to provide guidance for schools to make those judgments, based on their circumstances, really."*²³⁹

'Ysgolion cymunedol' a gweithio gyda'r heddlu, awdurdodau lleol, elusennau ac eraill

208. Mewn adroddiad thematig yn 2020, mae Estyn yn esbonio y bu'r cysyniad o ysgolion cymunedol "yn rhan o bolisi addysg Cymru ers blynyddoedd cynnar datganoli". Mae'n nodi bod ysgolion cymunedol "wedi'u gwreiddio mewn cyd-destun cymunedol eang" a'u bod yn "rhan annatod o adeiladu gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer cyflwyno nid yn unig addysg a hyfforddiant ond hefyd ystod o wasanaethau eraill fel cynhaliadau deuluol a hybu iechyd a menter".²⁴⁰

209. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r cysyniad a'r term 'ysgol fro' ers blynyddoedd lawer, sy'n dyddio'n ôl i ganllawiau y cyhoeddodd yn 2003.²⁴¹ Mae adrannau 27 a 28 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi pwerau i gyrff llywodraethu ddarparu gwasanaethau i helpu i ddiwallu anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg bwysleisio, ym mis Mawrth 2022, fod Llywodraeth Cymru am i ysgolion weithredu fel ysgolion bro, gan estyn allan at rieni a gofawyr ac ymgysylltu â'r gymuned gyfan, gan gyhoeddi cyllid ar gyfer rheolwyr a swyddogion cyswllt teuluol mewn ysgolion bro.²⁴²

210. Clywsom, drwy gydol ein hymchwiliad, fod angen cymorth asiantaethau eraill ar ysgolion i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn effeithiol. Gallai'r cymorth hwnnw fod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar ffurf cyfleoedd dysgu proffesiynol, gan yr

²³⁸ BBC, 'Mobile phone ban in school relaxed to 'ease friction'', Hydref 2019

²³⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 63

²⁴⁰ Estyn, 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol', Gorffennaf 2020

²⁴¹ Llywodraeth Cymru, Ysgolion bro: canllawiau, 15 Rhagfyr 2003

²⁴² Y Cyfarfod Llawn, 22/03/2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 148-159

heddlu ar ffurf gwersi arbenigol, neu gan elusennau sy'n gallu darparu ymyriadau a chynnig lle arall i blant drafod ac adrodd am aflonyddu rhywiol.

211. Dywedodd Estyn y canlynol wrthym:

*"the Welsh Government has identified the need to make every school a community school. And there's work starting to happen around that, and that provides, almost, the mindset to work with other agencies and to work with the local community and parents in improving the experience that young people have in a school, and once they leave and the time they spend beyond that school."*²⁴³

Argymhellodd ei adroddiad y canlynol:

"Dylai awdurdodau lleol [...] [g]ynllunio ymyrraeth a chymorth addas ar faterion rhyw ar lefel ysgol ac awdurdod lleol a gwerthuso effaith hyn ar les disgyblion yn rheolaidd."

Estyn, argymhelliad 6²⁴⁴

212. Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddatgan yn glir yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd fod "dull amlasiantaethol yn allweddol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion".²⁴⁵ Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi rôl y Gwasanaeth Lles Addysg o ran ymdrin â phryderon ynghylch diogelu:

- nodi pryderon lles a dangosyddion cam-drin neu esgeuluso posibl pob disgybl ar gam cynnar a chyfeirio'r pryderon hynny at yr asiantaeth briodol;
- rhoi cyngor a hyfforddiant; ac
- ar y cyd â'r awdurdod lleol, sicrhau bod pob aelod o staff ysgolion yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu ac yn deall eu cyfrifoldebau.²⁴⁶

213. Fe wnaethom ni gasglu tystiolaeth ynghylch a yw gwaith aml-asiantaeth yn digwydd yn ymarferol, a pha mor effeithiol yw hyn. Dywedodd Estyn wrthym ei fod yn effeithiol, yn enwedig mewn ymateb i ddigwyddiad, a bod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth:

²⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 132

²⁴⁴ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

²⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

²⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

*"where there was an actual incident, those statutory services worked well together—the school took the appropriate actions and put the appropriate support in place. [...] Young people and staff we spoke to valued the input that some of those specialist agencies can bring, both in very specific incident cases [...] but also as part of that wider programme of relationship and sexuality education, and PSE as it has been."*²⁴⁷

214. Dywedodd Colegau Cymru fod trefniadau partneriaeth amlasiantaethol cryf iawn ac effeithiol iawn mewn colegau, a hynny yn yr ardaloedd lleol a hefyd drwy'r byrddau diogelu rhanbarthol. Aeth ymlaen i ddweud bod gwaith grŵp diogelu addysg Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn 2015, wedi bod yn cyfrannu at hyn. Ychwanegodd fod gwaith partneriaeth amlasiantaeth wedi tyfu'n aruthrol a bod pawb yn gweld gwerth a phwysigrwydd hynny.²⁴⁸ Cytunodd Comisiynydd Plant Cymru, gan ddweud wrthym fod byrddau diogelu yn chwarae rhan hollbwysig, drwy gasglu data a hefyd drwy edrych weithiau ar astudiaethau achos unigol i weld lle nad yw plant wedi'u hamddiffyn fel hyn.²⁴⁹

215. Fe wnaeth yr Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru sylwadau cadarnhaol ynghylch potensial ysgolion cymunedol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol:

*"Mae'r syniad sydd yn dod trwyddo nawr o ysgolion cymunedol yn un diddorol iawn, dwi'n credu, o safbwynt hyn, achos yn ddelfrydol mi fyddai gennych chi ysgol gyda'r holl asiantaethau eraill yn ei hamgylchynu hi, a bod yna fynediad parod iawn i weithwyr cymdeithasol arbenigol, i wasanaethau cwnsela a thrawma a gwasanaethau CAMHS—iechyd meddwl. Hynny yw, dyna'r math o fodel sydd ei angen, yn wir."*²⁵⁰

216. Roedd yr Athro Renold yn cytuno bod yr ymyriadau yn digwydd o'r brig i lawr, eu bod yn digwydd ar draws cymdeithas a'u bod yn rhai ysgol gyfan, sy'n golygu gweithio gyda darparwyr allanol hefyd. Ychwanegodd fod hon yn dasg fawr i'w chyflawni:

*"But we actually have the strategies and the systems in place to do this in Wales, but we're on the potential of that, if you like; we're not there yet, and there's lots and lots to do."*²⁵¹

²⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

²⁴⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 311

²⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 380

²⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 172-173

²⁵¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 332

217. Clywsom fod ysgolion yn wynebu heriau pan fyddant yn ceisio ymgorffori dull cymunedol. Dywedodd cynrychiolydd o Gymdeithas yr arweinwyr Ysgolion a Cholegau wrthym fod gan ei ysgol gwnselydd sy'n dod i'r ysgol unwaith yr wythnos, ac felly'n gweld pum myfyriwr yn ystod y dydd. Dywedodd mai prin y mae'r gefnogaeth hon yn diwallu'r galw.²⁵² Fe wnaeth cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon rannu stori debyg â ni:

*"So, we're very, very lucky that we've been able to spend some money recently on pastoral support officers, as we describe them, who are non-teaching professionals with 100 per cent contact time during the school day, where they can take the time to sit down and speak to people about what they've been doing in school. So, I think those things are vital, that you provide those opportunities."*²⁵³

218. Canfu Estyn fod ysgolion a disgyblion yn gwerthfawrogi cymorth a chydweithrediad asiantaethau allanol, ond bod cymorth arbenigol cyfyngedig ar gyfer addysg rhyw yn cael effaith negyddol ar lesiant llawer o ddisgyblion.²⁵⁴ Roedd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn cytuno â'r canfyddiadau:

*"there has to be a bit of a multi-agency approach to this particular problem. It's got to be about better resources. The diminution of resources over the last years, I think, has had an effect where you have got social workers who are thin on the ground, you've got ed psyches who are unavailable, school counsellors who are like hen's teeth, and you've got police liaison officers who, again, are brilliantly effective, but it isn't always easy to get hold of a police liaison officer when you wish to have that."*²⁵⁵

219. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn cytuno, er bod arferion gorau arbennig yn digwydd, lle y mae gwaith amlasiantaethol yn cyflawni ar gyfer ysgolion a dysgwyr, y byddai'n mynd mor bell â dweud nad yw hynny'n cael ei ailadrodd ar draws Cymru gyfan. Mae cyllid yn rhwystr mawr o ran gwella cysondeb.²⁵⁶

220. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym y gall defnyddio asiantaethau allanol neu arbenigol arwain at anghysondebau yn y modd yr ymdrinnir ag aflonyddu rhywiol ar draws ysgolion. Eglurodd Ysgol Uwchradd Fitzalan nad yw pob asiantaeth yn delio â'r materion yn yr un modd. Gan fod cynifer o asiantaethau yn cyfrannu, dywedodd fod gormod o leisiau yn rhoi

²⁵² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 100

²⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 51

²⁵⁴ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 10

²⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 27

²⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 1

safbwyntiau gwahanol. Dywedodd wrthym y gall fod yn anodd dod o hyd i gymorth priodol i fynd i'r afael â materion oherwydd bod rhai asiantaethau'n gweithio dim ond gyda phobl ifanc sydd wedi'u hatgyfeirio drwy'r system gyfiawnder, ac na fydd eraill yn gweithio gydag eraill wedi i fater ddod i'r amlwg.²⁵⁷ Rhannodd Barnardo's dystiolaeth debyg, gan nodi'r canlynol:

"often, schools are looking for support but the threshold for a statutory intervention from the police or social services is not met [...] This means that there is reliance on a piecemeal approach to supporting schools to deal with these issues".²⁵⁸

221. Yn eu dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthym eu bod wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r Heddluoedd i fynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiad Estyn. Nodwyd hefyd bod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cwrdd yn rheolaidd â chadeirydd presennol Grŵp Plismona Cymru Gyfan, sef PCC Dafydd Llywelyn, lle y mae ystod o faterion yn cael eu trafod, gan gynnwys aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'r mater ehangach o gasineb yn erbyn menywod. Mae'r papur yn nodi:

- Ym mlwyddyn academiaidd 2021-22, cynhaliodd rhaglen ysgolion yr heddlu 8,180 o wersi Atal Troseddau gyda 70 y cant o ysgolion Cymru.
- Yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-22, cafwyd 289,029 o gysylltiadau â disgyblion (yn cynnwys Gwasanaethau), 4,544 o Weithgareddau Plismona Ysgolion Cefnogol (yn cynnwys delio â 2,636 o ddigwyddiadau mewn ysgolion gan ddefnyddio'r Protocol Crime Beat mewn Ysgolion).
- Fel rhan o waith Ysgolion Bro, ar 22 Mawrth, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyllid o £3.84m i gefnogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion.²⁵⁹

222. Dywedodd Dirprwy Brif Gwnstabl ac Arweinydd Plismona yng Nghymru y canlynol wrthym:

"colleagues in Wales will be aware that we have a footprint in every school across Wales, which is a fantastic achievement, and, of course, supported

²⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH07 - Ysgol Uwchradd Fitzalan

²⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 16 - Barnardo's Cymru

²⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

very well by Welsh Government, and is the envy of some of our colleagues the other side of the bridge in some of our English forces".²⁶⁰

Dywedodd Uned Atal Trais Cymru wrthym y gall swyddogion heddlu mewn ysgolion fod yn effeithiol, ond bod rhaglenni ehangach eraill hefyd.²⁶¹ Diben y rhaglenni hyn yw sbarduno graddfa a chyflymder y newid mewn perthynas â strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar Drais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol, ymhlith pethau eraill.²⁶²

223. Roedd rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'n hymchwiliad, gan gynnwys gan Gomisiynydd Plant Cymru²⁶³ a'r undebau arweinwyr athrawon,²⁶⁴ yn cefnogi canfyddiadau Estyn bod ymyriadau gan yr heddlu ysgol yn 'fuddiol iawn' a bod ysgolion a disgyblion yn eu gwerthfawrogi'n fawr.²⁶⁵

224. Ond nid oedd popeth a glywsom am raglen heddlu ysgolion Cymru yn gadarnhaol. Dywedodd myfyriwr o Goleg Cambria wrthym fod heddwys wedi dweud wrtho a'i gyfoedion nad yw bechgyn yn gallu cael eu haflonyddu'n rhywiol. Dywedodd Parents' Voices in Wales wrthym:

"parents may go to the police, and the police may then talk to the parents at home. They will contact the school, but they may then—this is what we have been told—in all good faith, educate the victim on online security, which is an aspect and a facet of the problem, but we're not looking at the root cause."²⁶⁶

A phan wnaethom ni ofyn i gynrychiolwyr o'r undebau athrawon am eu barn am y rhaglen, nid oedd unrhyw un yn fodlon ateb y cwestiwn.²⁶⁷

225. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a oedd hi, yng ngoleuni'r hyn a glywsom gan fyfyrwyr Coleg Cambria, yn hyderus bod rhaglen ysgolion heddlu Cymru yn helpu i fynd i'r afael go iawn ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion. Roedd y Gweinidog yn cydnabod:

"This is very important evidence [...] It is good to see that Estyn is positive in their report about the Wales police schools programme, which, actually, the Welsh Government funds [...] We need to feed back that grave concern of

²⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 36

²⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

²⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 122

²⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 10

²⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 91-92 a 98

²⁶⁵ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 23

²⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 363

²⁶⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 178

*that evidence from that young person. I certainly will be raising that in my regular meetings. But I think also, just to reassure the committee that the police are implementing the recommendations from a review of the programme. It needed a review, the Wales police schools programme. It took place back in 2019, and I can give you some more information, if that would be helpful, about what came out of that review."*²⁶⁸

Rhieni a theuluoedd

226. Un trywydd allweddol i ni yn yr ymchwiliad oedd rôl rhieni a theuluoedd o ran atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac ymateb iddo. Mae cylch gwaith Estyn, ac felly ei adroddiad, yn canolbwyntio ar ysgolion, ac asiantaethau sy'n gweithio gydag ysgolion, i gyflwyno addysg a darparu cymorth i ddisgyblion. Fodd bynnag, fe wnaethom ni ofyn i'r tystion beth y gall rhieni ei wneud i newid y diwylliant o aflonyddu rhywiol mewn ysgolion.

227. Clywsom mai'r broblem yw bod gofyn i rieni wneud gormod. Dywedodd Dirprwy Brif Gwnstabl ac Arweinydd Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn wrthym:

*"[...] as a parent, you're expected to be a child psychologist, a social worker, a police officer and know and understand a huge framework that's out there in terms of legislation, child development, and so on and so forth, whilst, behind it all, social media is going at an alarming rate. Children keep up with that, but us as parents perhaps don't."*²⁶⁹

228. Clywsom fod angen i rieni fod yn ymwybodol o'r technolegau newydd a'r platformau rhwydweithio cymdeithasol diweddaraf i sicrhau eu bod yn gallu monitro ac amddiffyn plant rhag aflonyddu ar-lein. I lawer, mae hyn yn dipyn o gamp. Cyfaddefodd y Tîm Troseddau leuenctid y canlynol:

*"Children in this space are way ahead of all of us, whether we're professionals or parents, with regard to social media, and we need to get more savvy and we need to help parents to be more savvy around what children are accessing on the very dangerous phones that they're allowed to have these days."*²⁷⁰

229. Roedd Parentkind yn cytuno, ac yn dadlau bod angen addysg ar rieni ar sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gweithio. Awgrymodd y gall ysgolion chwarae rhan fawr o ran helpu

²⁶⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

²⁶⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

²⁷⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnodion y Trafodion, paragraff 130

rhieni i ddeall pa bolisiau cyfryngau cymdeithasol sydd gan ysgolion, ac mai mater o'r cartref a'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yw hyn.²⁷¹ Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno, ond rhybuddiodd nad yw'n meddwl bod hyn yn ymwneud â'r ysgol yn unig. Dywedodd fod gan yr ysgol ran i'w chwarae, ond ei bod yn meddwl bod hefyd angen edrych yn ehangach fel cymuned ar y ffordd o ymgysylltu â rhieni a'r gymuned i wella sgiliau pawb.²⁷²

230. Dywedodd Ysgol Uwchradd Fitzalan wrthym fod rhai rhieni yn gadael i'w plant gael mynediad at blatfformau cyfryngau cymdeithasol cyn iddynt gyrraedd y terfyn oedran isaf. Awgrymodd y gallai ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd helpu i fynd i'r afael â'r broblem honno.²⁷³ Roedd Dirprwy Brif Gwnstabl ac Arweinydd Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn cytuno bod pwysau gan gyfoedion yn gwrthio rhai rhieni i ganiatáu i'w plant gael mynediad at blatfformau a gemau fideo nad yw eu plant yn ddigon hen ar eu cyfer.²⁷⁴

231. I eraill, y broblem fwyaf yw nad yw rhai rhieni efallai'n teimlo'u bod yn gallu cael sgysiau anodd'gyda'u plant am aflonyddu rhywiol. Dywedodd yr NSPCC y canlynol:

*"It's also, I suppose, supporting parents about how to have these conversations with their children. As parents of teenagers, we know that it's not something that they will necessarily come to us [...] So, yes, it's about the technical aspect of what's going on online, but it's also about, I suppose, the relationship and the conversational aspect of how to bring that up with children in a safe way."*²⁷⁵

Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y canlynol wrthym:

*"they are some very difficult conversations for parents to have, and some people are just not equipped to have that. So, rather than demonising and pointing any fingers, let's look at actually what we can do to support them. Ask them what do they need. Are they comfortable in having those conversations?"*²⁷⁶

232. Nid rhieni yn unig sy'n ei chael yn anodd cychwyn y sgysiau hyn. Clywsom fod rhai plant LHDTC+ yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth ystyried troi at eu rhieni a'u teuluoedd am gymorth. Dywedodd yr NSPCC y canlynol:

²⁷¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 378

²⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 170

²⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH07 - Ysgol Uwchradd Fitzalan

²⁷⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 115

²⁷⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 368

²⁷⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 35

"a lot of the time, sometimes if they haven't come out to their peers or their family and they experience sexual harassment or abuse, then not only do they have to find words to express what they are experiencing in terms of the harassment and abuse, but then they might have to come out to the family and peers when they're not necessarily ready to do that".²⁷⁷

233. Clywsom hefyd y gallai'r ymddygiadau negyddol y mae rhai plant yn eu dangos yn yr ysgol ddod o'r hyn y maent yn ei weld gartref. Cawsom ein rhybuddio gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, os yw rhieni'n dod i'r ysgol ac yn dangos ymddygiadau eu hunain sy'n rhoi'r plentyn mewn perygl, fod yn rhaid i ysgolion gydbwysu ymgysylltu â rhieni â diogelwch y person ifanc, o bosibl drwy nodi bod efallai y bydd angen cymorth ar rieni eu hunain.²⁷⁸ Roedd Cyngor Abertawe yn cytuno, gan dynnu sylw at y ffaith mai un rôl allweddol i ysgolion yw cefnogi plant i nodi a thorri cylchoedd normaleiddio, yn enwedig lle y mae eu cartref neu ddiwylliant yn "bwydo normau annïogel".²⁷⁹

234. Cawsom ein hannog i gofio y gall dysgwyr sy'n dangos ymddygiad afiach fod yn ddioddefwyr eu hunain yn aml. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau y canlynol wrthym:

"sometimes these behaviours that youngsters display in schools are trauma informed. They are because something horrible is going on at home. And if we're not dealing with that in terms of what it is that's going on at home that is causing those problems to wash back into school in a way that is actually looking at safeguarding in the home and family, then once again we're missing a trick and we're not actually doing a good enough service for our youngsters."²⁸⁰

235. Pwysleisiodd yr NSPCC fod yn rhaid i ni drin plant a allai fod yn arddangos ymddygiad niweidiol fel plant yn bennaf oll. Dywedodd fod yn rhaid i'r plant hynny gael cymorth i newid eu hymddygiad a chymorth ynghylch unrhyw gam-drin a niwed y maent eu hunain o bosibl wedi cael profiad ohonynt, ac addysg ynghylch pam y mae aflonyddu rhywiol yn niweidiol i eraill.²⁸¹ Fe wnaeth y cynrychiolwyr plismona bwysleisio, hefyd, fod dulliau gweithredu yn ceisio osgoi troseiddoli pobl ifanc yn ddiangen.²⁸²

²⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 376

²⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 193

²⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 22 - Cyngor Abertawe

²⁸⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

²⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 382

²⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 37-38

236. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig i ni, nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol mai rhan o waith Llywodraeth Cymru i ddatblygu Ysgolion Bro yw meithrin perthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gofalmwr. Esboniodd fod "Ysgolion Bro yn gallu nodi problemau'n well ar gam cynnar a chydweithio ag eraill i roi cymorth".²⁸³

237. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym, yn sgil un o argymhellion Estyn, sef i gryfhau'r gwaith partneriaeth rhwng ysgolion a rhieni, fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at yr holl gyfarwyddwyr addysg i'w hysbysu am yr argymhelliad hwnnw. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn amlwg yn edrych ymlaen at eu cefnogi yn y gwaith hwnnw, fel sy'n briodol. Ond, yn y cyfamser, mae'n edrych ar gyfleoedd eraill ar gyfer sut y gall gefnogi ymgysylltiad â rhieni.²⁸⁴

Llywodraeth Cymru

Canllawiau, cymorth ac adnoddau i ymarferwyr, pobl ifanc a theuluoedd

238. Roedd gwaith ymchwil Estyn yn canolbwyntio ar brofiadau disgyblion, ymatebion ysgolion, a gwaith asiantaethau eraill – fel awdurdodau lleol a'r heddlu – i ategu darpariaeth yn yr ysgol. Ni archwiliodd yn fanwl ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Fodd bynnag, gwnaeth Estyn ddau argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Caiff yr argymhelliad cyntaf, ynghylch casglu data, ei drafod yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd yr ail yn canolbwyntio ar arweiniad a chymorth i ysgolion:

"Dylai Llywodraeth Cymru [...] Sicrhau bod ysgolion yn cael diweddariadau rheolaidd a llawn gwybodaeth ar arferion gorau ac adnoddau addas sydd ar gael i'w cynorthwyo i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb."

Estyn, argymhelliad 9²⁸⁵

239. Cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ni fod adroddiad Estyn yn nodi bod llawer mwy i'w wneud. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cytuno:

"for me, particularly as Minister for Social Justice of course, this is about ending violence against women and girls in Wales. And this is something

²⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

²⁸⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 95.

²⁸⁵ Estyn, "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon", Rhagfyr 2021, tudalen 11

we've laid out in our evidence paper; it's very much a cross-Government issue."²⁸⁶

240. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'n hymchwiliad, fe wnaeth Llywodraeth Cymru amlinellu'r canllawiau, y cymorth a'r adnoddau y mae wedi'u cyhoeddi i atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr, ac ymateb iddo.²⁸⁷

- Cynllun gweithredu i amddiffyn plant a phobl ifanc ar-lein.²⁸⁸
- Cymorth²⁸⁹ ac adnoddau²⁹⁰ i ymarferwyr fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gyda dysgwyr
- Cyngor i blant a phobl ifanc: problemau a phryderon ar-lein²⁹¹
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, sy'n cynnwys adran ar gam-drin ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion.²⁹² Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi datblygu offeryn archwilio diogelu i "sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i gyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â'r canllawiau [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel]".
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru²⁹³ ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, sy'n hyrwyddo arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws asiantaethau a ledled Cymru.
- Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo²⁹⁴, sy'n cynnwys gweithredoedd i atal ymddygiad rhywiol niweidiol ac ymateb iddo. Mae hyn yn cynnwys datblygu sesiwn addysgu ar-lein mynediad agored aml-asiantaeth, cyngor i ymarferwyr ar draws asiantaethau a chyngor i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc lle y mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol.

²⁸⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 5-7.

²⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

²⁸⁸ Hwb, 'Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein', a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Medi 2020

²⁸⁹ Hwb, 'Cadw'n ddiogel ar-lein'

²⁹⁰ Hwb, 'Adnoddau'

²⁹¹ Hwb, 'Cyngor i blant a phobl ifanc: problemau a phryderon ar-lein'

²⁹² Llywodraeth Cymru, 'Cadw dysgwyr yn ddiogel', tudalen 40

²⁹³ Llywodraeth Cymru, 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru'

²⁹⁴ Llywodraeth Cymru, 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol', Gorffennaf 2019

241. Gwnaeth Comisiynydd Plant Cymru sylwadau cadarnhaol am yr adnoddau Hwb yn benodol. Dywedodd y canlynol wrthym:

*"there is some really good, high-quality bilingual materials on Hwb that have been developed by the Welsh Government's digital resilience team and that we in our office think are particularly strong. They are available for parents, and there's specific information for parents on there, and that covers everything from online privacy to online sexual harassment to sharing nudes and semi-nudes, and what happens with that, and sexting and online relationships. So, there are some really good-quality materials for parents."*²⁹⁵

242. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu cryn dipyn o adnoddau ar-lein dros gyfnod o amser, neu wedi bod yn eu hadnewyddu. Dywedodd y canlynol fod peth ohono ar gyfer staff addysgu ar Hwb a bod peth ohono ar gyfer dysgwyr eu hunain, gan ei ddylunio gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabu:

*"in terms of the training for staff, I do think there is the need for more of this. [...] But from a professional learning point of view, we invest vast amounts of funds in the development of professional learning [...] and we are looking at what resources and professional learning is required for staff, and what training modules are required for staff, to give them the confidence to be alert to issues of sexual harassment in school and to feel that they are using the right language, saying the right things and hearing what they're being told in the right way. It must be really challenging, I think, if, obviously, you want to do the right thing, but you haven't necessarily had familiarity with that."*²⁹⁶

Sicrhau bod polisi Llywodraeth Cymru yn cael ei roi ar waith yn effeithiol

243. Er gwaethaf yr ystod o adnoddau sydd ar gael i rieni, ymarferwyr ac eraill, mae'n amlwg o adroddiad Estyn bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn parhau i fod yn beth cyffredin mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthym am ei declyn olrhain hawliau dynol, sy'n cynnwys asesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru ar aflonyddu a bwlio mewn ysgolion:

"Currently the Commission has allocated a progress assessment of "limited progress" meaning there have been legal or policy changes to improve

²⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 362

²⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 47

human rights protections but very limited evidence of substantial improvements in the enjoyment of human rights on this issue."²⁹⁷

244. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym fod angen gorfodaeth er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo y gallant godi pryderon, bod rhywun yn gwrandio arnynt ac y bydd newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad. Nododd y dylai'r diwylliant hwn o gyfranogiad a gwrandio ddigwydd o fewn lleoliadau, ond y dylai hefyd fod yn rhan o waith arolygu a gwella ysgolion ar lefel lleoliad, lefel ranbarthol a lefel genedlaethol.²⁹⁸ Amlinellodd ei chynigion i ni:

*"[...] at a national level, we would recommend that the Government supports and develops an expert network that would include representatives from the consortia, Estyn, Public Health Wales and the voluntary sector, people who collect data, like the school health research network and the school police liaison officers' network, to really make sure that we are constantly giving schools high-quality advice, receiving feedback on how well guidance is working, and continuing to develop it, because this is a new and expanding area of work for schools."*²⁹⁹

245. I gynrychiolwyr arweinwyr ysgol, mae ariannu yn her allweddol o ran gweithredu:

*"I think if we are—. If you're asking the question to NAHT members, 'What can Welsh Government do in this space?', I would say, fundamentally, we need to look at the issues of school funding and how schools are funded, the inequity across local authority areas, and we need to get under the skin of that."*³⁰⁰

Y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

246. Yn 2015, pasiodd y Senedd Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. O dan y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol sy'n cynnwys amcanion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

247. Eglurodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthym fod Llywodraeth Cymru eisoes eisiau ehangu'r strategaeth honno cyn adroddiad Estyn, ac yn ystyried ac yn bwriadu gwneud hynny, cyn i Everyone's Invited gael ei lansio. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod

²⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH11 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

²⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 7

²⁹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 401

³⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 92

bod angen edrych ar ddiogelwch menywod a merched y tu allan i'r cartref ac yn y gweithle, yn ogystal ag yn y cartref.³⁰¹ Dywedodd y dystiolaeth ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol:

"Nid mater o ofyn i fenywod addasu eu hymddygiad yw hyn, ond o ddisgwyl i gamdrinwyr newid eu hymddygiad nhw. Dyna pam mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i atgyfnerthu'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal ag yn y cartref er mwyn sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw."

Aeth y papur ymlaen i nodi bod y Cabinet wedi "cadarnhau ei fod yn cefnogi'r Strategaeth a byddwn yn mabwysiadu dull trawslywodraethol i sicrhau ei llwyddiant".³⁰²

248. Ar y cyfan, clywsom fod Deddf 2015, a'r gwaith sy'n deillio o'r Ddeddf honno, yn gadarnhaol o ran mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr, sy'n ymwneud yn bennaf â rhywedd: Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol wrthym:

*"So, we've got the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015, haven't we? So, that specifically looks at the gendered nature of violence against women [...] A high number of these incidents are gender related, and we've got to look at that in schools, and I think if the Welsh Government is able to provide resources for that—. I've seen some resources from the Welsh Government on online sexual harassment, but I think it's really important that it's not all just online."*³⁰³

249. Mae cynrychiolwyr yr heddlu yn nodi'r gwaith y maent yn ei wneud mewn perthynas â'r Ddeddf, gan gynnwys gwaith a wneir mewn partneriaeth ag asiantaethau fel y gwasanaeth ieuencid ac awdurdodau unedol.³⁰⁴ Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a'r Arweinydd Plismona yng Nghymru wrthym fod cyfle gwirioneddol i gyflymu graddfa a chyflymder y newid mewn perthynas â'r maes hwn, yn enwedig drwy strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dywedodd

³⁰¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 26

³⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

³⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 181

³⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 120

eu bod yn gwneud llawer o waith ar y cyd â Llywodraeth Cymru i lunio'r strategaeth newydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar atal.³⁰⁵

250. Er gwaethaf y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr heddlu ac eraill, mae adroddiad Estyn a'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed yn awgrymu bod aflonyddu rhywiol ar sail rhywedd yn gyffredin ar draws ysgolion yng Nghymru. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog Gyfiawnder Cymdeithasol a oedd hi'n teimlo bod ysgolion yn lleoedd diogel i ferched a phlant a phobl ifanc LHDTTC+. Ymatebodd y Gweinidog:

*"I think, possibly, the responses to this inquiry will show our commitment as a Government to making that change, because at the moment, as a result of Everyone's Invited and the Estyn report, we know that violence against girls and harassment is far too common, and this is a problem for society."*³⁰⁶

251. Ar 24 Mai 2022, yn fuan ar ôl ein sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hail Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn gwneud rhai cyfeiriadau cyfyngedig at aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion a cholegau. Mae'n cydnabod y gall trais yn erbyn menywod ddigwydd mewn sefydliadau addysgol, ac mae'n dadlau y bydd gan y maes addysg, drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd, ran allweddol i'w chwarae o ran cyfathrebu'r cysyniad o berthnasoedd iach. Mae'n disgrifio uchelgeisiau Llywodraeth Cymru fel rhai 'hirdymor', ac yn cyfeirio at weithredu'r cwricwlwm newydd ac, o'i fewn, y cod a'r canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd, fel mesurau i atal trais yn erbyn merched a menywod.³⁰⁷ (Rydym yn ystyried y cwricwlwm newydd ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ym mhennod olaf yr adroddiad hwn.)

Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb eraill

252. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, fe wnaethom ni nodi beth yw effaith benodol aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar wahanol grwpiau o blant. Ochr yn ochr â'r strategaethau cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau â ffocws penodol i fynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu yn erbyn y gymuned LHDTTC+ a phobl anabl. Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

³⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 122

³⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 41

³⁰⁷ Llywodraeth Cymru, 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026', 24 Mai 2022

wrthym fod y cynlluniau hyn yn berthnasol i'w gwaith o fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr:

*"at this point in time, we have our particular focused plans that we're taking forward in terms of the anti-racist plan, the draft LGBTQ+ action plan, the disability rights action plan, and at every step of the way recognising the intersectionality issues there, and becoming more and more powerful and more acknowledged. And this is absolutely crucial in terms of how we take forward the new strategy for VAWDASV [...] I think we're positioned in the right place in terms of understanding how this all has to interact in terms of an intersectional approach to tackling inequalities in terms of those issues."*³⁰⁸

253. Ym mis Gorffennaf 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau traws cenedlaethol statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.³⁰⁹ Nid yw'r canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru wrthym ei bod yn dal i aros am ganllawiau LHDTC+ gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn dadlau, fel 'mater Cymru gyfan', na fyddai'n briodol llunio'r canllawiau ar sail ranbarthol.³¹⁰

254. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidogion pryd y byddai'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym:

*"It's obviously a very complex piece of work, and it raises a number of issues that need to be addressed sensitively as part of that whole-school approach in order for it to be effective. But it is definitely a gap that needs to be addressed as soon as possible, and I would be disappointed, I think, if it wasn't substantially complete by the end of this year."*³¹¹

255. Ychwanegodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer y cynllun gweithredu LHDTC+ y llynedd. Esboniodd fod y gwaith yn cael ei arwain gan Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol:

"a huge amount of work [is] going on as a result of receiving the consultation responses. They're being actually analysed independently. But, as the Minister has said, this is about the commitments in that plan to provide

³⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 29.

³⁰⁹ Llywodraeth Cymru, 'Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru', tudalen 16

³¹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 180

³¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 34.

comprehensive, strategic, and in terms of the professional learning and training, in designing a fully LGBTQ+ inclusive curriculum."³¹²

256. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ddiweddariad yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mehefin 2022, pan ddywedodd mai nod Llywodraeth Cymru oedd cyhoeddi fersiwn derfynol y cynllun gweithredu LHDTC+ yr hydref hwn.³¹³

'Cynllun gweithredu aml-asiantaeth' i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

257. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn defnyddio canfyddiadau adroddiad Estyn i lywio ei 'hymateb trawslywodraethol' i'r mater o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Dywedodd y bydd hyn yn cynnwys 'cynllun gweithredu amlasiantaethol' i nodi camau gweithredu presennol ac arfaethedig yn erbyn themâu allweddol a nodwyd, yn gysylltiedig â chynlluniau gweithredu perthnasol eraill Llywodraeth Cymru fel atal cam-drin plant, cynyddu cadernid digidol mewn addysg, a'r strategaeth trais yn erbyn menywod.³¹⁴ Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym y byddai'r cynllun gweithredu yn defnyddio'r un diffiniad o aflonyddu rhywiol ag adroddiad Estyn.³¹⁵

Ein barn ni

Gwella ymateb ysgolion a cholegau i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

258. Mae ysgolion yn amlwg yn cael trafferth ymateb i aflonyddu rhywiol ymhlith eu disgyblion. Mae aflonyddu yn digwydd yn bennaf ar-lein a thu allan i oriau ysgol, sy'n amlwg yn achosi heriau sylweddol i staff ac arweinwyr ysgolion. Nid oes modd iddynt fod yn gyfrifol am ymddygiad pobl ifanc bob awr o bob dydd.

259. Fodd bynnag, mae'n amlwg, i ni, fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, pryd bynnag a lle bynnag y mae'n digwydd, yn cael effaith uniongyrchol ar ddysgu a llesiant dysgwyr yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'n treiddio drwy ddiwylliant yr ysgol, gan effeithio ar fywydau mwyafrif sylweddol o ddysgwyr. Nid bai ysgolion yn bennaf yw bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mor gyffredin. Ond rydym yn credu bod gan bobl ifanc yr hawl i fynychu ysgolion sy'n cynnig addysg rhyw effeithiol a chynhwysol sy'n addysgu pobl ifanc am berthnasoedd rhywiol cadarnhaol, yn gweithredu polisiau effeithiol i ymateb i aflonyddu rhywiol pan fo'n digwydd, ac sydd â staff sy'n ymateb i aflonyddu rhywiol yn gyson ac yn hyderus yn unol â'r polisiau hynny.

³¹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 37.

³¹³ Y Cyfarfod Llawn, 21/06/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 165.

³¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

³¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 14.

260. Credwn mai cam cynnar hollbwysig y mae'n rhaid i ysgolion a cholegau ei gymryd yw dadnormaleiddio ymddygiad rhywiol afiach. Rhaid gwreiddio, yn niwylliant pob ysgol neu goleg, fod aflonyddu rhywiol, yn ei holl ffurfiau, yn annerbyniol. Rhaid cymryd adroddiadau o aflonyddu rhywiol gan bobl ifanc o ddifrif bob amser ac ymateb yn briodol iddynt.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion a cholegau yn creu diwylliant lle y mae aflonyddu rhywiol yn annerbyniol, bod adroddiadau o aflonyddu rhywiol yn cael eu cymryd o ddifrif, a bod yr ymateb iddynt yn brydlon a chyson.

261. Rydym yn annog Estyn i gynnal ffocws hirdymor ysgolion a cholegau ar fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Yn ogystal ag ystyried sut mae ysgolion yn cofnodi ac yn dadansoddi achosion o aflonyddu rhywiol o safbwynt data, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dylai Estyn hefyd gynnwys ffocws penodol yn ei fframwaith arolygu arferol ar sut mae ysgolion yn ymateb i ddisgyblion sy'n adrodd am aflonyddu rhywiol neu'n ei brodi, ac yn eu cefnogi, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag ymddygiad unigolion sydd wedi cyflawni'r aflonyddu rhywiol.

Argymhelliad 12. Mae'n rhaid i Estyn gynnwys ystyriaeth benodol yn ei fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau arferol o ysgolion o'r modd y mae ysgolion a cholegau yn ymateb i ddysgwyr sydd wedi adrodd am aflonyddu rhywiol neu wedi'i brofi, ac yn eu cefnogi, ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad unigolion sydd wedi cyflawni'r aflonyddu rhywiol. Rhaid i ddull o'r fath beidio â chosbi nac adlewyrchu'n wael ar ysgolion dim ond oherwydd bod ganddynt achosion o aflonyddu rhywiol, ond yn hytrach ganolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn ymdrin ag achosion ac yn cefnogi disgyblion.

262. Rydym yn cydnabod nad yw llawer o staff ysgolion yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i allu ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn hyderus ac yn effeithiol. Rydym yn deall nad yw'n hawdd i staff gael sgysiau â phobl ifanc am rai o'r ymddygiadau rhywiol afiach sydd mor gyffredin ar draws ysgolion. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu gan bobl ifanc, a ddywedodd wrthym fod pobl ifanc yn troi at aelodau staff y maent yn ymddiried ynddynt ac y mae ganddynt berthynas dda â nhw i siarad am aflonyddu rhywiol. Efallai bod y person hwnnw yn rhywun sydd â rôl fugeiliol ddynodedig yn yr ysgol honno neu beidio. Rydym yn cytuno felly bod angen i holl staff yr ysgol, nid dim ond athrawon a'r rhai sydd â rôl fugeiliol benodedig, gael eu hyfforddi ar sut i adnabod achosion o aflonyddu rhywiol ymhlith eu dysgwyr ac ymateb iddynt.

263. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a glywsom am effaith ariannol hyfforddiant a threfniadau cyflenwi ar gyfer athrawon sy'n dilyn hyfforddiant, nid ydym yn teimlo ei bod yn rhesymol disgwyl i ysgolion dalu am yr hyfforddiant a'r trefniadau cyflenwi o'u cyllidebau eu hunain. Mae

angen cymorth Llywodraeth Cymru arnynt er mwyn sicrhau bod y gweithlu ysgolion yn cael hyfforddiant digonol.

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gael i ysgolion er mwyn i bob aelod o staff ysgol gael hyfforddiant ar adnabod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ymateb iddo ac adrodd arno. Dylai'r cyllid hwnnw gynnwys darpariaeth i ysgolion wneud trefniadau cyflenwi ar gyfer athrawon sy'n cael eu tynnu allan o'r dosbarth, os oes angen.

264. Cawsom ein taro gan beth o'r dystiolaeth a gawsom a oedd yn nodi, er bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn gyffredin mewn colegau, bod sefydliadau addysg bellach yn ymateb iddo'n effeithiol ac yn gadarn. Rydym yn gobeithio bod hyn yn wir, ac y bydd y dystiolaeth a glywsom yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adolygiad sydd ar y gweill i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn colegau. Fodd bynnag, o ystyried pa mor fawr yw'r heriau sy'n wynebu ysgolion uwchradd, rydym yn ofni nad yw gwir faint ac effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar draws colegau yn cael eu llwyr werthfawrogi ychwaith.

265. Clywsom yn ystod yr ymchwiliad hwn fod addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion yn gyffredinol wael. Clywsom hefyd – yn enwedig gan bobl ifanc eu hunain – fod addysgu pobl ifanc am gydsyniad a pherthnasoedd rhywiol iach yn ffordd bwysig o newid diwylliannau ysgol er gwell. Mae galw mawr ymhlith pobl ifanc am addysg rhyw a pherthnasoedd o ansawdd uchel ac am fannau diogel i rannu eu profiadau a chael cyngor a chymorth.

266. Rydym wedi ymgysylltu ag academyddion a gweithwyr proffesiynol drwy gydol yr ymchwiliad hwn – fel yr Athro Renold, yr Athro GJ Melendez-Torres, Dr Honor Young a'u cydweithwyr³¹⁶ – a gall eu dadansoddiad a'u harbenigedd wella addysg rhyw a pherthnasoedd ac ymyriadau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn rhanddeiliaid ac academyddion perthnasol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu, oherwydd bod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol, na fydd disgyblion sydd yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd (carfan Blwyddyn 7 2021/22 ac yn uwch) yn elwa yn sgil cryfhau'r ddarpariaeth ACRh newydd.

³¹⁶ Cyn bo hir, bydd tîm ymchwil dan arweiniad yr Athro GJ Melendez-Torres yn cyhoeddi ei adroddiad ar ymyriadau yn yr ysgol i atal trais yn ymwneud â chanlyn a pherthnasoedd a thrais ar sail rhywedd. Rydym yn ddiolchgar i'r Athro Melendez-Torres ac i Dr Young am eu hamser yn ein briffio ar ganfyddiadau allweddol eu gwaith ymchwil. Gweler: Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal, '[School-based interventions TO Prevent dating and relationship violence and gender-based violence \(STOP-DRV-GBV\): systematic review to understand characteristics, mechanisms, implementation and effectiveness](#)'.

267. Rydym felly'n annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag academyddion ochr yn ochr â phobl ifanc eu hunain, i adeiladu ar arfer da ledled Cymru a'i rannu er budd y disgyblion hynny na fyddant yn cael eu haddysgu dan y cwricwlwm newydd.

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr ag Estyn, academyddion perthnasol, a'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2) i gasglu a choladu enghreifftiau o addysg rhyw a pherthnasoedd y mae dysgwyr yn eu hystyried yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, gyda'r bwriad o creu cronfa o adnoddau ar gyfer ysgolion a cholegau i hwyluso rhannu arfer da ledled Cymru. Lle y bo'n briodol ac yn bosibl, rhaid i'r rhain, ochr yn ochr â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, lywio darpariaeth addysg rhyw a pherthnasoedd i ddysgwyr hŷn nad yw eu grwpiau blwyddyn yn dod dan y Cwricwlwm i Gymru.

Dulliau ysgolion o reoli ffonau symudol

268. Rydym yn nodi bod gwahaniaeth barn ar sut y dylai ysgolion reoli'r defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol. Rydym hefyd yn cydnabod canfyddiad Estyn bod y rhan fwyaf o aflonyddu rhywiol yn digwydd ar-lein a thu allan i oriau ysgol, nad yw'n cael ei effeithio gan ddulliau ysgolion o reoli ffonau yn ystod y diwrnod ysgol. Serch hynny, mae peth aflonyddu rhywiol *yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol, a dylai unrhyw gamau a allai leihau'r aflonyddu hwnnw* gael eu cymryd gan ysgolion. Felly, rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom gan yr undebau llafur, beth bynnag fo union safbwynt pob ysgol ar ddefnyddio ffonau symudol, y dylai fod ganddynt bolisiau clir, sy'n cael eu gorfodi'n dda, y mae dysgwyr, rhieni a staff yn eu deall yn dda. Rydym yn deall mai dyna sy'n wir yn y rhan fwyaf o ysgolion. Serch hynny, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ysgrifennu at ysgolion i sicrhau mai dyna sy'n digwydd.

Argymhelliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol a/neu ysgolion i sicrhau bod gan ysgolion bolisiau clir ar ddefnydd derbyniol gan ddysgwyr o ffonau symudol drwy gydol y diwrnod ysgol, bod y polisiau hynny'n cael eu cyfathrebu'n dda i ddysgwyr, staff a rhieni, a'u bod yn cael eu gorfodi'n gyson gan staff yr ysgol.

Ysgolion cymunedol a gweithio gyda'r heddlu, awdurdodau lleol, elusennau ac eraill

269. Cawsom sicrwydd gan y dystiolaeth a glywsom gan Estyn, rhai ysgolion a phobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg, bod gwaith yr heddlu mewn ysgolion ledled Cymru yn effeithiol ac yn gefnogol o ran ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'i atal.

270. Fodd bynnag, roedd ein gwaith casglu tystiolaeth hefyd yn rhoi rheswm i gredu y gall gwaith yr heddluoedd mewn ysgolion fod yn anghyson. Rydym yn annog heddluoedd Cymru i sicrhau bod swyddogion sy'n gweithio mewn ysgolion wedi'u hyfforddi'n dda a'u bod yn

mabwysiadu dull cyson a chydgyssylltiedig gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion ac eraill o ran eu gwaith i atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

271. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i rannu gyda ni ganfyddiadau adolygiad 2019 o raglen yr heddlu mewn ysgolion. Mae pob rhaglen yn elwa ar werthuso rheolaidd, hyd yn oed rhai llwyddiannus, ac rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad y Gweinidog i hunanwerthuso agored a gonest. Yn anffodus, wrth ysgrifennu hyn, nid ydym wedi cael yr adolygiad hwnnw o hyd. Er budd tryloywder ac i gydnabod manteision hunanwerthuso, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, yn unol ag ymrwymiad y Gweinidog ar 4 Mai 2022.

Argymhelliad 16. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau adolygiad 2019 a gynhaliwyd i raglen yr heddlu mewn ysgolion Cymru.

272. Roeddem yn argyhoeddedig o fanteision ysgolion a cholegau yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, elusennau a sefydliadau eraill i ddod â dimensiwn ychwanegol, ac arbenigedd ychwanegol, i'w deialog parhaus gyda dysgwyr am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Fodd bynnag, clywsom yn ystod yr ymchwiliad hwn yr hyn yr ydym eisoes yn ei wybod o waith yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau ein hunain: mae capasiti'r trydydd sector yn aml dan bwysau mawr, ac mae rhai elusennau'n cael trafferth cyrraedd pob rhan o Gymru. Rydym felly'n annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i greu a chynnal cronfa ddata o wasanaethau cymorth y trydydd sector y gall ysgolion gael mynediad atynt i'w helpu i ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i greu a chynnal cronfeydd data o sefydliadau y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ysgolion a cholegau a allai eu cynorthwyo yn eu hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Rhieni a theuluoedd

273. Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn bwnc arbennig o anodd i rieni a theuluoedd siarad amdano â phobl ifanc. Mae'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol ac ymddygiad rhywiol, ac nid yw'n hawdd siarad am hyn. Mae hefyd yn ymwneud â pherthnasoedd rhwng cyfoedion, y mae llawer o bobl ifanc yn hoffi eu cadw'n breifat. Ac mae'n digwydd yn bennaf ar-lein, ar y cyfryngau cymdeithasol a phlatformau gemau, nad yw llawer o rieni yn eu defnyddio nac yn eu deall yn llawn. Felly rydym yn cydymdeimlo â rhieni, ac yn deall nad yw chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn beth hawdd.

274. Fodd bynnag, mae gan rieni rôl hanfodol i'w chwarae o ran lleihau mynychder ac effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae angen eu cefnogi i gael y sgysiau anodd hynny

gyda'u plant, ac i gymryd camau – lle y bo angen – i leihau cyswllt eu plant â chynnwys ar-lein sy'n amhriodol neu a allai fod yn niweidiol. Mae angen i rieni ddeall effaith aflonyddu rhywiol ar bobl ifanc, a bod yn barod i siarad â'u plant am effeithiau eu hymddygiad ar eraill, os oes angen. Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi rhieni yn hyn o beth, a gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc i wneud hynny, fel bod rhieni'n cael yr offer a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â'r materion hollbwysig hyn gyda'u plant.

Argymhelliad 18. Fel rhan o'i gwaith ehangach i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion, rhaid i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal ymgyrch i codi ymwybyddiaeth sy'n targedu rhieni a theuluoedd er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan gynnwys sut a phryd y caiff ei gyflawni ac effaith aflonyddu rhywiol ar bobl ifanc;
- helpu rhieni a theuluoedd i siarad â'u plant a'u cefnogi, gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol gan eu plant, os oes angen; a
- gwella dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn cael mynediad at gynnwys/platfformau ar-lein amhriodol, y cyfyngiadau oedran sy'n gysylltiedig â'r platfformau hynny, a pha gamau y gall rhieni eu cymryd i gyfyngu ar fynediad ar-lein eu plant.

Llywodraeth Cymru

275. Clywsom adborth cadarnhaol am yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u llunio ar gyfer ysgolion, dysgwyr a rhieni mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr. Rydym yn gobeithio bod pobl yn gwybod ble mae'r adnoddau hynny, eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth, ac y cânt eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

276. Rydym hefyd wedi cael sicrwydd bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi ymgysylltu mor llawn â'n hymchwiliad. Rydym yn ddiolchgar am eu tystiolaeth ysgrifenedig gynhwysfawr ac am ymddangos ar y cyd ger ein bron i drafod y materion pwysig hyn yn fanylach. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd y cam i gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn colegau, ac rydym yn credu – fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn – y bydd hwn yn ymarfer gwerthfawr. Ar y cyfan, rydym wedi'n hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn cymryd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o ddifrif.

277. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig o glywed nad yw'r canllawiau traws cenedlaethol statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'u cyhoeddi, er i ni gael addewid ym mis Gorffennaf 2021. Mae angen y canllawiau hyn ar awdurdodau lleol ac ysgolion i'w helpu i gefnogi disgyblion traws: rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllawiau hynny ar fyrder.

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau traws cenedlaethol statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol erbyn Ionawr 2023 fan bellaf.

278. Roeddem hefyd yn siomedig nad yw'r strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ddiwygiedig yn cyfeirio o gwbl at aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn cyd-destun addysgol. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, merched a menywod ifanc yw'r rhan fwyaf o ddioddefwyr aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. O ystyried bod ysgolion yn safleoedd effeithiol ar gyfer ymyriadau cynnar i fynd i'r afael ag ymddygiad problemus ac yn adlewyrchu tueddiadau cymdeithasol ehangach, cawsom ein synnu nad yw'r strategaeth ddiwygiedig yn cydnabod effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddiogelwch dysgwyr benywaidd nac yn nodi camau gweithredu i'w cymryd yn y cyd-destun hwn. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i unioni'r hepgoriad hwn cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 20. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydnabod effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddiogelwch a llesiant dysgwyr benywaidd, a bod yn rhaid cynnwys gwaith i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysgol ac o'u cwrmpas mewn unrhyw ffrwd waith yn y dyfodol sy'n deillio o'r strategaeth honno.

279. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol bod gwaith i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer cynllun gweithredu LHDTC+ yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r cynllun gweithredu yr hydref hwn. Rydym yn gobeithio bod y cynllun yn cydnabod bod llawer o ddysgwyr LHDTC+ yn profi aflonyddu rhywiol, yn aml fel gorchudd ar gyfer homoffobia a thrawsffobia, ac yn cefnogi ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill i fynd i'r afael â'r aflonyddu hwnnw.

Argymhelliad 21. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cynllun gweithredu LHDTC+ erbyn hydref 2022 fan bellaf. Rhaid i'r cynllun gweithredu gydnabod maint ac effaith y broblem aflonyddu rhywiol ar ddysgwyr LHDTC+, a nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion ac eraill i fynd i'r afael â hi.

280. Roedd yn ddiddorol i ni glywed bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynllun gweithredu aml-asiantaeth i nodi sut y mae'n mynd i'r afael â phroblem aflonyddu rhwng

cyfoedion ymhlith dysgwyr, mewn perthynas â chynlluniau gweithredu perthnasol eraill. Rydym yn edrych ymlaen at weld y cynllun gweithredu ac yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn gyflym, gan sicrhau dull trawslywodraethol ac amlasiantaethol sy'n ystyried y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo.

Argymhelliad 22. Rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen yn gyflym â'i gwaith i gyhoeddi cynllun gweithredu amlasiantaethol i fynd i'r afael â phroblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, wedi'i lywio gan adroddiad Estyn ac yn unol â gwaith perthnasol arall sy'n mynd rhagddo ar draws y llywodraeth.

8. Y cyd-destun ehangach

Clywsom fod gan y Cwricwlwm newydd i Gymru y potensial i wella ymateb ysgolion i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn sylweddol, ond rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi ysgolion i oresgyn heriau sylweddol os yw'r potensial hwnnw i'w wireddu. Ar lefel y DU, roedd cefnogaeth eang i'r Bil Diogelwch Ar-lein diwygiedig, sy'n bwriadu ei gwneud yn anoddach i blant gael mynediad at gynnwys rhywiol amhriodol ar-lein.

Y cwricwlwm newydd

Cyfleoedd i atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

281. Sefydlwyd y Cwricwlwm newydd i Gymru o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm newydd, gan ddisodli'r addysg rhyw a pherthnasoedd sydd yn y cwricwlwm presennol. Bydd ACRh yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i blant rhwng 3 ac 16 oed. Drwy ACRh, bydd dysgwyr yn dysgu am gysyniad eang o rywioldeb a'r hyn sy'n gyfystyr â pherthynas rywiol iach.

282. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i ni, eglurodd Llywodraeth Cymru:

*"Bydd y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a fydd yn gwella ffocws y cwricwlwm newydd ar iechyd a lles dysgwyr. Mae hyn yn rhan arloesol o'r cwricwlwm newydd a'i nod yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael addysg a chymorth mewn perthynas â materion fel lles corfforol, emosiynol a meddyliol."*³¹⁷

283. Eglurodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y bydd yr ACRh newydd yn cael ei haddysgu'n wahanol iawn i'r addysg rhyw a pherthnasoedd bresennol. Yn hytrach na bod addysg rhyw ac

³¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

addysg bersonol a chymdeithasol yn rhywbeth ychwanegol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y bwriad yw i ACRh fod yn rhan gyfannol ac annatod o'r cwricwlwm cyfan.³¹⁸

284. Ni fydd rhieni yn gallu optio'u plant allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb dan y cwricwlwm newydd. Bydd yn cael ei rhoi ar waith mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir, a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022 a'i chyflwyno mewn ysgolion uwchradd dros y blynyddoedd dilynol. Nododd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn: "O fewn canllawiau statudol newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n amlwg y dylai'r dull gweithredu mewn perthynas ag ACRh fod yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut y gallai fod angen i ddysgwyr gael eu cefnogi i wybod sut i gydnabod pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, yn cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mae dolen wedi'i chynnwys sy'n arwain at becyn cymorth o adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau ar y mater pwysig hwn".³¹⁹

285. Cafodd potensial y cwricwlwm newydd i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ei grybwyll droeon yn y dystiolaeth a gawsom.

286. Dywedodd Estyn wrthym am bwysigrwydd y ddealltwriaeth a'r wybodaeth honno sy'n briodol i oedran:

"the kind of mandatory relationship and sex education that's in the new curriculum, and the increased focus on health and well-being generally".³²⁰

Roedd yr Athro Renold yn cytuno, gan annog Llywodraeth Cymru i osgoi cael rhaglen ynysig arall, fel 'canllawiau sy'n mynd i ddim unman'. Ychwanegodd y canlynol:

"the new RSE for Wales is absolutely the most conducive place to do this work. It's a whole-school approach; that's a fundamental principle. It's affirmative, it talks about positive prevention and change. That gets you thinking about not going in there through risk, but going in there through rights and empowering ways of learning in how to do this."³²¹

Roedd yr Undeb Addysg Cenedlaethol, gan awgrymu bod arweiniad a map bellach er mwyn symud oddi wrth y model o addysgu am fecaneg rhyw yn unig i'r hyn y dylai natur perthynas

³¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 92

³¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 -- Llywodraeth Cymru

³²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/02/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

³²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 346

fod, gyda phob un o'r materion hyn yn ymwneud â rhywioldeb hefyd. Dywedodd ei fod yn credu ein bod ar drothwy cyfnod cyffrous iawn yn hynny o beth.³²²

287. Clywsom, hefyd, fod gan ACRh dan y cwricwlwm newydd y potensial i wella addysg am berthnasod a materion sy'n berthnasol i ddisgyblion LHDTC+. Dywedodd Stonewall Cymru y canlynol wrthym:

*"dwi'n meddwl gallwn ni ddim tanbrizio pwysigrwydd y cwricwlwm newydd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem dyn ni wedi sôn amdani heddiw. Dyn ni'n ymwybodol bod yna ddeddfwriaeth, ddegawdau yn ôl bellach, wedi cael ei chyflwyno er mwyn nadu sôn am hunaniaethau LHDTC+ oddi mewn ein hysgolion ni. Ond dyma'r cyfle perffaith i ddadwneud y drwg hynny."*³²³

288. Roedd yr Undeb Addysg Cenedlaethol yn argymhell chwilio am gyfleoedd o fewn y cwricwlwm newydd i sicrhau bod y syniadau hynny o gydsyniad, gwahaniaethu ar sail rhyw ac aflonyddu rhywiol yn cael eu haddysgu ochr yn ochr â chroestoriadedd rhwng rhywedd neu bobl LHDTC+, neu unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill.³²⁴

289. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn golygu na fydd unrhyw blant sydd ym mlwyddyn 7 neu uwch yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-22 yn cael eu haddysgu dan y cwricwlwm newydd. Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n cael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022. Bydd bron hanner o ysgolion uwchradd cymryd yr opsiwn i'w gyflwyno ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi 2022 cyn i'r cwricwlwm ddod yn statudol ym mis Medi 2023 ar gyfer Blwyddyn 7 ac 8. Yna caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno i bob grŵp blwyddyn ychwanegol hyd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

290. Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol iawn na fyddai llawer o blant sydd mewn addysg uwchradd ar hyn o bryd yn elwa ar y cwricwlwm newydd. Dywedodd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau wrthym, er bod y datblygiadau yn y cwricwlwm ysgol i'w croesawu, y bydd yn cymryd ychydig o amser i fwydo trwodd. Dywedodd, felly, er y gallwn efallai ddibynnu ar newidiadau cadarnhaol yn y dyfodol, ei fod yn meddwl y dylid parhau i ddatblygu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer ysgolion a cholegau yn y cyfamser.³²⁵ Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn cytuno, ac yn ein hannog i beidio ag anghofio'r plant na fyddant yn elwa ar y diwygiadau i'r cwricwlwm.³²⁶ Roedd Parents' Voices in Wales yn dadlau:

³²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 184-185.

³²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 285.

³²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 159.

³²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 318.

³²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 411.

"Although the new curriculum for Wales RSE will be an important part of this prevention, we need earlier action because children and young people's safety will be compromised during the time duration of the roll out of the CfW across the school years [...] A national campaign would be helpful in the meantime [...]"³²⁷

291. Nododd ColegauCymru na fydd y cwricwlwm newydd yn effeithio ar addysg bellach, felly bydd angen i golegau wneud eu gwaith eu hunain i addysgu dysgwyr am berthnasoddd rhywiol iach:

"Support strategies need to be focused towards friendship and relationship boundaries, robust education sexual health programmes and education, information and managed debate about what constitutes a healthy relationship. This needs to take place in post-16 settings rather than simply being seen in the context of the new Curriculum for Wales in compulsory education and waiting for more positive behaviours and attitudes to filter through."³²⁸

292. Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i'r Pwyllgor:

"Mae ein fframwaith newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a ddaw'n weithredol o fis Medi, wedi'i ddatblygu i gynnwys pob dysgwr ac mae'n cynnwys Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant wrth wraidd y Cod ac mae wedi'i gynllunio i roi sgiliau bywyd i ddysgwyr, yn cynnwys dealltwriaeth o ymddygiadau ar gamau priodol o ran eu datblygiad, yn cynnwys pob math o fwlio, a bwlio ar sail LHDTC+, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys ar-lein."³²⁹

293. Fodd bynnag, roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn rhybuddio bod angen bod yn bwylllog. Roedd yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyflwyno'r cwricwlwm newydd,³³⁰ a phwysleisiodd bwysigrwydd amgylchedd cadarnhaol yn yr ysgol gyfan:

"I don't want to suggest the new curriculum is a solution to all of the challenges that we face here, obviously, although it's a very important

³²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH10 - Ceri Reed, Cyfarwyddwr, Parents Voices in Wales CIC

³²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 - ColegauCymru, paragraff 6.6

³²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

³³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 85-86

contributor. [...] But, obviously, it's not enough for us to be teaching positive RSE, if you like, in the classroom, if the overall school environment isn't also reflective of those values, really. So, that whole-school approach, which we've touched on a little bit, I think is really important."³³¹

Heriau gweithredu

294. Ochr yn ochr â'r potensial i'r cwricwlwm newydd wella'r ffordd y caiff addysg rhyw a pherthnasodd ei haddysgu ac, ynghyd â hyn, y gwaith i atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, clywsom hefyd ofid y bydd y broses uchelgeisiol o gyflwyno ACRh yn methu heb fuddsoddiad a hyfforddiant priodol. Mae hyn yn cyd-fynd â phryderon a fynegwyd ynghylch gweithredu'r cwricwlwm newydd yn gyffredinol, yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgorau a'n rhagflaenodd ar Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.³³²

295. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

*"Mae angen dysgu proffesiynol helaeth a manwl ar draws y sector addysg cyfan i gyflawni'r newid pwysig sy'n ofynnol yn nyluniad y cwricwlwm ac addysgeg ar lefel lleoliadau. Heb hynny, ni all Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, ac ni chyflawnir y dyheadau a adlewyrchir yn Neddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a'r Côd a'r Canllawiau eu hunain."*³³³

296. Roedd Plan UK yn cytuno. Dywedodd wrthym fod hwn yn gyfle gwirioneddol i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth honno'n gynhwysfawr, yn gyfannol, yn rymusol ac yn gynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc. Fodd bynnag, rhybuddiodd fel a ganlyn:

*"[...] training is absolutely crucial to get this right, and when we're thinking about training, not just making sure that teachers understand the very complex and sensitive issues that are covered in the curriculum, but also the 'how'—so, the pedagogy, thinking about those skills-based approaches, participatory approaches that are really going to make this subject engaging and inclusive."*³³⁴

³³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 46.

³³² Senedd Cymru, 'Rhaid sicrhau cysondeb ledled Cymru wrth gyflwyno'r 'Cwricwlwm i Gymru', 4 Rhagfyr 2020.

³³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 3.

³³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 451.

297. Gwnaeth Brook ddadleuon tebyg, gan bwysleisio bod angen hyfforddiant, a bod yn rhaid gwario arian, oherwydd bod dim modd gwneud cynnydd heb ddarparu hyfforddiant penodol wedi'i dargedu i weithwyr proffesiynol allu adnabod ac ymdrin â'r mater hwn.³³⁵

298. Tynnodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol sylw at y ffaith, yn ogystal â chost yr hyfforddiant ei hun, mai her ychwanegol yw dod o hyd i'r trefniadau cyflenwi i alluogi pobl i fynd ar hyfforddiant. Dywedodd fod y sefyllfa yn wirioneddol anodd mewn ysgolion ar hyn o bryd. Dywedodd fod y sefyllfa yn wirioneddol anodd mewn ysgolion ar hyn o bryd, bod yna lawer o sŵn, a bod angen, wrth geisio rhoi'r flaenoriaeth bennaf i hyn, dod â'r syniad realistig bod llawer yn digwydd yn ein hysgolion.³³⁶ Cytunodd Brook fod angen buddsoddi mwy o arian i wneud yn siŵr bod y pontio i ACRh yn llwyddiannus:

*"I speak to teachers on a regular basis, I'm in four comprehensive schools this week alone, and teachers are telling me that there isn't money being given to them for this kind of work—therefore it will fail."*³³⁷

299. Clywsom fod angen i arweinwyr ACRh, a fydd yn llywio'r gwaith o gyflwyno ACRh ar draws eu hysgolion dan y cwricwlwm newydd, fod yn eu lle erbyn mis Medi 2022, pan fydd addysgu'r cwricwlwm newydd yn dechrau. Dywedodd yr NSPCC wrthym fod rôl allweddol yma hefyd i arweinwyr ACRh mewn ysgolion ac mewn awdurdodau lleol, ond ei fod yn teimlo y dylai'r rhain fod yn eu lle erbyn mis Medi 2022 i sicrhau y bod modd cyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus.³³⁸

300. Clywsom bryderon na fydd pob arweinydd ACRh yn eu lle mewn ysgolion mewn pryd. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym nad yw wedi cael ei "sicrhau eto bod cynlluniau ar waith i sicrhau bod ymarferwyr arweiniol yn eu lle, ac wedi ymgysylltu â dysgu proffesiynol erbyn mis Medi 2022".³³⁹

301. Clywsom, hefyd, fod angen i rieni a gofalmwyr fod â rhan yn y broses o gyflwyno ACRh. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y canlynol wrthym:

"as we move forward in Wales with a stronger emphasis on relationships and sexuality education, and hopefully a real whole-school approach to that, then it's important that we take parents and carers along with us as part of that, and that parents and carers are involved in that learning in school, know

³³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 267

³³⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 151

³³⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 288

³³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 414

³³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 5

what their children are learning about, and also get specific advice and guidance as well on how to support their children in this way."³⁴⁰

302. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd i'r Pwyllgor, cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yr angen am hyfforddiant i weithredu ACRh:

"Rydym wedi comisiynu hyfforddiant i arweinwyr ysgolion er mwyn ymgorffori ein canllawiau gwrth-fwlio a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â phob math o fwlio mewn ysgolion, yn cynnwys bwlio homoffobig. Rydym yn gwneud dysgu proffesiynol yn flaenoriaeth allweddol dros y misoedd nesaf i gefnogi ysgolion a lleoliadau cyn rhoi ACRh ar waith, ac rydym wrthi'n cydweithio ag ymarferwyr a phartneriaid i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar gyfer ACRh."³⁴¹

303. Aethant ymlaen i egluro bod Rhwydwaith Cenedlaethol wedi'i sefydlu i "ddwyn ynghyd addysgwyr proffesiynol, arbenigwyr, rhanddeiliaid, gwneuthurwyr polisi ac i alluogi partneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith".³⁴²

304. Fe wnaethom ni ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a fydd gan bob ysgol uwchradd arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn eu lle erbyn mis Medi 2022. Dywedodd wrthym fod dwy lefel o arweinydd ACRh sydd angen bod yn eu lle: un lefel gydag awdurdodau lleol ac un ym mhob ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddiweddariad gan awdurdodau lleol ar eu sefyllfa bresennol:

*"We've received, I think, 16 responses so far from the 22 authorities. The responses with regard to the leads within the local authorities themselves are mixed at the moment in the secondary schools—. Well, in some areas, it's only secondary schools that have them in place; in others, it's more broadly in place. So, there's a mixed picture at the moment, but we are working with authorities to make sure that the leads are in place in time, obviously."*³⁴³

305. Fe wnaethom ni hefyd ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am y rôl y mae consortia rhanbarthol yn ei chwarae wrth gefnogi ysgolion i gyflwyno ACRh. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod gan y consortia 'rôl bwysig iawn':

"we're drawing on what school improvement services are learning from their work in schools in terms of the gaps in provision, if you like, and the further

³⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/03/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 363

³⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

³⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 26 - Llywodraeth Cymru

³⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

needs that schools have, which they're reporting through consortia. That's then helping us shape the Wales-wide professional learning commissioning and offer."³⁴⁴

Y Bil Diogelwch Ar-lein

306. Cyflwynwyd Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022. Mae'r Bil yn cyflwyno rheolau newydd i gwmnïau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr bostio eu cynnwys eu hunain ar-lein neu ryngweithio â'i gilydd, ac i beiriannau chwilio. O dan y Bil ar ei ffurf bresennol, bydd dyletswydd hefyd ar blatfformau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant i amddiffyn pobl ifanc sy'n defnyddio eu gwasanaethau rhag deunydd cyfreithlon ond niweidiol fel cynnwys ynghylch hunan-niweidio neu anhwylderau bwyta. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cyhoeddi neu'n gosod cynnwys pornograffig ar eu gweinyddwyr atal plant rhag cael mynediad at y cynnwys hwnnw.³⁴⁵

307. Clywsom gefnogaeth eang i ymdrechion Llywodraeth y DU i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer plant yn y Bil Diogelwch Ar-lein. Dywedodd Brook fod y Bil sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd yn cydnabod bod pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed ar-lein a bod angen amddiffyniad arbennig arnynt. Bydd yn cyflwyno pwerau newydd i'r rheolydd Ofcom gosbi cwmnïau technoleg nad ydynt yn amddiffyn pobl ifanc yn ddigonol, a'i nod yw annog cwmnïau technoleg i gymryd camau eu hunain i wneud eu platfformau, algorithmau a pheiriannau chwilio yn fwy diogel.³⁴⁶

308. Roedd yr Athro Renold yn cefnogi'r Bil, gyda'r amod bod yn rhaid iddo gael ei ategu gan hyfforddiant o ansawdd uchel i ymarferwyr:

*"While new laws and legislation, such as the new offence of 'cyber-flashing' in the Online Safety bill are crucial and welcome, they must be accompanied with an educational response that both joins-up and goes beyond the existing policy focused guidance that is rarely accompanied by a fully resourced and evidence based robust professional learning framework."*³⁴⁷

309. Nododd rhai rhanddeiliaid rôl i Lywodraeth Cymru fel rhan o ymdrechion ehangach y DU i reoleiddio'r gofod ar-lein i blant. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn dadlau:

³⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 98.

³⁴⁵ Gov.uk, 'Y Bil Diogelwch Ar-lein: taflen ffeithiau', diweddarwyd ar 19 Ebrill 2022

³⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH08 - Brook Cymru

³⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH06 - Yr Athro EJ Renold

*"bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn rhoi rôl reoliadol i Ofcom mewn perthynas â rhai platfformau ar-lein. Mae rôl i Lywodraeth Cymru yma yn sicrhau bod swyddogaeth Ofcom yn cael ei llywio gan hawliau plant, a gallai fod gwaith hefyd ar draws Llywodraethau'r Deyrnas Unedig i sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob awdurdodaeth yn gallu cymryd rhan yng ngwaith Ofcom, er enghraifft trwy grŵp ymgynghorol pobl ifanc."*³⁴⁸

310. Dywedodd yr NSPCC wrthym fod y Comisiynydd Plant, yn Lloegr, wedi cael ei gomisiynu gan adrannau Llywodraeth y DU i edrych ar y ffactorau cymdeithasol ehangach sy'n dylanwadu ar drais rhywiol a diwylliant treisio mewn ysgolion - yn enwedig sut mae agweddau'n cael eu siapio gan fynediad at bornograffi a'u llywio drwy sianeli ar-lein. Dywedodd yr hoffai weld ymarfer tebyg yn cael ei gynnal ar gyfer Cymru.³⁴⁹

311. Clywsom rai pryderon y gallai'r Bil Diogelwch Ar-lein arwain at ganlyniadau anfwriadol i bobl ifanc sy'n ceisio cymorth a chynghor ar-lein. Roedd ColegauCymru yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n llawn â deddfwriaeth berthnasol San Steffan i sicrhau bod y mater o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a niwed ar-lein yn fwy cyffredinol yn cael sylw priodol. Mynegodd bryder y gallai rhai dysgwyr (ac eraill) fod eisiau neu fod angen cael mynediad at rai gwasanaethau ar-lein yn ddienw. Dywedodd na ddylid eu hatal rhag ceisio cymorth a chefnogaeth drwy orfod cadarnhau eu manylion adnabod neu eu hoedran, er enghraifft mewn achosion o gam-drin rhywiol neu hyd yn oed ar gyfer materion fel anhwylderau bwyta ac ati.³⁵⁰ Cytunodd Brook, a dywedodd y canlynol wrthym:

*"[we] hope there will be increased openness to hearing from young people themselves and those supporting young people about how to make changes which will make the internet safer without closing off vital online spaces and vital information for young people".*³⁵¹

312. Ar 22 Ebrill 2022, fe wnaethom ni ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i ofyn am wybodaeth am y Bil Diogelwch Ar-lein. Roeddem eisiau gwybod beth oedd barn Llywodraeth Cymru am brif gymalau'r Bil, ac i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y Bil, ymhlith pethau eraill.³⁵²

³⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH04 - Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 12

³⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 14 - NSPCC

³⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH 20 - ColegauCymru, paragraff 9.2

³⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PPSH08 - Brook Cymru

³⁵² Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd', 22 Ebrill 2022

313. Yn eu hymateb ar y cyd, roedd y Gweinidogion yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i'r Bil Diogelwch Ar-lein wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein, a bod y Bil yn cydnabod yr angen i amddiffyn plant a phobl ifanc yn well rhag cynnwys niweidiol ar-lein. Aeth y llythyr ymlaen i gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a swyddogion Ofcom drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil a'i hynt drwy San Steffan.³⁵³

314. Pan wnaethom ofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol am ei barn ar y Bil, dywedodd:

*"I was very pleased, because there were concerns that it didn't go far enough. [...] I'm glad that the committee that actually looked at this, the joint select committee, actually did their response to it, which was to strengthen the Bill—that the Department for Digital, Culture, Media and Sport actually did agree to some of the recommendations [...] the role of legislation is crucial, because we know this is where we do not have the power or the ability to really influence or intervene."*³⁵⁴

315. Ar 19 Mai, fe wnaethom ni ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sef y Gwir Anrhydeddus Nadine Dorries AS. Roedd ein llythyr yn nodi pryderon a godwyd gan fwrdd golygyddol myfyrwyr Coleg Cambria ynghylch rôl y cyfryngau cymdeithasol, platfformau gemau a phlatfformau rhwydweithio cymdeithasol o ran aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Dywedodd y bwrdd golygyddol wrthym ei fod yn arbennig o bryderus nad yw darparwyr ar-lein yn amddiffyn plant rhag delweddau rhywiol, ac nad ydynt yn gorfodi terfynau oedran yn ddigonol. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gwir Anrhydeddus Nadine Dorries AS i ba raddau y mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.³⁵⁵

316. Cawsom ymateb dyddiedig 13 Mehefin 2022 gan y Gwir Anrhydeddus Chris Philp AS, y Gweinidog dros Dechnoleg a'r Economi Ddigidol. Yn y llythyr, mae'r Gweinidog yn mynegi pryder am ganfyddiadau ein hymchwiliad cyfredol, ac yn cydnabod y gall gweithgarwch niweidiol ar-lein fod yn arbennig o beryglus i blant a phobl ifanc. Mewn perthynas â'r pryderon penodol y mynegodd bwrdd golygyddol myfyrwyr Coleg Cambria i ni, mae'r llythyr yn nodi, o dan y Bil Diogelwch Ar-lein:

³⁵³ Llythyr ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 23 Mai

³⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 04/05/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 80

³⁵⁵ Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gwir Anrhydeddus Nadine Dorries AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon', 19 Mai 2022

- Rhaid i blatfformau gymryd camau i gael gwared ar ddelweddau anweddus o blant sydd wedi'u hunangynhyrchu. Os na fyddant yn gwneud hynny, byddant yn wynebu camau gorfodi llym gan Ofcom, y rheoleiddiwr annibynnol.
- Bydd gan blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a phlatfformau gemau gyfrifoldebau i ddileu cynnwys anghyfreithlon ac atal ei ledaeniad. Lle y mae'n debygol y bydd plant yn cael mynediad ato, rhaid iddynt ddarparu mesurau diogelwch ar gyfer plant sy'n ddefnyddwyr.
- Bydd hefyd yn rhaid i bob gwefan sy'n cynnwys deunydd pornograffig atal plant rhag cael mynediad at y cynnwys hwn.
- Os bydd plentyn yn dod ar draws cynnwys a gweithgaredd niweidiol, bydd rhieni a phlant yn gallu adrodd amdano'n hawdd a, lle y bo'n briodol, yn gallu cael cymorth. Bydd y deddfau newydd yn codi'r safon o ran sut mae cwmnïau'n ymateb i gwynion, gan y bydd Ofcom yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer mecanweithiau adrodd defnyddwyr.
- Os yw gwasanaeth yn dweud yn ei delerau gwasanaeth ei fod i oedolion neu i blant dros oedran penodol, bydd yn rhaid iddo orfodi'r telerau gwasanaeth hynny'n gyson.
- Rhaid i gwmnïau sy'n dweud bod eu gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr 13+/16+ oed gymryd camau i atal plant iau rhag cael mynediad iddo. Bydd Ofcom yn nodi yn ei godau ymarfer y camau y mae angen i ddarparwyr gwasanaethau eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn.
- Pan fo plant yn debygol o gael mynediad at wasanaeth, bydd yn rhaid i ddarparwyr nodi yn y telerau ac amodau eu dull o fynd i'r afael â chynnwys niweidiol i blant, a sicrhau bod y telerau gwasanaeth hyn yn hawdd eu cyrraedd ac yn cael eu cymhwyso'n gyson.³⁵⁶

Ein barn ni

Y cwricwlwm newydd

317. Rydym yn cytuno â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg nad yw'r cwricwlwm newydd yn ateb perffaith o ran ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae hynny'n arbennig o wir am

³⁵⁶ Llywodraeth y DU, 'Llythyr gan y Gweinidog Technoleg a'r Economi Ddigidol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 13 Mehefin 2022

unrhyw ddysgwr sydd ym mlwyddyn 7 neu'n uwch ar hyn o bryd, na fydd, oherwydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn raddol, yn cael yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) newydd. Ni all ysgolion ddibynnu ar y cwricwlwm newydd yn unig, os mai dim ond ar gyfer y bobl ifanc hynny (gweler Argymhelliad 14 a'n sylwadau cysylltiedig ar gyfer cynigion ar sut mae modd gwella addysg rhyw a pherthnasoedd i'r bobl ifanc hynny).

318. I'r dysgwyr hynny a fydd yn cael yr addysgu honno, mae llawer o obaith wedi'i roi ar y cwricwlwm newydd i sicrhau gwelliannau amlwg i'r modd y caiff addysg perthnasoedd a rhyw ei chyflwyno. Clywsom, dro ar ôl tro, fod gan y cwricwlwm newydd y potensial i drawsnewid er gwell sut mae dysgwyr yn rhyngweithio ag addysgwyr, a'i gilydd, ynghylch perthnasoedd rhywiol, cydsyniad a'r materion cymdeithasol ehangach sy'n golygu bod aflonyddu rhywiol mor gyffredin bellach mewn ysgolion.

319. Rydym yn rhannu'r gobaith hwnnw. Ond rydym hefyd yn ymwybodol bod gallu'r cwricwlwm ACRh newydd i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn enwedig gallu ysgolion i'w weithredu'n effeithiol. Ac, fel y gwnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ein hatgoffa, yn y bôn mae angen newid diwylliant yr ysgol gyfan, waeth beth fo'r cwricwlwm penodol y mae'r ysgol yn ei addysgu.

320. Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom ni lansio ymchwiliad Senedd gyfan i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi diwygiadau addysg allweddol ar waith, gan gynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.³⁵⁷ Bydd y corff hwn o waith, a fydd yn cynnwys cyfres o weithgareddau ymgysylltu a chraffu drwy gydol y Chweched Senedd, yn olrhain pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm newydd a'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu gwreiddio mewn ysgolion ledled Cymru. Yng ngoleuni'r gobeithion sydd ynghlwm wrth y cwricwlwm newydd i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr, a'r heriau sylweddol y mae Llywodraeth Cymru yn debygol o'u hwynebu wrth iddi geisio gwireddu ei uchelgeisiau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, byddwn yn rhoi sylw arbennig i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o'r gwaith hwnnw.

321. Yn y cyfamser, rydym wedi'n hargyhoeddi bod arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel ysgol yn hanfodol i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn llwyddiannus dan y cwricwlwm newydd. O ganlyniad, rydym hefyd wedi'n hargyhoeddi bod arweinwyr ACRh yn hanfodol i wireddu potensial y cwricwlwm newydd i wella profiadau pobl ifanc o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Er gwaethaf peth cynnydd, rydym yn pryderu nad yw arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'u penodi ym mhob ysgol. Dyma un o nifer o rwystrau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu

³⁵⁷ Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg'

yn anochel - ac y bydd yn parhau i'w hwynebu - o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac rydym yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yr un mor benderfynol â ni na ddylai ysgolion syrthio wrth y rhwystr hwn.

Argymhelliad 23. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022, ac yna bob chwe mis wedi hynny, ynghylch niferoedd a chyfrannau'r awdurdodau lleol ac ysgolion sydd ag arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle.

Rôl Llywodraeth y DU: y Bil Diogelwch Ar-lein

322. Mae gan y Bil Diogelwch Ar-lein, o'i ddiwygio a'i gryfhau, y potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ba mor dda y mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys ar-lein amhriodol. Cawsom sicrwydd gan ymateb y Gwir Anrhydeddus Chris Philp AS, y Gweinidog dros Dechnoleg a'r Economi Ddigidol, i'r pryderon y mynegodd bwrdd golygyddol myfyrwyr Coleg Cambria i ni. Byddwn yn dilyn hynt y Bil drwy Senedd y DU, ac i'w gyfnodau gweithredu, gyda diddordeb.

323. Hoffem hefyd gofnodi ein diolch i'r Gweinidog dros Dechnoleg a'r Economi Ddigidol a swyddogion yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Rydym yn ddiolchgar am y ffordd y maent wedi cefnogi ein hymchwiliad. Yn anffodus, yn rhy aml o lawer mae'r Senedd a'i phwyllgorau yn ei chael yn anodd ymgysylltu'n ystyrlon â Llywodraeth y DU ynghylch materion sy'n hollbwysig i'n gwaith ac i bobl Cymru. Nid felly y bu yn yr achos hwn. Rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu dibynnu ar eu cydweithrediad a'u cefnogaeth barhaus yn y dyfodol, ac rydym yn annog adrannau eraill Llywodraeth y DU i ddilyn esiampl adeiladol DCMS yn eu gwaith gyda deddfwrfeydd datganoledig y DU.

324. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn mynd drwy gyfnod adroddiad Tŷ'r Arglwyddi. Bydd yn fuan yn symud ymlaen i'w drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, cyn trosglwyddo i Dŷ'r Arglwyddi. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â darpariaethau cyfyngedig iawn yn y Bil, y mae'r Pwyllgor Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad eisoes wedi cyflwyno adroddiad arnynt. Mae potensial i ddiwygiadau eraill gael eu gwneud i'r Bil wrth iddo barhau ar ei hynt drwy'r broses graffu. Os cytunir ar ddiwygiadau i'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall dan Reolau Sefydlog y Senedd i gael cydsyniad y Senedd ar gyfer y newidiadau hynny. Os digwydd hynny, rydym yn annog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Senedd yn cael digon o amser i graffu'n briodol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwnnw.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i'r Senedd graffu ar unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Diogelwch Ar-lein yn y dyfodol, os gwneir diwygiadau i'r Bil hwnnw sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar **wefan** y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
10 Chwefror 2022	Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol Estyn Dyfrig Ellis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Estyn Delyth Gray, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn
10 Mawrth 2022	Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys Amanda Blakeman, Dirprwy Brif Gwnstabl a'r arweinydd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant Jon Drake, Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru Claire Parmenter, Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Arweinydd Plismona yng Nghymru Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a'r Arweinydd Plismona yng Nghymru Stephen Wood, Rheolwr Tîm Troseddau Ieuencid Kirsty Davies, Rheolwr Gweithredol, Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Casnewydd Sharon Davies, Cyfarwyddwr Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Sue Walker, Prif Swyddog Addysg, Merthyr Tudful ac yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru Maxine Thomas, Uwch Arweinydd Dynodedig Diogelu a Llesiant Dysgwyr, Coleg Sir Benfro ac yn cynrychioli Colegau Cymru Jamie Insole, Swyddog Polisi, Undeb Prifysgolion a Cholegau

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru Jane Houston, Cyngorydd Polisi, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru Cecile Gwilym, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC
24 Mawrth 2022	Laura Doel, Cyfarwyddwr Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru Chris Parry, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru Eithne Hughes, Cyfarwyddwr Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru Mary van den Heuvel, Uwch-swyddog Polisi, Undeb Addysg Cenedlaethol Mairead Canavan, Ysgrifennydd Rhanbarth yr Undeb Addysg Cenedlaethol dros Fro Morgannwg, ac aelod o Weithrediaeth Undeb Addysg Cenedlaethol Rebecca Williams, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru Kelly Harris, Arweinydd Datblygu Busnes a Chyfranogiad, Brook Cymru Iestyn Wyn, Rheolwr Ymgyrchoedd, Polisi ac Ymchwil, Stonewall Cymru Yr Athro Emma Renold, Athro Astudiaethau Plentynod, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd Kerry Packman, Cyfarwyddwr Gweithredol Rhaglenni, Aelodaeth a Gwasanaethau Elusennol, ParentKind Ceri Reed, Cyfarwyddwr, Pafents Voices in Wales Lowri Jones, Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog, Canolfan Breswyl yr Urdd Sally Thomas, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth Hawliau Merched y DU, Plan UK International

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Siobhan Parry, Pennaeth Gwasanaethau Pobl Ifanc, Platfform
4 Mai 2022	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Kirsty Davies-Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cydraddoldeb mewn Addysg, Llywodraeth Cymru Sian Jones, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu, Llywodraeth Cymru Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Zsanett Swan, Uwch Reolwr Polisi, Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, Llywodraeth Cymru Emily Keoghane, Pennaeth Polisi LHDTC+, Llywodraeth Cymru Alessandro Ceccarelli, Pennaeth Polisi LHDTC+, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl **ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
PPSH 01	Unigolyn
PPSH 02	Spectacle Theatre Ltd
PPSH 03	Vicky Leanne Wheeler
PPSH 04	Comisiynydd Plant Cymru
PPSH 05	Ambiwlans Sant Ioan Cymru
PPSH 06	Yr Athro EJ Renold
PPSH 07	Ysgol Uwchradd Fitzalan
PPSH 08	Brook Cymru
PPSH 09	Platfform
PPSH 10	Parents Voices in Wales CIC
PPSH 11	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
PPSH 12	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)
PPSH 13	Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)
PPSH 14	NSPCC
PPSH 15	Iechyd Cyhoeddus Cymru
PPSH 16	Barnardo's Cymru
PPSH 17	Heddlu Dyfed Powys
PPSH 18	Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru)

Cyfeirnod	Sefydliad
PPSH 19	Cymorth i Ferched Cymru
PPSH 20	ColegauCymru
PPSH 21	Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd
PPSH 22	Cyngor Abertawe
PPSH 23	Teuluoedd a Therapiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
PPSH 24	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
PPSH 25	Undeb Prifysgolion a Cholegau
PPSH 26	Llywodraeth Cymru

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad derbyn
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	5 Ebrill 2022
Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru	6 Ebrill 2022
Parentkind	11 Ebrill 2022
Yr Athro EJ Renold	12 Ebrill 2022
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru	12 Ebrill 2022
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon	5 Mai 2022
Estyn	8 Mehefin 2022
Tystiolaeth ychwanegol gan yr undebau athrawon ynghylch ffonau symudol mewn ysgolion	Mehefin 2022